Y DRYSORFA.

Rhif. 706.] AWST, 1889. [Llyfr LIX.

SYLWADAU AR WEDDI YR ARGLWYDD.

GAN Y PARCH. JOHN PRICHARD, BIRMINGHAM.

Gweddi yr Arglwydd yw yr ail bennod ar bymtheg o'r Efengyl yn ol Ioan, yr hon a elwir felly gyda mwy o briodoldeb na'r cynllun o weddi a roddes efe i'w ddysgyblion. Nis gallai yr Arglwydd ei Hun weddïo hono; ac nis gallai ond yr Arglwydd Ei Hun weddïo hon, er ei bod yn gyfoethog o ddefnydd gweddïau i bawb a gredant ynddo Ef. Os priodol meddwl fod un rhan o'r Ysgrythyr yn fwy dwyfol na rhan arall, y weddi hon, yn sicr, yw y rhan fwyaf dwyfol. Y mae yr Efengylwyr yn cyfeirio at y Gwaredwr yn gweddïo mewn saith neu wyth o amgylchiadau eraill, ac mewn un o honynt fe geir o leiaf rai o eiriau ei weddi. Yn yr amgylchiadau hyny y mae ei Dduwdod bron yn hollol guddiedig. Yn y weddi hon, o'r ochr arall, nid oes o'r bron ddim ond Ei Dduwdod yn weledig. Nid cardotyn sydd yma ger bron yr orsedd, ond Mab ger bron gorseddfainc Ei Dad yn dadleu ei deilyngdod, ac yn mynegi ei ewyllys. Y mae y tawelwch mawreddog sydd yn nodweddu y weddi trwyddi, yn enwedig wrth ystyried sefyllfa ofnadwy y gweddïwr ar y pryd, yn gwneyd i Dduwdod yn amlwg. Nid oes yma yr arwydd lleiaf o gyfyngder—dim cryndod petrusgar mewn un ymadrodd, dim ocheneidiau dolefus, dim brawddegau toredig gan ing, dim—ond pob peth yn deilwng o hono Ef fel yr ydym yn ei adnabod yn Berson Dwyfol mewn cyflwr o ymddarostyngiad. Cymharwch y weddi hon â'r weddi yn ngardd Gethsemane—ac nid oedd ond cwpl o oriau rhyngddynt, os oedd cymaint. Y mae y gwahaniaeth rhyngddynt mor fawr fel nad oes ond Person y Duw-ddyn a'u cysona. Yn yr ardd y mae Efe yn yr ing dyfnaf; yma y mae Efe yn y tangnefedd llawnaf. Yn yr ardd y mae Efe bron cael ei lethu gan y rhagolwg ar ei ddyoddefiadau; yma, er fod y groes yn y golwg o'i flaen, y mae Efe megys pe yn sefyll y tu draw iddi: *gogoniant* yw y cwbl ganddo. Yn yr ardd, y mae y dwyfol yn ymguddio yn y dynol; yma, y mae y dynol yn guddiedig gan ogoniant dwyfol. Rhaid fod yr Hwn oedd yn gweddïo yn yr ardd yn berffaith ddyn. Rhaid fod yr Hwn a weddïodd yr ail ar bymtheg o Ioan yn berffaith Dduw. Yr ydym yn teimlo ein bod yn y weddi hon yn gwrando dirgelion dystaw cyfrinach y Drindod. Y mae dynion yn cael eu cynnwys ynddi; ond nid dyn yw y gweddïwr. Y mae Efe o'r dechreu i'r diwedd yn gosod ei Hun gyda'r Tad ar gyfer dynion. "Ni" a "hwythau." Duw sydd yma yn gweddïo rhyngddo ag Ef ei Hun; neu, yr hyn sydd yr un peth, Duw—y Mab—yn gweddïo, a Duw—y Tad—yn gwrando. Nid yw hyn yn amddifadu y weddi o deimladau dynol y Gwaredwr; yn hytrach, y mae teimladau ei ddynoliaeth berffaith yma yn eu dwysder mwyaf; ond y maent yma wedi eu cyd-dymheru â'i deimladau dwyfol ac yn dyfod yn archiadau ei ewyllys ddwyfol.

Yn gyffredin "aroswch chwi yma tra yr elwyf a gweddïo acw" oedd arfer yr Iesu gyda'r dysgyblion. Ond y tro hwn y mae Ioan ac eraill yn cael y fraint o benlinio wrth ochr yr Eiriolwr mawr a gwrando ei ddeisyfiadau. Ac yr oedd adeiladaeth y dysgyblion yn mryd y Gwaredwr pan yn caniatâu iddynt ei wrando yn gweddïo. "A'r pethau hyn yr wyf yn eu llefaru yn y byd, fel y caffont fy llawenydd I yn gyflawn ynddynt eu hunain." A oes rhywun yn ammeu fod yma ffugiant? Ni bu trafodaeth erioed yn fwy gwir trwyddi. Nid pregeth ydyw yn rhith gweddi. Yr oedd Efe yn "gweddïo yn wastad ac heb ddiffygio." Un weddi ddidòr oedd ei holl fywyd a holl agweddiad ei galon. Yr oedd ei holl leferydd yn bregethau ac yn weddïau. Dyhead gwastadol ei galon, yr hon oedd bob amser yn gyfeiriedig at ei Dad ar ran ei eiddo, sydd yma yn cael ei ddadguddio. Am unwaith y mae efe yn goddef i'w gymundeb uniongyrchol dirgeledig, cyson, â'i Dad, dori allan yn eiriau llafaredig fel moddion gras i'w ddysgyblion.

Nid yw yr Hen Destament yn rhoddi cymaint o le i weddïau offeiriadol ag i weddïau breninol; ac nid wyf yn awr yn cofio am un gair ynddo sydd yn ein dysgu i adnabod yr offeiriaid wrth eu swydd fel gweddïwyr dros y bobl. Nid yw er hyny yn anhawdd cyfrif am fod y weddi hon yn cael ei galw yn *weddi archoffeiriadol*. Yr oedd holl wasanaeth yr offeiriaid yn weddi arwyddluniol. Yr oedd yr addolwyr Iuddewig, yn ddiau, yn cyfrif fod yr offeiriaid yn holl wasanaeth yr aberthau yn dadleu eu hachos hwy ger bron Duw, yn ffordd ordeiniedig Duw ei hun. "Dros ddynion yn y pethau sydd tuag at Dduw" yw holl feddwl yr offeiriadaeth. Mewn arwyddluniau, os nad mewn geiriau, gweddïwyr oedd yr offeiriaid. Yr oedd ymddangosiad yr archoffeiriad ger bron Duw o fewn i'r wahanlen ar ddydd y cymmod yn arbenig felly. Oddiallan i'r wahanlen y mae yr Iesu yn gweddïo yma. Y mae Efe eto yn "nghorff ei gnawd Ef," ac yn gweddïo am ei ogoneddiad. Ond yn mhob ysgogiad o'i eiddo "drosom at y Tad" yr ydym yn naturioi yn meddwl am dano fel ein Harchoffeiriad mawr, Iesu Mab Duw. Ond os yw yr Archoffeiriad mawr i'w weled yn y weddi, y mae y Prophwyd mawr hefyd yn ei ogoniant ynddi. Y mae gweinidogaeth Crist yn ei gyflwr o ymddarostyngiad yn terfynu gyda'r weddi hon; ac ynddi y mae ei ddysgeidiaeth yn cyrhaedd ei huchafnod. Y mae Efe yn crynhoi ynddi yr oll a dystiolaethodd Efe am ei Dad, am dano ei hun, ac am ei eglwys, mewn gweithred o gymundeb dwyfol yn ngwydd ac yn nghlyw ei ddysgyblion.

A oes i'r weddi un *neges* arbenig? Os oes, pa beth yw yr un neges hono sydd yn crynhoi y cwbl? Mewn ymddyddan am ryw bethau gofidus yn agwedd cymdeithas ar y ddaear, rai blynyddoedd yn ol, gofynai cyfaill i mi pa fodd y deallwn eiriau Crist yn y nawfed adnod o'r bennod hon: "Nid dros y byd yr wyf yn gweddïo?" Yr unig ateb a ellais ei roddi ar y pryd oedd fod y geiriau yn cyfeirio at ddeisyfiadau neillduol y Gwaredwr ar ran ei ddysgyblion, a bod eu sefyllfa ysbrydol hwy fel rhai "a wybuant yn wir mai oddiwrthyt Ti y daethum I allan, ac a gredasant mai Tydi a'm hanfonaist I," yn ddadl dros y deisyfiadau hyny; ac nad oeddynt yn cau y byd allan o gylch eiriolaeth Crist—mai gwrthun fyddai meddwl fod cariad y Mab yn cynnwys llai na chariad "y Tad, yr hwn a'i hanfonodd Ef" i fod yn Iachawdwr i'r byd, neu ei fod Ef yr hwn "yw yr Iawn . . . . . dros bechodau yr holl fyd" yn fwy cyfyng yn ei eiriolaeth nag yn ei aberth.

Ond mi a frysiais i ddarllen y weddi dan gymhelliad y cwestiwn. Ac ni bum yn hir heb gael fy argyhoeddi, nid yn unig nad oedd y geiriau a grybwyllodd fy nghyfaill yn gwahardd i ni yr ymwared sydd mewn meddwl fod Crist yn eiriol dros y byd, ond fod yr holl weddi, o'r dechreu i'r diwedd, er mwyn y byd. Yr un amcan terfynol yn yr hwn y mae ei holl gynnwys yn gorphwys yw "fel y credo y byd." Yr un neges fawr yw *iachawdwriaeth y byd.*

Yn y rhan flaenaf o'r weddi—pump o adnodau—y mae yr Iesu yn gweddïo *am ei ogoneddiad ei Hun.* Y mae tri golygiad yn cael eu cynnyg ar y gogoniant y mae Efe yn gweddïo am dano. Un ydyw, ei fod yn gofyn i'w Dad ei nerthu i fod yn "ufudd hyd angeu, ïe angeu y groes." "Y Tad, daeth yr awr." 'Dyma awr fawr y dyoddef wedi dyfod; corona dy Fab â gogoniant buddugoliaeth yn yr ymdrech sydd yn awr o'i flaen.' Er *fod* yn y golygiad yna wirionedd mawr, ac er y gall ymddangos yn gorwedd yn naturiol yn yr adnod gyntaf, y mae yn anhawdd os nad yn anmhosibl ei gario trwy y geiriau sydd yn canlyn. Un arall ydyw ei fod yn gweddïo am ddadguddiad gweledig i'r byd o'i ogoniant ar achlysur ei farwolaeth. Fe oddef yr holl ymadroddion y golygiad hwn yn ddidrais, ond y bydd raid rhoddi ystyr i'r bummed adnod nad wyf yn gwybod am neb yn anturio ei roddi. "Mi a'th ogoneddais Di ar y ddaear. . . . . Ac yr awr hon, O Dad, gogonedda Di Fyfi gyda Thi Dy Hun," hyny ydyw, ar y ddaear, "â'r gogoniant oedd i Mi gyda Thi cyn bod y byd." 'Gwna fy Nuwdod yn amlwg ar y ddaear yn fy marwolaeth.' Y golygiad arall, a'r un a dderbynir yn fwyaf cyffredinol, yw ei fod yma yn gweddïo am ei ddyrchafiad i ddeheulaw y Tad. Ond pa ogoniant bynag a olygir, iachawdwriaeth y byd yw yr amcan mawr. Os gogoniant goruchafiaeth mewn ufudd-dod hyd angeu yw y meddwl, gweddïo y mae Efe am ei berffeithio yn Iawn dros bechodau y byd. Os arddangosiad o'i ogoniant dwyfol ar y groes yw y meddwl, y mae Efe yn ceisio hyny "fel y credo y byd." Os y dyrchafiad i'r ddeheulaw yw y meddwl, y mae Efe yn hyny "nid yn ceisio yr eiddo ei Hun, ond yr eiddo eraill hefyd." "Buddiol yw i chwi fy myned i ymaith, canys onid af fi ni ddaw y Dyddanydd atoch." Y mae Efe yn gweddïo am ei ddyrchafiad fel y ffordd i sicrhau dyfodiad yr Ysbryd Glân. Yn ol geiriad hapus Godet, meddwl Crist yw "Caniatâ i mi y dyrchafiad fel y gallwyf gyflawni gwaith y Pentecost." Yr ydym wedi arfer edrych ar y weddi hon fel dadguddiad o eiriolaeth Crist yn y nef. Ar y ddaear yr oedd Efe yn ei gweddïo; ac y mae Efe yn y rhan gyntaf yn gweddïo am ei ddyrchafiad i'r nef. Y mae yn bwysig i ni ddal ein gafael ynddi yn gyntaf fel cyfran gysegredig a godidog o hanes bywyd Crist ar y ddaear. Ond wedi myned trwy y rhan gyntaf, y mae yn ddyogel i ni ei chymeryd yn ddadguddiad o ysbryd ei eiriolaeth yn y nef. "Iesu Grist ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd." Y mae yr Arglwydd Iesu Grist yn bod yn y nefoedd, megys yr oedd yn bod ar y ddaear, er mwyn y byd. Y mae ei lygaid o'r orsedd ar y byd, a'i galon ar iachawdwriaeth y byd. Y mae yr iawn a'r eiriolaeth mewn undeb yn ei Berson, ac yn ol yr Apostol Ioan y mae y ddau yn un mewn meddwl ac eangder. "Y mae i ni Eiriolwr gyda'r Tad, Iesu Grist y Cyfiawn; ac Efe yw yr Iawn dros ein pechodau ni; ac nid dros yr eiddom ni yn unig, eithr dros bechodau yr holl fyd."

O'r chweched adnod i ddiwedd y bennod y mae y Gwaredwr yn gweddïo *dros yr Eglwys oedd ar y ddaear ar y*

pryd am ei pherffeithiad er mwyn ei gwaith yn iachawdwriaeth y byd. Fe olygir yn gyffredin fod yma ddwy ddosran, un dros yr Apostolion wrthynt eu hunain; a'r llall, yn dechreu gyda'r ugeinfed adnod, dros yr holl eglwys hyd ddiwedd amser. Y mae yr ugeinfed adnod fel hyn: "Ac nid wyf yn gweddïo dros y rhai hyn yn unig, eithr dros y rhai hefyd a gredant ynof Fi trwy eu hymadrodd hwynt." Y cyfeithiad Seisonig diwygiedig yw, "Dros y rhai *sydd yn credu* ynof Fi." Ac addefir mai felly y llefarodd Crist. Ac er hyny myn llïaws yr esbonwyr ei fod yn "y rhai sydd yn credu ynof Fi" yn rhagolygu yr holl gredinwyr hyd ddiwedd amser. Ymddengys i mi eu bod fel hyn yn aberthu cymeriad hanesyddol y weddi i'w rhagsyniad am ei safle dduwinyddol. Y maent fel hyn hefyd yn llithro i'r afresymoldeb o dybied fod y Gwaredwr yn gweddïo dros yr holl gredinwyr hyd ddiwedd amser "fel y credo y byd." Yr unig ymwared oddiwrth yr afresymoldeb yw yr esboniad annuwiol mai "ffydd hanesyddol" yn unig y mae Efe yn gweddïo am dani i'r byd. Onid yw yn amlwg fod meddwl a chalon yr Eiriolwr mawr yn y weddi gyda'r eglwys ieuanc yr oedd Efe ar fedr ei gadael dan gyfrifoldeb mawr ac mewn prawf llym yn y byd? Dengys yr ugeinfed adnod fod yr Apostolion yn arbenig yn ei olwg; ond nid dechreu adran newydd o'r weddi y mae Efe yn yr adnod hono, yn hytrach mynegi y mae Efe fod yr holl weddi o ran ei hanfod dros yr holl eglwys oedd ar y ddaear ar y pryd. Cael yr eglwys yr oedd Efe ar fedr ei gadael yn y byd, wedi ei chymhwyso i'r gwaith o achub y byd, yw baich ei ddeisyfiadau.

Dau ddeisyfiad sydd yn y weddi ar eu rhan: "Cadw hwynt yn Dy Enw" a "Sancteiddia hwynt yn Dy wirionedd." Arweinir at y deisyfiadau hyn trwy gyflwyno yr eglwys i'r Tad fel trysorfa y wybodaeth o hono Ef ar y ddaear. Ychwanegir at hyny yr ystyriaeth o'r enbydrwydd yr oedd hi, fel y cyfryw, ynddo yn y byd. "Mi a eglurais Dy Enw i'r dynion a roddaist i Mi allan o'r byd. . . Yr awrhon y gwybuant mai oddiwrthyt Ti y mae yr holl bethau a roddaist i Mi. Canys y geiriau a roddaist i Mi a roddais iddynt hwy; a hwy a'u derbyniasant, ac a wybuant yn wir mai oddiwrthyt Ti y daethum I allan, ac a gredasant mai Tydi a'm hanfonaist I." 'Wele hwynt, fy Nhad, a'r cwbl a ymddiriedaist i Mi yn nghadw ynddynt.' "Drostynt hwy yr wyf fi yn gweddïo." Y mae enw y Tad Sancteiddiol wedi ei egluro iddynt a'i dderbyn ganddynt. Y mae geiriau y Tad wedi eu rhoddi iddynt, ac yn drysoredig ynddynt. Ac y maent hwy, a'r trysor hwn yn guddiedig ynddynt, "yn y byd." Ië, "yn y byd," nid ar y ddaear yn unig. "Ac nid wyf mwyach yn y byd, ond y rhai hyn sydd yn y byd." Fe wyddai yr Eiriolwr, ac Efe a ŵyr, pa beth yw bod "yn y byd" ac heb fod "o'r byd." "Y rhai hyn sydd yn y byd. . . . Y Tad Sancteiddiol, cadw hwynt yn Dy enw." Heb y gadwraeth ddwyfol hwy a lithrant i feddyliau ac ysbryd y byd, yr hwn nid adwaen y Tad na'r Mab; fe ant hwy a'r trysor sydd guddiedig ynddynt ar goll. Y mae yr ail ddeisyfiad yn gynnydd ar y cyntaf. "Dy enw" yw yr adnabyddiaeth ddechreuol o Dduw fel y Tad—etifeddiaeth y plant bychain yn ol yr Epistol. "Dy wirionedd" yw yr holl efengyl —"gair Duw yn aros ynoch," etifeddiaeth y gwŷr ieuainc, y rhai cryfion. Nid yw y "cadw" drachefn ond diogeliad yr hyn sydd ganddynt, tra y mae "sancteiddia hwynt" yn ceisio ffrwythloniad llawn y gwirionedd ynddynt. 'Cadw hwynt yn symlrwydd yr adnabyddiaeth o honot Ti a dderbyniasant genyf Fi; ïe, sancteiddia

hwynt trwy beri i'r holl ddadguddiad o honot ac o'th ewyllys eu llwyr feddiannu.' Yn eu profiad hwy fe fydd eu sancteiddiad yn ymgysegriad yn y gwirionedd—nid yn unig yn ymgysegriad trwy y gwirionedd fel moddion, ac nid yn unig yn ymgysegriad i'r gwirionedd fel amcan, ond—yn ymgysegriad a'u dwg i gartrefu, i fywiolaethu, i weithio, i *fod* yn y gwirionedd.

Ac y mae i'r deisyfiadau ddau amcan: "Fel y byddont un," ac "fel y credo y byd." Y mae y weddi yn cael ei hamcan mor bell ag y mae ei golwg ar yr eglwys yn ei hundeb. Ond y mae llygaid yr Eiriolwr trwy yr eglwys ar y byd; y mae ei hundeb yn cael ei ofyn fel ei chymhwysiad i roddi ffydd i'r byd. Y ddadl fawr am ei chadwraeth a'i sancteiddiad, a thrwy hyny am ei hundeb, yw fod defnyddiau iachawdwriaeth y byd ynddi, a'i bod hi yn anfonedig Crist i'r byd fel yr oedd Crist yn anfonedig y Tad i'r byd. Oni b'ai ein bod yn gwybod fod perffeithiad yr eglwys, a pherffeithiad pob aelod ynddi, i'w cael yn ngwaith yr iachawdwriaeth, buasem dan demtasiwn i dybied fod cariad y Gwaredwr at y byd yn fwy amlwg yn y weddi na'i gariad at yr eglwys. Nid yn unig y mae eiriolaeth Crist yn cynnwys y byd, ond, hyd y mae y weddi hon yn ei ddadguddio, y mae pob peth y mae yr eiriolaeth yn ei gynnwys, er mwyn y byd. Un neges fawr y cwbl yw codi yr eglwys i'r cyfaddasder uchaf i'w gwaith fel anfonedig Crist i'r byd. Y "fel" yn yr hwn y mae yr holl eiriolaeth yn y weddi hon yn gorphwys yw "*fel y credo y byd.*"

A ydyw y bedwaredd adnod ar hugain *yn edrych ymhellach* na gwaith yr eglwys yn y byd? Ydyw, medd yr holl esbonwyr, y mae hi yn edrych at ogoniant y nef. Mi a wn fy mod yn ymylu ar hyfdra anweddaidd wrth awgrymu ammheuaeth. Ond "maddeuwch i mi hyn o gam." Dyma yr adnod: "Y Tad, y rhai a roddaist i mi, yr wyf yn ewyllysio lle yr wyf fi fod o honynt hwythau gyda myfi, fel y gwelont fy ngogoniant a roddaist i mi." Yn y bymthegfed adnod fe ddywed y Gwaredwr nad yw yn gweddïo ar ei Dad eu cymeryd hwynt allan o'r byd. Yr oedd yn ddiau fwy nag un rheswm am beidio eu cymeryd allan o'r byd; ond un sydd yn dyfod yn amlwg yma, a hwnw ydyw, fod ar y byd eu heisieu hwynt. Y mae ganddynt y gwasanaeth pwysicaf i'w gyflawni dros eu Harglwydd i'r byd, ac am eu cyflawni o rym ysbrydol i hwnw yr eiriolir. A ydyw yn debyg fod yr Eiriolwr yn ebrwydd wedi hyn yn ewyllysio eu cael hwynt allan o'r byd? Eto, cymerwch y geiriau dan ystyriaeth mewn undeb â'r ail adnod ar hugain: "A'r gogoniant a roddaist i mi a roddais iddynt hwy, fel y byddont un." Diau y cytuna pawb mai yr un yw gogoniant y ddwy adnod. Ond pa ogoniant? Gogoniant y nef mewn rhagolygiad, medd rhai—esiampl arall o aberthu cymeriad hanesyddol y weddi. Yr wyf yn edrych am yr ystyr mwyaf cyson âg un neges y weddi, i'r geiriau. A dyma fo: gogoniant gwaith y cyfryngdod—yr ymddiriedaeth a'r cymhwysder iddo. Dyna y gogoniant a roddes y Tad i'r Mab, ei anfonedig, ac a roddes y Mab i'w ddysgyblion, ei anfonedigion. Hwn yw y gogoniant sydd i weithredu undeb yr eglwys, y gogoniant o fod yn ei hundeb â Christ, dan dragywyddol bwys y gwaith o ddwyn y byd i gredu, a'i bod wedi ei chyflawni o ddwyfol rym i'w gwaith. Ai nid ewyllysio y mae yr Eiriolwr yn y bedwaredd adnod ar hugain i'r eglwys gael ei chodi i'r un safle ysbrydol ag Ef ei hun, fel y gwelai, y gallai amgyffred, y gogoniant hwn, a roddwyd gan y Tad iddo Ef, a chanddo Ef

iddi hi? Yr wyf yn cael cefnogaeth i'r golygiad yn yr ystyriaeth fod y ddwy adnod sydd yn canlyn, yn y rhai y mae y weddi yn terfynu, nid yn gyfeiriedig at yr eglwys yn y nef, ond yn ddadl seiliedig ar anghen y byd a gwerth yr eglwys i'r byd.

Nid oes yn y weddi un cyfeiriad at *Berson yr Ysbryd Glân*, nac yn uniongyrchol at ei waith. Paham, tybed? Y mae y Gwaredwr wedi esgyn at y weddi hon trwy yr ymddyddan cydnaws, grasusol a dyrchafedig a geir yn y pennodau blaenorol. Gellir yn briodol galw y pennodau hyny yn bregeth olaf Crist yn y cnawd, a chyfrif y weddi yn ddiwedd yr oedfa. Yr oedd meddyliau y dysgyblion ar ddiwedd y bregeth, rhwng chwilfrydedd a gobaith, yn llawn o'r Ysbryd Glân. "A mi a weddïaf ar y Tad, ac Efe a rydd i chwi Ddyddanydd arall . . . . Ysbryd y gwirionedd." "Eithr y Dyddanydd, yr Ysbryd Glân, yr hwn a enfyn y Tad yn fy enw I, efe a ddysg i chwi." "Eithr pan ddêl y Dyddanydd . . . . Ysbryd y gwirionedd . . . . efe a dystiolaetha am danaf Fi." "Buddiol yw i chwi fy myned I ymaith; canys onid âf Fi, ni ddaw y Dyddanydd atoch; eithr os mi a âf, mi a'i hanfonaf Ef atoch. A phan ddêl Efe a argyhoedda y byd." "Ond pan ddêl Efe, Ysbryd y gwirionedd, Efe a'ch tywys chwi i'r holl wirionedd." Dyna yr ymadroddion sydd yn britho y bregeth. Yr addewid am y Dyddanydd oedd ei chenadwri fawr. Yr addewid hono, yn fwy na phobpeth, oedd yn aros yn meddyliau y dysgyblion. Yr addewid hono, bellach, oedd sail eu gobaith a'u hyder. Yr oeddynt erbyn hyn yn gwybod fod eu holl gymhwysder a'u nerth i'w gwaith, a'u llwyddiant yn eu gwaith, i ddyfod mewn Person Dwyfol arall. Yn y weddi y mae y Gwaredwr, i'r dyben o buro ac ysbrydoli y dysgwyliad a ddeffrôdd Efe yn eu calonau, yn gofyn gan y Tad, nid Person yr Ysbryd Glân wrth ei enw, ond *yr hyn* yr oedd y dysgyblion i'w ddysgwyl trwy gyflawniad yr addewid am dano. Yr oeddynt i ddysgwyl yr Ysbryd Glân i'w cadw yn enw y Tad, i'w sancteiddio yn y gwirionedd, yn arweinydd iddynt yn myd mawr y gwirionedd, a thrwy hyny i'w huno â'u gilydd yn mywyd y Duwdod, fel trwyddynt "y credo y byd."

Ydyw, y mae yr eiriolaeth yn *cynnwys y byd*. Y mae yr eiriolaeth dros yr eglwys yn eiriolaeth er mwyn y byd. Y gogoniant mwyaf a all cariad yr Eiriolwr ei ddymuno i'r eglwys ydyw ei bod yn "oleuni y byd." Hyny yw ei pherffeithrwydd hi ei hun. Trwy hyny y gweithir allan iachawdwriaeth yr eglwys ei hun. Ymgysegriad yr eglwys yn y gwirionedd a ymddiriedwyd iddi, a sicrhâ ffyniant pob dwyfol ras ynddi; fe sicrhâ yr ymgysegriad hwnw ei hundeb; a'i hundeb yw ei pherffeithrwydd fel corff Crist; a'r perffeithrwydd hwnw yw ei chymhwysder uwchaf i waith Crist. Yr hyn yn ddiau y mynai y Gwaredwr i'r eglwys ei ddysgu yn y weddi yw, annhraethol bwys ei hymgysegriad yn yr etifeddiaeth o oleuni a roddwyd iddi fel ag i sicrhâu ei hundeb. Efe a ddysg i'r eglwys fel hyn natur oruchel ei gwir undeb. Y mae yr undeb a ennillir yn y gwirionedd yn undeb dwyfol. Undeb y Duwdod yw ei ffynnonell a'i gynllun. Ië, y mae y Duwdod yn yr undeb; ac wedi ei berffeithio fe lewyrcha y Duwdod trwyddo "fel y credo y byd."

Rhaid y bydd tòn o dristwch yn myned dros ysbryd pob Cristion ystyriol pan yn darllen y weddi, wrth feddwl mor bell oddiwrthi yw *stad bresennol yr eglwys*. Nid am fod lliaws o gyfundebau crefyddol, a'r rhai hyny yn lliosogi. Peth cymharol ddibwys yw hyny ynddo ei hun, tra

y bydd y cyfundebau hyny yn glynu wrth hanfod y gwirionedd, tra y byddant yn un yn eu tystiolaeth am iachawdwriaeth Duw i'r byd. Ffrwyth gweithrediad rhydd bywyd yr eglwys yw y cyfundebau amrywiol. Nid yw bodolaeth y rhai hyny, ynddo ei hun, yn un rhwystr i'r byd gredu, mwy na bod cangen eglwys yn cynnwys amryw deuluoedd. Nid yw yn werth i neb ymboeni i geisio gwneyd yr eglwys ar y ddaear yn un cyfundeb unffurf. Nid am unffurfiaeth Pabyddol, esgobyddol, henaduriaethol, cynnulleidfaol, nac arall y mae yr Eiriolwr yn gweddio. Pe ceid hyny ni byddai ynddo ei hun yn ddim at argyhoeddi y byd. Celfyddydwaith a fyddai ar ei oreu, ac nid creadigaeth. A chreadigaeth sydd yn dadguddio Duw; ac nid oes dim llai na dadguddiad o Dduw a ddaw â'r byd i gredu. A phe yr ymddangosai rhyw drefniedydd digon galluog i berswadio holl gyfundebau Cristionogol y byd i gymeryd un enw, ac addoli a phob peth arall yn unffurf, naill ai fe fyddai yn rhaid rhoddi yr eglwys mewn hualau dinystriol i'w bywyd, neu fe dorai ei bywyd allan mewn ffurfiau amrywiol drachefn, oddieithr iddi suddo i ffurfioldeb marw. Ffrwyth ymsaethiad allan zel Gristionogol yw y nifer fwyaf o'r cyfundebau amrywiol—yr ymwahaniad cyntaf yn hanes yr eglwys, y Novatiaid, a'r ymwahaniad olaf, Eglwys Rydd Ysgotland, yn esiamplau. Ni raid petruso dyweyd mai o Dduw y ganed hwynt. Ni ddaeth yr un "*Act of Uniformity*" o'r nefoedd; ac y mae yn debyg nad oes yr un yn y nefoedd. Dichon nad ydym i olygu Paul yn dysgu fod thronau, arglwyddiaethau, tywysogaethau a meddiannau yn y nef; ond y mae efe o leiaf yn caniatâu nad oes dim afresymol yn y dybiaeth. A oes rhywbeth afresymol mewn tybied y bydd cymdeithas berffaith y nef yn cynnwys cyfundebau crefyddol amrywiol, ac y bydd yr amrywiaeth yn gyfraniad i'w pherffeithrwydd? Y mae ein Gwaredwr yn ei weddi am undeb yr eglwys yn ein galw at rywbeth anfeidrol uwch na mân drefniadau dynol a diflanedig y ddaear. Fe fyddai yn help i gael y gwir undeb pe b'ai pawb yn credu hyn. Yr undeb dwyfol sydd yn eisieu—yr undeb dwyfol a wnaiff y gwaith—undeb dynion sydd yn cydfyw yn Nuw; undeb dynion sydd yn ymlenwi o'r "meddwl yma, yr hwn oedd hefyd yn Nghrist Iesu" yn nghymundeb y Duwdod; undeb dynion llawn o gariad Duw trwy yr Ysbryd Glân, yr Hwn a roddwyd iddynt. Y mae hanfod y gwir undeb yn ymadrodd olaf y weddi: "Fel y byddo ynddynt hwy y cariad â'r hwn y ceraist Fi, a minnau ynddynt hwy." Na ddyweded neb gan hyny "wele yma" y gwir undeb, neu "wele acw;" canys undeb Crist—undeb Duw, "o'ch mewn chwi y mae." "Duw, cariad yw; a'r hwn sydd yn aros mewn cariad sydd yn aros yn Nuw, a Duw ynddo yntau." Ond cael y cariad hwn yn helaeth, fe rydd yr amrywiaeth fantais iddo i ddadguddio ei ragoriaeth. Ac os oes rhyw foddion a ddaw â'r byd i gredu, eglwys unedig yn nghariad y Tad a'i gwna. "Felly y gwneir dirgelion ei galon ef yn amlwg; ac felly, gan syrthio ar ei wyneb, efe a addola Dduw, gan ddywedyd, fod Duw yn wir ynoch."

CRIST—EI WAITH A'I BOBL YN Y BYD.

Pregeth a draddodwyd yn Towyn, Meirionydd, Nos Sabboth, Chwefror 26ain, 1888.

Gan y diweddar Barch. JOSEPH THOMAS, *Carno.*

(A YSGRIFENWYD WRTH EI GWRANDO GAN MR. JOHN MAETHLON JAMES.)

CANWYD yr Emynau 684, 395, 509, a 409. Darllenwyd rhanau o Luc xvi.; a gweddïodd Mr. THOMAS fel y canlyn:—

"Dymunem gymhorth, O Arglwydd! i gyflwyno ein diolch i ti am i ni gael ein gilydd eto heno wrth dy orsedd, ac am fod pob rhyddid i ni i ofyn am bob peth ag a berthyn i'r bywyd hwn a'r hwn a fydd. Diolch i ti fod i ni y fath Dduw. Dangos y fraint hon i ni o gael nesu at dy borth, ac am y goleuni sydd genym yn yr efengyl am danat ti. Mae llawer iawn yn nesâu at dduwiau o waith eu dwylaw eu hunain, y rhai na fedrant wrando. Diolch am y goleuni sydd genym am danat ti. Dyro ryw hyder ynom i dd'od at orsedd gras yn enw y Cyfryngwr, a diolch mai y dyn Crist Iesu ydyw hwnw. Dyro ein bod ninnau yn dyfod yn enw yr Un yr ydwyt ti yn ei wrando bob amser, ac y mae yr enw hwn mor dderbyniol heno ag erioed. Cadw ni rhag anghofio fod diwrnod yn dyfod y byddi di yn dywedyd wrthym ninnau nad allwn fod yn oruchwylwyr ddim yn hŵy. Meddianna ni â difrifwch wrth ystyried y daw rhywbeth cyn bo hir i'n gwthio ni ymaith i ddwylaw y Duw byw. Rho ddoethineb i ni wneyd iawn ddefnydd o'r manteision sydd yn ein dwylaw. Mae llawer o'n cydgenedl wedi gwneyd eu hunain i fyny am dragywyddoldeb gyda manteision llawer llai nag sydd genym ni. Gad i'r Efengyl fod yn fuddiol i ni oll. Rho bob cymhorth anghenrheidiol i ddyweyd rhyw gynghor fyddo yn fuddiol, a pharotoa y bobl i wrando. Rho ymgeledd i ni i gyd. Bydd gyda dy bobl heno yn mhob man. Par lwyddiant ar eu llafur a'u hymdrech. Bendithia bob cynghor fyddo yn fuddiol i hyfforddi mewn cyfiawnder. Dymunem i ti fod yn dyner o'r tlodion. Cadw ni rhag colli ein cydymdeimlad â hwy. Pawb sydd mewn cyfyngderau heno, bydd yn gymhorth iddynt. Ni a wyddom am rai wedi eu gwasgu i amgylchiadau ag y mae yn anhawdd iddynt dy geisio. Bydd yn hawdd dy gael i'r cyfryw. Parotoa ninnau i wynebu yr amgylchiadau cyfyng sydd o'n blaen. Er mwyn dy enw mawr. Amen."

"Yna y dywed y Brenin wrth y rhai ar ei ddeheulaw; Deuwch, chwi fendigedigion fy Nhad, etifeddwch y deyrnas a barotowyd i chwi er seiliad y byd: canys bum newynog, a rhoisoch i mi fwyd; bu arnaf syched, a rhoisoch i mi ddiod; bum ddyeithr, a dygasoch fi gyda chwi; noeth, a dilladasoch fi; bum yn glaf ac ymwelsoch â mi; bum yn ngharchar, a daethochataf. Yna yr etyb y rhai cyfiawn, gan ddywedyd, Arglwydd, pa bryd y'th welsom yn newynog, ac y'th borthasom? neu yn sychedig, ac y rhoisom i ti ddiod? A pha bryd y'th welsom yn ddyeithr, ac y'th ddygasom gyda ni? neu yn noeth, ac y'th ddilladasom? A pha bryd y'th welsom yn glaf, neu yn ngharchar, ac y daethom atat? A'r Brenin a etyb, ac a ddywed wrthynt, Yn gymaint a'i wneuthur o honoch i un o'r rhai bychan hyn, i mi y gwnaethoch."—MATTH. xxv. 34—40.

Mae y bennod hon yn dechreu gyda dwy ddammeg hynod. Un ydyw dammeg y deng morwyn. Mae rhyw wirionedd neillduol yn perthyn i bob dammeg, ac os methir cael allan beth yw hwnw, mae yn bur debyg yr aiff yn fethiant gyda'r oll. Heb i mi ymdroi gyda hyn yn awr, dyna un gwirionedd amlwg yn nammeg y deng morwyn ydyw hwn, sef mai pur oflwyddiannus fel rheol ydyw ymdrechion diweddar am fywyd tragywyddol. Dammeg y talentau ydyw y llall. Mae hon yn dysgu mai yn ol ffyddlondeb y mae Duw yn gwobrwyo. Ni ddylem genfigenu wrth ein gilydd, am nad allwn i gyd wneyd cymaint â'n gilydd. Gallwn i gyd fod mor ffyddlon â'n gilydd. Mae ffyddlondeb ar ychydig yn cael ei wobrwyo. Mae tuedd gref ynom i ddibrisio yr ychydig; ond y mae y bennod hon yn rhoddi ar ddeall i ni mai trwy fod yn ffyddlon ar ychydig y mae dyfod i lawer. Ffrwyth ffyddlondeb ar ychydig ydyw y llawnder y mae y rhan fwyaf o blant dynion yn ei feddu. Ond i chwi edrych o'ch amgylch o fewn cylch eich adnabyddiaeth chwi, ond odid fawr mai felly y mae hi. Felly hefyd am grefydd, nid yw y safon uchel sydd mewn crefydd i'w chael ond trwy fod yn ffyddlon ar ychydig. Bod yn ffyddlon, dyna y rheol wrth ba un y bydd Duw yn gwobrwyo. Dyna Dafydd ryw ddiwrnod yn myn'd i wneyd *list* o'i gedyrn. Pwy gaiff fod ar y *list?* 'Y milwr yna sydd wedi 'lladd llawer o'i elynion?' 'Rhowch ei enw o ar y *list.*' Un arall wedi bod yn rhyfela yn galed trwy y dydd, nes yr oedd ei law wedi glynu yn ngharn ei gleddyf, 'does neb yn amheu nad yw enw hwna i fod ar y *list.* 'Pwy eto?' 'Rhowch Azael ar *list* y cedyrn,' ebe Dafydd. 'Beth wnaeth o? laddodd o neb.' 'Naddo, cael ei ladd wnaeth o ei hun yn y diwedd, ond rhowch o ar y *list;* mi wnaeth ei oreu o'r dalent oedd ganddo, a dyna oedd hono—*rhedeg*'—yr oedd y gallu i redeg yn dalent werthfawr y pryd hyny. Efe oedd yn gwneyd pob neges dros y Brenin, os byddai eisieu rhedeg gyda hi. 'Rhowch Azael ar y *list!*' A chofiwn hyny, nid gwneyd *llawer* oedd yn dyfod â phobl i *list* y cedyrn, ond gwneyd eu goreu. Faint bynag ydyw hyny, gwnawn ein goreu. Mae *list* y cedyrn yn gyrhaeddadwy i ni i gyd, ond dilyn y llwybr hwn; ac yn nydd y farn bydd y ffyddloniaid yn cael eu gwobrwyo.

Mae yn y testun ddyfod at y farn ddiweddaf. Adeg codi y llen fydd hon. Prin y byddwch yn adwaen y byd y byddwch wedi bod yn byw ynddo. Byddwch yn synu gweled enw ambell un ar y *list* y diwrnod hwnw. Dyna y diwrnod y bydd manna pawb yn cael ei fesur. Yr oeddynt yn codi yn fore, fel yr ydych yn cofio, i hel y manna, ac yr oedd yno ryw amser i'w fesur o yn dilyn. Cewch weled ddydd y farn y bydd genych ddigon i fyw arno am byth, os wedi bod yn ffyddlon i wneyd eich goreu. Dyna yr adeg y bydd y drysau yn cael eu cau am byth. Y maent wedi bod yn agored yn hir.

1. A dyna un peth a ddengys y dydd hwnw, sef *mai trwy lawer iawn o orthrymderau y bydd pobl Dduw, ac achos Duw, wedi ymlwybro trwy y byd yma.* Mae yma dri gair yn y testun yn dangos hyn, a dyna 'nhw: *claf, dyeithr*, ac *yn ngharchar*. Go ychydig o fwynderau y byd yma fel rheol mae y saint yn gael; dyna'u hanes—"dyeithriaid," dim cartref, yn cael eu halltudio o gymdeithas. Y mae cymdeithas a rhyddid yn hanfodol i gysur yn y byd yma, ond y mae pobl Dduw hebddynt i raddau helaeth. Mae yma dri gair arall yn dangos fod anghenrheidiau bywyd yn brin—*newyn, syched*, a *noethni*. Felly y bu Paul, y dyn goreu a welodd y byd yma erioed heblaw Iesu Grist ei hunan; dyna'i hanes—dim digon o fwyd, a dim digon o ddillad. 'Pam na buaset ti yn gweithio i wneyd pebyll i'r Rhufeiniaid, Paul?' 'O! fedrwn i ddim gadael yr efengyl,' meddai yntau. Mae y chwe' gair hyn yn agor y drws ar yr helynt a'r trafferthion y mae pobl Dduw ynddynt yn y byd yma.

2. Dyna beth arall hefyd a welwn ni, —mai *am eu crefydd y darfu iddynt ddyoddef!* Pan aeth Paul i Rufain, yr oedd o yn dysgwyl fod yno lythyr wedi myned o'i flaen yn egluro yr holl helynt, ond fe gafodd ei siomi yn hyn; 'doedd yno yr un. Fe alwodd ychydig o'i gydgenedl ynghyd i egluro iddynt sut y bu hi bobpeth, ac na wnaeth o yr un drwg. 'Beth ydyw ystyr y gadwen yna ynte?' meddent hwythau; 'os na wnest ti ddim drwg.' 'O! am obaith yr Israel y mae y rhwymau hyn am danaf fi,' meddai Paul. Rhywbeth dyeithr ydyw meddwl fod pobl Dduw ar eu taith i'r nefoedd ar eu heithaf yn cael tamaid o fwyd. Mae yn anhawdd esbonio goruchwyliaethau Duw yn y byd yma heb eu dal yn ngolwg dysgyblaeth erbyn cyrhaedd y nefoedd. Yr ydych yn cofio i'r hen genedl unwaith fod yn ymyl gwlad Caanan, a dyna Duw yn myned â hwy yn ol drachefn i'r anialwch. 'Pam y mae o yn myn'd â hwy yn ol?' 'O!' meddai Duw, 'yr wyf yn eu harwain o gwmpas fel hyn *i beri iddynt ddeall.*' Mae yna lawer o feddyginiaethau i'w cael yn llysiau a mwnau y wlad hon, ond mae rhai meddyginiaethau na cheir mo honynt heb groesi y môr i Mentone, i Madeira, ac Awstralia. Felly am y profiad yma, fyddai hi ddim yn fanteisiol i'r bachgen deuddeg oed gael profiad ei dad. Na, byddai fel Dafydd yn ngwisg Saul. Rhaid iddo fyned trwy y *process* ei hunan. Ac y mae gan Dduw wersi i ni i'w dysgu oddiwrth hyn i gyd. Mi adawaf hynyna gyda dyweyd hyn, fod gan Dduw ei achos yn y byd yma, ac y mae ganddo ei ryfeloedd, ac nid yw yn edrych yn garedig arnoch chwi, mwy nag ar Meroz, os nad ydych yn rhyfela. Mae y rhyfel i fyn'd ymlaen, ac y mae swn traed tyrfa fawr, medd y prophwydi, yn dyfod ar ein hol.

3. Sylw arall ydyw hwn—Y *berthynas* a arddelir gan Fab Duw â'i bobl—"*i mi y gwnaethoch.*" Mae rhyw radd o deimlad bob amser yn cydredeg â pherthynas, ond nid wyf yn gwybod ei fod mor fyw yn unman ag yn mherthynas yr aelodau â'r Pen. "Pwy sydd wan nad wyf finnau wan?" meddai Paul; ac os yw teimlad yr aelodau dros eu gilydd y fath, pa fath raid fod teimlad y Pen dros yr holl aelodau? Yr wyf yn meddwl fod pobl yn twyllo eu hunain yn beïo ar yr hen genedl am na buasai yn gwneyd yn well. Mae Duw yn sylwi ar bethau bach iawn. Yr oedd Solomon wedi sylwi ar bethau bach a wnaeth Abiathar. 'Ladda' I monot ti,' meddai, 'o herwydd yr wyt ti wedi cario yr arch yn rhy hir o flaen fy nhad.' Byddai yn anhawdd iawn genyf finnau fod yn galed wrth neb a gariodd yr arch yn bur hir yn y byd yma. Yr oedd hyn yn anrhydedd i Solomon. Mae Iesu Grist yn sylwi ar bethau bach iawn—y pethau lleiaf i'r brawd

lleiaf. Mae llawer yn awyddus i wneyd rhywbeth i'r rhai mawr, ond nid yw o lawer o wahaniaeth i bwy y gwnewch chwi lês, ond ei wneyd er mwyn Iesu Grist. Ni fyddaf fi yn rhoi llawer o bwys ar gadw stwr efo'r *gwneyd* yma. Yr wyf yn cofio unwaith am ryw fachgen bach wedi bod gyda rhyw ŵr mawr yn casglu at y genadaeth; ac wedi cael ei siomi yn rhodd y gŵr mawr, mae o yn gofyn i mi, "Pe buasai hwn a hwn yn credu mai tros Iesu Grist yr oeddwn I yn casglu, tybed mai hyn roise fo?" "Wel, na, 'dydwy' I ddim yn meddwl," meddwn I, a 'doeddwn I ddim chwaith. Fel yna yr ydym mewn perygl i golli ein golwg ar y gwrthddrych yn fynych iawn. Yr oedd rhai yn dyfod at Iesu Grist a chanddynt dipyn i roi; dyna un, Matthew. Mi roddodd o wledd i'r Iesu (Luc sy'n dyweyd yr hanes, ac y mae hyn yn fwy priodol fe allai), ac yr oedd yno lawer o hen bublicanod yn y wledd. Beth ddaeth â'r rhai hyny yno? O! Matthew wahoddodd ei hen gyfeillion i gyfarfod Iesu Grist, gan obeithio y byddai iddynt i gyd gael crefydd cyn myned oddiyno. Ac y mae'r adnod yn bur ffafriol i ni i gredu fod hyn wedi cymeryd lle hefyd: "Nid rhaid i'r rhai iach wrth feddyg ond i'r rhai cleifion." Ni fynasai yr Iesu er dim siomi dysgwyliadau Matthew. Fel y mae y gair am y claf o'r parlys, "a phan welodd Efe eu ffydd hwynt"—yn myned i'r fath drafferth i ddyfod ato, fynasai yr Iesu er dim eu siomi; felly mi goeliaf fi yr oedd hi gyda Matthew hefyd. Zacheus hefyd oedd un arall. 'Yr wyf yn meddwl llettŷa yn dy dŷ di heno,' meddai yr Iesu wrtho. Pe buasai yn dyweyd y gair hwn wrth lawer o'i ganlynwyr, buasent yn dychryn. Pe buasai yn dyweyd fel yna wrth y weddw hono roddodd ei holl dda yn y drysorfa, mae yn debyg iawn y buasai hi yn dychryn wrth ei glywed; o herwydd 'doedd ganddi, druan, ddim lle i'r Iesu roddi ei ben i lawr yn ei thŷ, os oedd ganddi dŷ o gwbl; ond nid yw yr Iesu yn edrych ddim yn ìs arni hi o herwydd hyny. Fe wnaeth yr hyn a allodd hi. Yr wyf yn cofio un yn adrodd unwaith am y *Slaveholders*, iddo ef fod unwaith yn edrych arnynt yn prynu a gwerthu caethion mewn ffair, ac yr oedd y prynwyr yn brysur iawn yno yn edrych dannedd y bobl druain, ac yn mesur lled eu cefnau, ac yn gwneyd iddynt gerdded yn ol ac ymlaen; a'r cwbl er mwyn cael allan a oedd yno ddigon o adnoddau gwaith ar gyfer y pris ofynid am danynt. Ond y mae Mab Duw yn dyweyd, fel Paul, yn yr Efengyl—"Nid yr eiddoch, ond chwi eich hunain" sydd arnaf fi eisieu; a 'does gan lawer un ddim byd gwerth i'w roddi, a 'does ynddo chwaith ddim adnoddau gwaith; wnaiff o ddim crefftwr, y mae o yn rhy hen; wnaiff o ddim *scholar*, mae o yn rhy hen; wnaiff o ddim milwr, mae o yn rhy hen i ryfela. Ond mi fedr Mab Duw wneyd rhywbeth o honoch chwi i gyd. Nid yw yn dirmygu y peth lleiaf wnewch chwi drosto ef. Mae yn meddwl mwy o dy gadw di o lawer na dim fedri di wneyd. Mae yna *lady* ragorol yn Llundain, Miss Marsh yw ei henw hi. Y mae hi wedi rhoddi cychwyn i waith sydd wedi gwneyd llawer iawn o lês. Yr oedd llawer yn synu ei bod hi yn gwneyd dim efo'r dosbarth isel yna o bobl yn Llundain. "Ydynt," meddai hithau, "y maent yn *rough;* ond y mae ynddynt galon yn medru teimlo er hyny." Mae yn rhoi hanes dyddorol iawn am ei hymweliad â rhai o honynt yn y carchar. Un yn neillduol felly: ac yn gofyn iddo fo, "Oes genych chwi fam?" "Oes," meddai yntau, "ac oni b'ai am fy mam, ni buaswn I yn y fan yma heddyw—hi a'm dygodd I i hynyma. Wyddoch chwi pa bryd bydd fy *nhrial* I?" meddai. "O! gwn," meddai hithau, "yr wyf wedi gofalu am ddadleuydd i chwi." "Ydych chwi!" "Ydwyf: mi fyddaf finnau yno hefyd." "Fyddwch chwi yn y *trial?*" "Byddaf; yr wyf yn *bound* o fod yno." Ac O! fel yr oedd y truan yn teimlo yn ddiolchgar iddi. "Ydyw yn wir," meddai y *lady* yna, "mae yn werth trafferthu gyda nhw." Felly am Dduw gyda phechadur. Os nad oes gan y dyn ddim i roi, y mae ganddo galon fedr garu Duw byth! 'Fe dâl ei galon,' meddai Duw, 'ond i mi ei newid i fod yn llech i ddal fy nghyfraith, fel y gallwyf weled fy llun ynddi am dragywyddoldeb!' Mae y ddafad yn teimlo yn llawen gael dyfod yn ol i'w hen gynnefin, ond beth fydd teimlad y bugail? Beth fydd teimlad

Mab Duw wrth weled hen bechaduriaid yn troi adref! Mae mwy o ogoniant i'w enw mawr o wneyd y pren yn dda nag a fyddai o'i roi ar dân o lawer.

4. Mae yna un gair arall, wna I ddim ond ei enwi, a dyna fo,—*Aros gyda mi.* 'Faint wnaethon nhw?' 'Nid cymaint, ond *aros*.' "Trist iawn yw fy enaid hyd angeu, *aroswch yma*." 'Wyt ti am i ni wneyd rhywbeth heno i dy gynnorthwyo di, Iesu mawr?' 'Na, ddim byd, ond mi *leiciwn* i chwi fod *yn ymyl* ac yn effro.' Aros gydag ef pan oedd yn anhawdd gwneyd hyny: "aros gyda mi yn fy mhrofedigaethau," pan y mae llawer yn methu *aros;* ac y mae hyny yn llawn cymaint o werth a gwneyd rhywbeth. Mae achos Duw, medd Esaiah, i fyn'd i ben y mynyddoedd, ac unwaith yr ä fo yno ddaw o byth oddiyno wed'yn. Fe fu y diluw ar ben y mynyddoedd yna unwaith, ond fe ddaeth i lawr wed'yn; ond ddaw achos Duw byth i lawr. Ar y rhiw yr ydym ni wedi cael y fraint o daro wrtho, ac ni fyddwn ni ddim yn îs yn ei olwg ef o herwydd hyny, ond yn hytrach fel arall, os ydym yn helpu rhyw gymaint arno i fyn'd i fyny y rhiw. Yr oedd Paul yn teimlo yn ddiolchgar iawn i Onesiphorus am fyned i drafferth i chwilio am dano a myned i'r carchar i edrych am dano, pan oedd o yn Rhufain. Fe dybir mai marsiandwr mawr oedd Onesiphorus, ac yn myned i Rufain ar *fusiness*, ac ni fedrai fyned adref heb weled Paul. Pe gofynasid i lawer un wedi d'od adre', 'Sut y mae Paul?' mae yn debyg iawn mai yr ateb a fyddai, 'Mi fum yn rhy brysur i fyn'd i edrych am dano;' neu fe allai y dywedai 'nad oedd o yn *hidio* ryw lawer am i neb wybod ei fod ef yn adnabod Paul, mai yn y *carchar* yr oedd o?' Ond nid felly am Onesiphorus: "Nid oedd gywilydd ganddo ef fy nghadwyn I," meddai Paul. "Efe a'm llonodd i yn fawr iawn. Yr Arglwydd a dalo iddo."

5. Y sylw olaf gaf fi wneyd yw hwn: *Mor fach y mae pobl Dduw yn edrych ar eu cymwynasau i Fab Duw!* "Pa bryd y'th welsom yn glaf?" &c. Peidiwch cadw *count* yn erbyn Mab Duw; fe geidw ef y *count* i chwi. "Cofiwch," meddai Moses wrth y genedl, 'mae y Caananëaid yn colli eu gwlad o herwydd eu pechod, ac yr ydych chwi yn ei chael hi am fod Duw wedi ei haddo hi, ac nid dim byd wnaethoch chwi i'w haeddu hi.' Cof genyf glywed am y gŵr mawr hwnw, Thomas Gray, yn pregethu mewn Cymanfa yn Aberystwyth, ar y pwnc hwn, ac yn dyweyd fod masnachwyr Aberaeron a'r Ceinewydd y pryd hyny yn cael y rhan fwyaf o'u nwyddau adref ar hyd y môr, ac y byddai yn dygwydd weithiau y byddai *niwed* go fawr ar rai o honynt o herwydd storm neu rywbeth, ac y byddai y masnachwyr mewn canlyniad yn gostwng yn eu pris. "Ond," meddai, "pan aeth Iesu Grist i'n prynu ni, chollodd Duw ddim yn ein pris ni, er fod *damage* mawr arnom trwy bechod." "Nid â phethau llygredig, megys arian neu aur, y'ch prynwyd, ond â gwerthfawr waed Crist." Mae Duw yn myn'd i roi anrhydedd ar ei bobl ryw ddiwrnod: "Deuwch, meddiennwch y deyrnas a barotowyd i chwi er seiliad y byd." Mae mân gymwynasau pobl Dduw i gyd ar gael, a'u holl feiau wedi eu hanghofio.

Yr wyf yn meddwl hyn: Os nad ydych yn bwriadu myned i'r nefoedd eich hunain, cymerwch ofal rhag rhwystro un o'r rhai bychain hyn i fyned yno. Ciliwch o ffordd y plant i gael myn'd adref! Yr ydych yn cofio pan oedd Israel yn dyfod allan o'r Aipht, i Amalec ymosod ar y rhai gweiniaid oedd yn dylyn yn nghŵr y gwersyll. Faddeuodd Duw byth iddo am hyn. Y mae yn cyhoeddi rhyfel tragywyddol âg Amalec. Mae byddin Duw yn eich *pasio chwi* eto; gwyliwch pa fodd yr ydych yn ymddwyn tuag at ei bobl. Y mae eu hangelion yn gweled wyneb y Tad bob amser. Yr wyf yn cofio clywed un oedd wedi bod yn gweini gydag un o'r pendefigion yna yn Llundain yn dyweyd, pan fyddai rhywrai yn dyfod ato ar neges bwysig, y byddent yn myned trwy lawer o ryw foesgyfarchiadau wrth fyned i'w ŵydd; ond y byddent hwy, y gweinidogion, yn myned i'w ŵydd lawer gwaith yn y dydd yn achos y plant heb ddim seremoni o gwbl. Felly am yr angylion. Cofiwch, mae cenadon y plant yn cael eu gwrando o flaen neb. Os nad ydych yn meddwl

myn'd gyda hwy i'r nefoedd, peidiwch sefyll ar eu ffordd. "Gwybyddwch," meddai Iesu Grist, "fod teyrnas Dduw wedi nesâu atoch," yn ddigon agos i chwi i ymwthio i mewn iddi. Y mae yn ddigon agos atat fel y mae genyt *gount* i *setlo* gyda Duw ddydd y farn am dy ymddygiad tuag ati. Mae wedi dyfod yn ddigon agos atat i effeithio ar dy dynged i dragywyddoldeb. Pared Duw i ni oll fedru rhoddi ein cyfrif i fyny "yn llawen ac nid yn drist" y dydd hwnw! A gadawed ei fendith ar y sylwadau hyn i'r dyben hwnw, er mwyn ei enw. Amen.

Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

GWERSI UNDEB YSGOLION SABBOTHOL CYMRU.

☞ *Cyfeirier at y GWERSLYFRAU am y WERS a'r CWESTIYNAU arni. Cofier fod y Wers ar gyfer pob Sabboth o Ebrill* 1*af*, 1888, *i'w rhanu dros ddau Sabboth.*

DOSBARTH CANOL.

Sabboth, Awst 11eg—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* Rhagfyr 16eg *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 12).

Iachâu clust Malchus.

Adn. 49: *A phan welodd y rhai oedd yn ei gylch ef y peth oedd ar ddyfod, hwy a ddywedasant wrtho, Arglwydd, a darawn ni â chleddyf?* Yr oedd dau o'i ddysgyblion yn arfog, naill ai oddiar zel i'w amddiffyn ef, wedi ei ragfynegiad o'i ddyoddefiadau oedd yn awr wrth y drws, neu am eu bod wedi dyfod âg arfau gyda hwynt o Galilea, er amddiffyniad wrth deithio. Gwneid y ffordd o Jericho i Jerusalem (x. 30) yn beryglus gan ysbeilwyr; ac arferai yr offeiriaid, ac hyd yn nod yr Esseniaid tawel a llymdost eu hunan-ymwadiad, gario arfau gyda hwynt. Y mae cwestiwn y dysgyblion yma yn cyfeirio at eiriau Crist yn adn. 38, ac yn tarddu o'u camddealltwriaeth o'i atebiad ef: "A hwy a ddywedasant, Arglwydd, wele ddau gleddyf yma. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Digon yw," adn. 38. Deallasant hwy yr ateb fel yn golygu "Y mae dau yn ddigon." Ond nid dyna y meddwl, ond—"Ni a wnawn y tro:" h.y. 'heb gleddyf o gwbl.' "Y peth oedd ar ddyfod"—yr arwyddion eglur fod ei awr wedi dyfod, eu bod yn myned i'w ddal.

Sabboth, Awst 18fed—*(Y rhan olaf o'r Wers am* Rhagfyr 16eg *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 12).

Adn. 50: *A rhywun o honynt a darawodd was yr archoffeiriad, ac a dorodd ymaith ei glust ddehau ef.* Dywed Ioan mai Simon Pedr oedd y "rhywun" hwn (xviii. 10). Y mae y tri Efengylwr cyntaf yn ddystaw am ei enw. Ofer ymofyn paham. Y mae yn debyg nad oedd un bwriad yn y dystawrwydd. Tybiodd rhai nad enwyd ef gan y tri Efengylwr, rhag iddo gael ei gymeryd i fyny. Ond yn sicr nis gellir credu y fath dybiaeth a hon, pan feddyliom mai llyfrau yn cael eu lledaenu ymhlith Cristionogion yn unig oedd yr Efengylau, a hyny lawer o flynyddoedd ar ol y weithred; ac hefyd na ddaliwyd ef yn uniongyrchol ar y pryd, er yr adnabyddid ef fel yr hwn a wnaeth y weithred: Ioan xviii. 26. Y gwir reswm, y mae'n debyg, na ddaliwyd ef oedd fod yr Iesu wedi iachâu y dyn yn y fan. Yr oedd ergyd Petr yn farwol o ran bwriad; diau mai nid tori ei glust a fwriadai, ond tori ei ben. Yr oedd y weithred yn cyfateb i gymeriad Petr. Yr oedd un o'r ddau ddysgybl arfog wedi gofyn cyfarwyddyd yn y mater: "Arglwydd, a darawn ni â chleddyf?" Ond ni ddarfu i Pedr nwydwyllt aros am yr ateb; penderfynodd y mater ei hunan yn y fan trwy daraw. Toriad allan yr "hen ddyn" yn Petr, yn hollol yn ysbryd Mat. xvi. 22, ychydig oriau cyn y toriad allan arall yn y gwadu. Rhoddir yr hanes hwn gan y pedwar Efengylwr. Luc a Ioan a'i rhoddant fanylaf. Ioan sydd yn rhoddi enw y gwas (neu y caethwas *(slave)*—Malchus.

Adn. 51: *A'r Iesu a atebodd ac a ddywedodd, Goddefwch hyd yn hyn.* Un o'r manylion mwyaf byw a phrydferth yn yr holl hanes. Luc yn unig sydd yn ei roddi. Nid wrth y dysgyblion y dywedid y geiriau hyn, ond wrth y dyrfa, neu yn hytrach wrth *y rhai oedd yn ei ddal.* Rhaid cofio eu bod yn dal yr Iesu, yn dal ei freichiau a'i ddwylaw. Y mae yntau yn gofyn: 'Gollyngwch fy mraich yn rhydd am fynyd, *just* i gyffwrdd â'r archoll yna!' Y mae sylw rhagorol Farrar mor gymhwys at yr engraifft hon ag at unrhyw un yn yr Efengylau: "Y mae y darnau ymadroddion yma mewn ymddyddan, y rhai ydynt yn fynych yn ansier eu hystyr am eu bod mewn ffurf doredig, yn nodau o wirionedd nas gellid

eu ffugio." *Ac efe a gyffyrddodd â'i glust, ac a'i hiachaodd ef.* Gwyrth olaf ein Hiachawdwr cyn ei ddyoddefaint a'i angeu; gwyrth o iachâd ar un oedd yn flaenllaw gyda'r rhai oedd yn ymosod arno. Engraifft yw ei eiriau a'i esiampl o addfwynder yr hwn, ychydig oriau ymhellach, a weddïodd am faddeuant i'w lofruddion.

SABBOTH, AWST 25AIN—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* RHAGFYR 23AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 12).

Adolygu gwaith y Sabbothau diweddaf.

SABBOTH, MEDI 1AF—*(Y rhan olaf o'r Wers am* RHAGFYR 23AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 12).

Adolygu gwaith y Sabbothau diweddaf.

DOSBARTH HYNAF.

SABBOTH, AWST 11EG—*(Y rhan olaf o'r Wers am* RHAGFYR 2IL *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 29).

Amryw dyb am dano.

ADN. 21: *Eraill a ddywedasant, Nid yw y rhai hyn eiriau un â chythraul ynddo.* Yn hytrach "dywediadau." Golygent yr ymadroddion neillduol oedd wedi tynu eu sylw, ac nid ei addysg gyffredinol. Yr "eraill" a ddywedent fel hyn oeddynt y dosbarth mwyaf diragfarn a chydwybodol, y rhai a amlygent eu teimladau yn ix. 16. *A all cythraul agoryd llygaid y deillion?* Codai y rheswm blaenaf o'i eiriau, a hwn o'i weithredoedd. Seilid y blaenaf ar eu profiad hwy eu hunain, ond hwn ar yr hyn oedd amlwg i bawb. Yr oedd ei eiriau yn ddigon i wrthbrofi y cyhuddiad o wallgofrwydd trwy feddiant cythreulig; ond y mae y weithred yn golygu cydweithrediad gallu uwch na, a gwahanol i allu cythreulig. Nid agoryd llygaid y deillion a wna rhai wedi eu meddiannu gan gythreuliaid.

SABBOTH, AWST 18FED—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* RHAGFYR 9FED *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 29).

"Ni wyddoch o ba ysbryd yr ydych chwi."

ADN. 49: *Ac Ioan a atebodd ac a ddywedodd, O Feistr, ni a welsom rywun yn dy enw di yn bwrw allan gythreuliaid: ac a waharddasom iddo, am nad oedd yn canlyn gyda ni.* Dysgir ni yn y paragraph blaenorol (46—48) i feithrin gofal a thynerwch tuag at blant, ac i ddysgu gwers o ostyngeiddrwydd oddiwrthynt. Dysgir ni yn y paragraph hwn i ymattal rhag condemnio na rhwystro rhai yn gweithio yn enw Crist, er iddynt fod o syniadau neu lwyth gwahanol i ni; ond bod yn oddefgar ac yn rhyddfrydig.

Cymerir dwy olwg ar gysylltiad y paragraph hwn â'r un blaenorol. Dyna un: "Y mae hyd yn nod fachgenyn a anfonir yn fy enw I, yn cael ei wisgo â fy urddas I.' Parai hyn i Ioan ymdeimlo â'u hurddas arbenig hwy, yr apostolion—y rhai anfonedig. A mynega i'r Athraw beth a wnaethent yn yr ymarferiad o'r urddas hwn. Mwy naturiol, dybygem, yw golygiad Lange ac eraill, sydd yn gwneyd geiriau Ioan yn gyfaddefiad ac nid yn ymffrost. Sylwa yr esboniwr a enwyd fod ansawdd lled dda ar galonau y dysgyblion ar y pryd hwn, gan fod gwers Crist ar ostyngeiddrwydd wedi deffro eu cydwybodau, yn lle archolli eu hunangariad. Dyma Ioan yn cydnabod ei fai ar unwaith, trwy nodi engraifft o waith y dysgyblion yn gweithredu yn groes i addysg eu Meistr. "Rhywun," fel yn Act. xix. 13, wedi defnyddio enw yr Iesu fel offeryn i fwrw allan gythreuliaid, ac wedi llwyddo. Ond gwaharddodd y dysgyblion iddo, oddiar eiddigedd a hunangais y mae yn debyg. Mynent fod y gorchymyn, "bwriwch allan gythreuliaid," wedi ei roddi iddynt hwy yn unig. Tybia rhai fod y naw dysgybl wedi rhoddi y gwaharddiad hwn, ar ol methu eu hunain iachâu y bachgen a feddiennid gan gythraul, pan oedd yr Iesu a'r tri dysgybl ar fynydd y gweddnewidiad. Nis gallent oddef i un arall, y tu allan iddynt hwy, lwyddo yn hyn yn well na hwynt.

ADN. 50: *A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Na waherddwch iddo: canys y neb nid yw i'n herbyn, trosom ni y mae.* Y mae yn debyg y buasai yr Iesu yn gweinyddu cerydd llymach am hyn, oni b'ai fod y dysgyblion wedi cyfaddef y bai o honynt eu hunain. Darllena amryw ysgrifau—"nid yw *i'ch* erbyn;" ond darlleniad y Testyn Derbyniedig yw y mwyaf tebyg o fod yr un cywir, yn un peth am ei fod yn fwy anhawdd. Y mae yn haws cyfrif am fod *ein* wedi ei newid i *eich*, na'r gwrthwyneb.

Y mae yn amlwg y golygai ein Harglwydd fod bwrw allan gythreuliaid yn ei enw yn warogaeth i'w berson, yn brawf o ewyllys da, ag a fuasai yn gwneyd yn anmhosibl i'r cyfryw un ei gyhuddo o fod mewn cynghrair â Beelzebub. Dywedir yma, "y neb nid yw i'n herbyn, trosom ni y mae:" ond yn Mat. xii. 30 darllenwn—"y neb nid yw gyda mi, sydd yn fy erbyn." Ond nid ydynt yn anghyson â'u gilydd. Y mae y rheol yn Matthew i'w chymhwyso

wrth farnu *ein beïau ein hunain;* ond y mae y llall i'n harwain *wrth farnu eraill.* Dengys y rheol yn Matthew fod tir canol gydag achos Crist yn beth anmhosibl; dengys y rheol yn Luc y perygl i ni gau eraill allan oddiar gulni meddwl.

SABBOTH, AWST 25AIN—(*Y rhan olaf o'r Wers am* RHAGFYR 9FED *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 29).

ADN. 51: *A bu, pan gyflawnwyd y dyddiau y cymerid ef i fyny.* Nid "pan gyflawnwyd" yw y cyfeithiad goreu; ond pan oeddynt "ar gael eu cyflawni," h.y., yn nesâu at eu cyflawniad: Cyf. Diwyg., "*were well-nigh come.*" Dyddiau "ei gymeriad ef i fyny." Nid yw y gair yn dygwydd ond yn y fan hon. Golygir ei esgyniad i'r nefoedd: pan oedd ei yrfa ddaearol yn tynu at y terfyn, ac yntau yn nesâu at ei farwolaeth a'i ymadawiad â'r byd i fyned at y Tad. *Yntau a roddes ei fryd ar fyned i Jerusalem.* Ysgrifenwyd llawer i gysoni yr adroddiad hwn â'r hyn a geir yn yr Efengylau eraill. Ni oddef ein terfynau i ni ond crybwyll fod yn debyg mai taith olaf ein Hiachawdwr *o Galilea i Jerusalem* oedd hon. Ond nid y daith i'r Pasg diweddaf; awgrymir hyny yn xiii. 22 a xvii. 11. Nid oedd y daith hon yn un *uniongyrchol* o ran amser na lle, ond yn cynnwys amryw deithiau llai. "A roddes ei fryd:" Saes. a'r Cyf. Diwyg., "*stedfastly set his face:*" dulliaith Hebreig, yn golygu penderfyniad di-droi-yn-ol. Cadwai ei olwg yn wrol ar derfyn y daith a'r oll a gynnwysid yn hyny.

ADN. 52: *Ac efe a ddanfonodd genadau o flaen ei wyneb: a hwy wedi myned, a aethant i mewn i dref y Samariaid, i barotoi iddo ef.* Elai *caravans* yn fynych ar hyd y ffordd hon i Jerusalem. Tybia rhai mai cenadau oedd y rhai hyn yn unig i ddarparu llettŷ. Ond credwn, gydag esbonwyr eraill, na fuasai brawddeg mor bwysleisiol, neu, mewn arddull mor ddifrifol, yn cael ei defnyddio am barotoi llettŷ yn unig: "o flaen ei wyneb—i barotoi iddo ef." Golygai, y mae'n debyg, i gyhoeddi ei ddyfodiad Ef fel Messïah. Yr oedd y cyhoeddusrwydd hwn yn dra gwrthwyneb i'r neillduedd a geisiai o'r blaen, ac yn arwydd o gyfnod diweddaf ei weinidogaeth. Ni chêlai ychwaith yn Samaria ei Fessïaeth fel y gwnai yn Judea a Galilea.

ADN. 53: *Ac nis derbyniasant hwy ef, oblegid fod ei wyneb ef yn tueddu tua Jerusalem.* Yr oedd gelyniaeth wladol a chrefyddol rhwng yr Iuddewon a'r Samariaid, Ioan iv. 9. Seilid eu gwrthodiad hwn o hono ar eu heiddigedd. Gwelent ei fod yn rhoddi y flaenoriaeth i ddefodau Iuddewig ac i'r brifddinas Iuddewig. Dysgwylient y buasai y Messïah yn cadarnhau eu defodau gwrth-Iuddewaidd hwy, a'u teml yn Gerizim. Yn lle hyny, wele hwn yn myned mewn modd ffurfiol i Jerusalem a'r gwyliau, ac felly yn eu condemnio hwy.

ADN. 54: *A'i ddisgyblion ef, Iago ac Ioan, pan welsant, a ddywedasant, Arglwydd, a fyni di ddywedyd o honom am ddyfod tân i lawr o'r nef, a'u difa hwynt megys y gwnaeth Elias?* Cymerodd rhai yn ganiataol mai Iago ac Ioan oedd y "cenadau;" gwada eraill. Ymddengys nad oes sail i haeru na gwadu hyn. Y cwbl sydd i'w ddyweyd ydyw yn syml—nas gwyddom. Yr oedd y ddau ddysgybl hyn newydd weled y warogaeth a delid i'w Harglwydd gan Moses ac Elias ar fynydd y gweddnewidiad. Ymddengys eu bod yn awr wedi dyfod "i dref y Samariaid;" gallai fod y pentrefwyr wedi dangos rhyw sarhâd pendant i'r Iesu yn eu dull, neu wedi eu rhwystro i ddyfod i mewn i'r pentref. Nid rhyfedd fod amgylchiad yn hanes Elias wedi dyfod i'w côf, yr hwn hefyd a gymerasai le yn Samaria: 2 Bren. i. 9—12; 1 Bren. xviii. 38.

ADN. 55: *Ac efe a drodd, ac a'u ceryddodd hwynt; ac a ddywedodd, Ni wyddoch o ba ysbryd yr ydych chwi.* Nid oedd ein Harglwydd yn condemnio zel dan-llyd Elias. Gwyddai fod yn rhaid wrth y llymder hwnw yn fynych o dan yr hen ddwyflywiaeth. Yr hyn y mae efe yn ei geryddu ydyw, fod ei ganlynwyr Ef yn anghofio y gwahaniaeth yn ysbryd y ddwy oruchwyliaeth i'r fath raddau, nes tybied y goddefid iddynt hwy, yn ngwasanaeth yr Hwn oedd yn "addfwyn, ac yn ostyngedig o galon," weithredu yr un fath ag y gwnai y diwygiwr llym yn Israel. Nid oes reswm dros adael yr adnod hon allan o'r testun, fel y gwnaed gan rai. Gallai fod rhai copïwyr wedi ei gadael allan am ei bod yn ymddangos yn gondemniad anuniongyrchol ar waith Elias; ac eraill fe allai am ei bod yn gondemniad ar erledigaeth oblegid heresi. Hawdd cyfrif am ei gadael allan; ond anhawdd iawn cyfrif am ei bod i mewn, os na ddylai fod.

Esbonia rhai y dywediad fel hyn: 'Yr ydych chwi yn tybied eich bod o'r un ysbryd ag Elias, wrth ofyn hyn. Ond yr ydych yn camsynied. Nwydau dynol, nid zel ddwyfol, sydd yn eich cynhyrfu.' Neu fel hyn: 'Oni wyddoch o ba ysbryd yr ydych chwi?' sef o'r Ysbryd Glân. 'Yr oedd yr Ysbryd yn Elias yn un tan-llyd, llym a barnol, yn gweddu i'r amser hwnw, ac i ddull Duw o ymwneyd â dyn-

ion y pryd hwnw. Ond y mae yr Ysbryd sydd ynof fi a'r eiddof yn dra gwahanol —ysbryd cariad a maddeuant.'

SABBOTH, MEDI 1AF—(*Y rhan gyntaf o'r Wers am* RHAGFYR 16EG *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: *tu dal.* 30).

Danfoniad y Deg-a-thriugain.

ADN. 1: *Wedi y pethau hyn, yr ordeiniodd yr Arglwydd ddeg a thriugain eraill hefyd, ac a'u danfonodd hwynt bob yn ddau o flaen ei wyneb i bob dinas a man lle yr oedd efe ar fedr dyfod.*

Ymosodwyd ar wirionedd y rhan hon o'r hanes, oddiar ei annhebygolrwydd tufewnol a dystawrwydd yr Efengylwyr eraill. Cyfodwyd dadleuon eraill o berthynas iddo, oddiar gamsyniad am genadaeth y Deg-a-thriugain. Edrychwyd arnynt gan rai fel urdd wahanol i'r deuddeg, ac yn sefydlog a pharhaol. Po felly, buasai yn rhyfedd nad oes son am danynt yn unman arall. Ond y mae y dyb yna yn ddisail.

Ymddengys nad oedd gan y Deg-a-thriugain unrhyw gomisiwn, ond i fyned allan yn y cyfnod hwn yn unig i gyhoeddi dyfodiad Crist mewn trefi a rhanau neillduol o'r wlad; ac ar ol hyny, fod y gymdeithas yn cael ei chwalu, a hwythau yn ymgymysgu fel o'r blaen â chylch eangach canlynwyr y Gwaredwr. *Eraill* —heblaw y Deuddeg, ix. 1. Nis gellir penderfynu paham y dewiswyd y nifer deg-a-thriugain. Gallai mai nifer union *(round number)* anmhenodol ydyw: neu nifer arwyddluniol, yn ateb i henuriaid Israel (Exod. xxiv. 9), neu i aelodau y Sanhedrim, neu i nifer y cenedloedd Cenedlig, yn ol yr hen gyfrif Iuddewig. Gallai fod gan Grist resymau o'i eiddo ei hun dros anfon pymtheg ar hugain o gyplau. Yr oedd nifer y deuddeg Apostol yn arwyddluniol; a gallai fod y rhif deg-a-thriugain yn arwyddo eangder goruchwyliaeth yr Efengyl. Os felly, nid yw yn sŷn fod Luc, cydymaith a dysgybl Paul, yn rhoddi arbenigrwydd i'r hanes hwn. Gallai fod Matthew a Marc yn ei adael allan, am eu bod wedi rhoddi hanes mor llawn o anfoniad y Deuddeg, yr hwn oedd mewn rhyw bethau yn debyg. Os chwalwyd y cwmni hwn mewn ychydig ddyddiau neu wythnosau, nid yw yn rhyfedd nas gellid gwybod ymhen ychydig amser pwy a berthynai iddo. Dyben y daith hon, medd Meyer, oedd rhoddi i'r bobl gynnyg olaf, cyn iddo ymadael â'r maes lle yr oedd yn awr—ymdaith Fessianaidd, yn terfynu gyda'i fynediad olaf i Jerusalem. Yr oedd y cenadon hyn, trwy air a gweithred, i barotoi y bobl i dderbyn teyrnas Dduw—"o flaen ei wyneb i bob dinas a man lle yr oedd efe ar fedr dyfod." Elai y Deuddeg ar ei ol, i fedi yr hyn a hauodd Efe; elai y Deg-a-thriugain o'i flaen, i barotoi y ffordd iddo.

ADN. 2: *Y cynhauaf yn wir sydd fawr, &c.* Dywedodd ein Harglwydd yr un geiriau, yn ol Mat. ix. 37, 38, wrth anfon allan y Deuddeg. Ymddengys iddo ddyweyd llawer o'r un pethau ar y ddau achlysur. Y "cynhauaf" ar y cyntaf oedd y genedl Iuddewig; ond yn fuan wedi hyn yr holl fyd.

ADN. 3: *Fel ŵyn ymysg bleiddiaid.* Yr oedd hwn yn dymmor o berygl mwy na phan anfonasid y Deuddeg. Dyfodol oedd y peryglon yno; y maent yma yn bresennol.

ADN. 4—8: Yr oedd brys yn nodweddu y daith hon. Yr oedd cyfarchiadau dwyreiniol yn faith a ffurfiol, am ba achos gwaherddir hwynt yma. "Mab tangnefedd" a olyga un o ansawdd ysbryd parod i dderbyn cenadwri tangnefedd. "Yn y tŷ hwnw aroswch"—sef yn y tŷ lle y byddo mab tangnefedd. Cymerant eu lluniaeth yno; canys, ar un llaw, "teilwng yw i'r gweithiwr ei gyflog;" ac ar y llaw arall, 'na fydded i dlodi y ddarpariaeth beri i chwi ymadael cyn yr amser.'

Hanesion a Darnau Detholedig.

HANES YR ACHOS CYMREIG YN DUBLIN O'I DDECHREUAD HYD YN AWR.

Gan y Parch. JOHN OWEN, *Cenadwr.*

IV.

WEDI cael capel Cymreig yn Dublin, teimlwyd ar unwaith anghen am gael tŷ yn perthyn iddo; fel yr ysgrifena Capt. Lloyd yn y flwyddyn 1839, "er mwyn fod gan y Trefnyddion Calfinaidd le cyfleus y gall pregethwyr fyned iddo pan ar ymweliad â'r lle;" "o herwydd," meddai, "nid yw y Cymry wedi eu dysgu i fyw ar weinidogaeth sefydlog, os dysgant rywbryd; o herwydd hyn y mae mor anghenrheidiol cael tŷ ag oedd cael capel. Mae y morwyr," meddai, "yn ddosbarth o bobl sydd yn agored i beryglon mawrion, ac y maent yn myned i'r byd tragywyddol yn ddisyfyd iawn, ac y maent hwy, yn anad neb, mewn anghen am fod yn barod bob mynyd. Dywedir fod 500

o longau Lloegr wedi eu colli yn y gauaf diweddaf, a 1500 o eneidiau wedi myned i'r byd mawr tragywyddol, a lle cryf i farnu oddiwrth eu hagwedd gyffredin fod llawer o honynt yn anmharod." Ac yr ydym yn cael ymhen oddeutu blwyddyn ar ol agoriad y capel, fod y tŷ wedi ei adeiladu—tŷ bychan a digon anghyfleus, ac amlwg nad oedd wedi ei fwriadu ar y cyntaf yn dŷ i'r cenadwr. Yr oedd y Parch. R. Williams yn byw mewn man arall, ac yn dilyn ei alwedigaeth, gan roddi ond cyfran o'i amser ar y maes cenadol, a'r pulpud yn cael ei lenwi fynychaf gan ddyeithriaid, a'r tŷ wedi ei fwriadu yn arosfan i'r rhai hyny, tra yn gwasanaethu yr achos. Ond wedi ei gael, yr anhawsdra bellach oedd cael neb i ofalu am dano, a bu am beth amser dan ofal Ysgotwraig oedd yn byw yn agos o'r enw Campbell, yr hon a ddeuai i mewn ac allan i gyflawni y gwasanaeth anghenrheidiol am y gydnabyddiaeth o 1s. 6c. yn yr wythnos. Ond Mai 2, 1840, gallwyd dylanwadu ar Mr. T. Humphreys a'i briod, o herwydd eu mawr ofal am yr achos, a chysur y rhai a ddeuai yma, i ymgymeryd â gofal y lle; ac y mae cytundeb yn cael ei dynu a'i arwyddo gan Mr. Humphreys ar ei ran ei hun, a Dr. Roberts, Mynydd y Gof, ar ran Cyfarfod Misol Môn: a bu y gofal ar Mr. Humphreys hyd ddydd ei farwolaeth, Tachwedd 22, 1844; ac ar ei briod ar ol hyny hyd Mawrth, 1846. Y mae y ddau bren sydd yn tyfu o flaen ffenestri y tŷ wedi eu planu gan Mrs. Humphreys ar ei dyfodiad i gymeryd gofal y lle, ac nid mynych y gwelir prenau wedi tyfu i'r fath raddau mewn lle o'r fath.

Ond, fel yr awgrymwyd eisoes, yr hyn oedd yn anhyfryd bellach oedd swm y ddyled. Mai 13, 1840, y mae y Trysorydd yn gwneyd ei gyfrifon i fyny, ac y maent yn ymddangos yn y Drysorfa am Gorphenaf yr un flwyddyn :—

	£	s.	c.
Sir Fôn	42	7	6½
Sir Ddinbych	15	15	6
O un o Gymanfäoedd y Gogledd, trwy law D. Roberts, Ysw., Mynydd y Gof	51	0	0
Cymunrodd Edmund Roberts, Ysw., Ucheldre, Caergybi ..	5	0	0
Sir Aberteifi	14	0	0
Eto, trwy law J. Matthews, Ysw., Aberystwyth	11	7	6
Sir Gaerfyrddin	20	0	0
Sir Forganwg	15	0	0
Rhodd — Lewis, Ysw., Llandeilo Fawr	5	0	0
Trwy law — Watkins, Ysw., dros Sir Frycheiniog.. ..	15	7	6
Cyfanswm.. ..	196	18	0½

"Dywenydd nid bychan genyf fuasai gallu dyweyd wrth fy mrodyr fel y dywedodd Bezaleel ac Aholiab wrth Moses, 'Y mae y bobl yn dwyn mwy na digon er gwasanaeth i'r gwaith a orchymynodd yr Arglwydd ei wneuthur.' Ond i'r gwrthwyneb, teimlaf yn ddyledus arnaf dros achos y Gwaredwr, eu hannog gyda thaerineb calon i 'wneuthur daioni a chyfranu' yn ychwanegol at yr Achos daionus hwn, gan obeithio y cynnydda 'dydd y pethau bychain' yn bethau mawr, 'ac na bydd eu llafur yn ofer yn yr Arglwydd,' ond y derbynia llawer Cymro lesâd tragywyddol trwy weinidogaeth y cymmod yn y ddinas hono." Cawn fod dyled o £376 4s., heblaw llogau am y flwyddyn flaenorol, yn ddyledus y pryd hwn. Yn nghofnodau Cymdeithasfa Caernarfon, Medi 1842, cawn y penderfyniad canlynol: — "Penderfynwyd fod yr Achos Cymreig yn Dublin, i gael ei gyflwyno i sylw morwyr crefyddol, ac iddynt hwy wneuthur rhyw egni i'w gynnorthwyo trwy y moddion a fernir oreu; ac oddieithr fod cynnorthwyon yn dyfod oddiwrthynt hwy, fod yn dra thebygol y bydd raid i'r Gymdeithas Genadol Gartrefol roddi yr achos yno i fyny." Gwedi y penderfyniad yna yn y Gymanfa cawn Forwr o Glan Menai yn ysgrifenu fel y canlyn i'r Drysorfa am Chwefror, 1843, "Yr wyf yn rhyfeddu paham y dysgwylir i ychydig forwyr crefyddol o Gymru dalu dyled Capel Cymreig Dublin, mwy nag eraill. Onid un ydym trwy Gymru, Lloegr a'r Iwerddon? ac onid sefydliad cenadol yw yr Iwerddon? a thrwy hyny y mae yn achos cyffredinol i Gymru oll; ac hefyd, onid yw morwyr crefyddol Cymru yn cyfranu at gynnal yr achos crefyddol yn eu hamrywiol gartrefleoedd, ac yn rhoddi yn ol eu gallu at yr amrywiol gymdeithasau gartref? O herwydd hyny afresymol yw galw ar forwyr at Achos Dublin, yn fwy na'u holl frodyr trwy Gymru oll, yn ol fy marn i. Y mae Cymry wedi gwneuthur egni, ac yn gwneyd yn barhaus, at anfon yr efengyl at y paganiaid, ond ni ddylid anghofio y paganiaid sydd gartref. '*Charity begins at home.*' Ychydig iawn o draul y mae y Cymry wedi ei gymeryd yn achos y morwyr i'w gymharu â'r hyn y mae y Saeson yn ei gymeryd. Y mae morwyr yn ddosbarth o bobl sydd dan lawer o anfanteision; anfynych iawn y maent ar y lân ar y Sabbothau i fwynhau moddion gras, ac o herwydd hyny y maent yn ddifeddwl am eu heneidiau; ac onid yw yn fraint i'r Cymry gael eu cyfarfod â moddion gras yn Dublin? O herwydd y mae llawer o honynt wrth hwylio allan o borthladd

na welant borthladd ar ol hyny, ac yn myned i fyd tragywyddol yn nghanol eu hiechyd, heb na phregethwr na blaenor yn agos atynt, i roddi na chynghor na chyfarwyddyd iddynt. Ac yn awr, os oes tri chant o bunnau o ddyled ar gapel Dublin, beth pe gofynid caniatâd i'n cyfeillion i wneuthur un casgliad eto, cyffelyb i un a wneir i dlodion, ar y Sabboth, trwy Ogledd Cymru? Ni byddai y £300 o bwysau pluen." Ond er yr apêl hon a'i chyffelyb, dyma gawn yn yr Adroddiad Cenadol am y flwyddyn yn terfynu Medi, 1843, "Sefydlwyd yr achos ac adeiladwyd y capel yma, yn benaf, er mwyn y morwyr Cymreig, ond gan nad yw y rhai'n yma ond achlysurol, nid oes olwg yn awr ar achos Cymreig sefydlog yn Dublin; y mae £256 o ddyled yn aros ar y capel." Fel yna y mae yn amlwg mai bychan iawn fu y cymhorth o unman ond o Gyfarfod Misol Môn. O herwydd cawn yn yr Adroddiad Cenadol am y flwyddyn yn terfynu Medi, 1844, "Derbyniwyd o Dublin trwy law Mr. John Williams, Frongoch, £8; at yr achos o Sir Fôn, £269, a thalwyd y swm yna at ddiddyledu y capel; eto, o Sir Fôn, at draul y weinidogaeth, £64 6s. 8c." Ac mewn crybwylliad geir mewn llythyr, dyddiedig Ebrill 6, 1844, oddiwrth y Parch. R. Williams, cawn, "y mae yn dda genyf glywed fod holl ddyled capel Dublin wedi ei glirio," yr hyn a bâr i ni gredu ddarfod i'r ddyled gael ei dileu oddeutu diwedd Mawrth, 1844.

Wel, yr ydym wedi bod yn crwydro ar ol mater y ddyled, nes y mae yn cael ei dileu trwy ofal a charedigrwydd Cyfarfod Misol Môn, ac ymdrech egnïol yr ychydig ffyddloniaid yn Dublin, fel y cawn achlysur eto i sylwi; ac yn awr dychwelwn at yr eglwys fechan yn y lle, yn rhifo fel y dywedwyd, 18,—pedwar o feibion, a'r gweddill yn ferched, a'r rhai hyn oll o'r bron mewn gwasanaeth, ond yr oll yn cydweithio yn ganmoladwy. Yr ydym yn cael fod amryw frodyr eraill yn zelog gyda'r achos. Pa un a oeddynt yn aros yn Dublin, ac heb fod yn aelodau eglwysig, ai ynte cyfeillion oeddynt o Gymru, ac yma yn fynych, nid ydym yn gwybod. Cawn fod Mri. G. a H. T. wedi casglu £2 18s. at gael *clock;* a chawn fod yr un gwŷr wedi casglu amryw symiau eraill at yr achos; ond nis gallwn heddyw gael gwybod pwy oedd y brodyr caredig hyn i'r achos, gan nad oes ond y llythyrenau uchod yn aros ar y llyfrau er coffhâd am danynt.

Y mae yn amlwg mai ansefydlog iawn oedd yr achos ar ei gychwyn; ac yn mis Awst 1839, y mae Mr. O. Thomas yn gadael Dublin am Gymru, a gwnaed bwlch mawr yn yr eglwys trwy ei ymadawiad. Yn mis Tachwedd 1839, y rhoe y cyntaf yn cael ei fedyddio yn yr Eglwys Gymreig, sef baban Mr. a Mrs. Humphreys; ac y mae yn awr yn fyw, ac yn preswylio yn Bangor, sef Mr. Wm. Humphreys; a'r Parch. R. Williams ydoedd yr un a'i bedyddiodd. Yn mis Mehefin 1840, cawn Mr. Robert Williams, Carneddi, Bethesda, yn dyfod yn aelod o'r eglwys yma, ac yr oedd ei ddyfodiad yn gaffaeliad mawr, a dysgwylid llawer oddiwrtho; ond ni bu yma ond rhyw dri mis, a symudodd i Ashford, lle y bu am gryn amser, ac oddiyno ysgrifenodd lawer i'r Drysorfa am ansawdd yr Iwerddon a'i phreswylwyr. Symudodd oddiyno i'r America. Llwyddodd yn fawr yn y byd, a dechreuodd bregethu, a daeth yn un o weinidogion penaf y Cyfundeb yn America, sef y Parch. Robert Williams, Ohio, os nad ydym yn camgymeryd y lle.

Yn y flwyddyn 1840, yn Nghymanfa Dinbych, yn mis Mehefin, "Trefnwyd fod Siroedd Môn, Arfon, a Meirion, i ofalu am yr achos yn Dublin, trwy i bob sir anfon yma bregethwr bob yn ail mis." Yn mis Gorphenaf y flwyddyn hon cawn y Parch. John Jones, Runcorn, yn dyfod yma, ac yn gwasanaethu yr achos am bump o Sabbothau; yn Medi y Parch. R. Griffith, Dolgellau, am bedwar Sabboth; ond nid oes genym hysbysrwydd am neb arall a fu yma y flwyddyn hon.

Hydref 9, 1841, cawn Mr. H. Barrow, o Abermaw, yn ysgrifenu, gan ddywedyd "iddo fod yn Dublin yn mis Medi, a'i fod newydd ddychwelyd;" ac meddai, "y mae tair o siroedd Gogledd Cymru, sef Môn, Arfon, a Meirion, yn anfon pregethwyr yno yn eu cylch, sef un bob mis, gan obeithio y bydd hyn yn lles i'r achos yn y lle. Y mae y cyfeillion yn Dublin yn taer ddymuno ar i'w brodyr yn y Gogledd barhau i anfon atynt rhaglaw, ac na lwfrhânt, gan fod addewid yr Arglwydd y bydd i'r fechan fod yn fil, a'r wael yn genedl gref. Sul y Pasg diweddaf (Ebrill 11), cynnaliwyd y Gymanfa gyntaf erioed yno ymhlith y Cymry yn yr Iwerddon, a phregethodd y Parchedigion W. Charles, Môn; Joseph Williams, Liverpool; a John Jones, Wrexham. Cawsant gyfarfod llewyrchus, a chynnulleidfa lïosog i wrando. Ar ol hyny bu y Parchedigion O. Williams, Meirion, ac Ellis Foulkes, Arfon, yno, a diau nad yn ofer; ac yn bresennol y mae y Parch. W. Charles, Môn, yno. Y mae golwg siriol ar yr achos, ac fe weddai i'r Cymry sydd yn preswylio yno, ac yn enwedig y morwyr sydd yn myned yno, fawrhâu yr Arglwydd am

godi capel Cymreig yn y porthladd hwn, lle y gallant glywed, os mynant, 'yn eu hiaith eu hunain, yn yr hon eu ganed, fawrion weithredoedd Duw.' Yr oedd y Parch. Ellis Foulkes yma yn mis Medi, a dywed am y Sabboth cyntaf, nad oedd cynnulleidfa y bore ond 24; ac o 40 i 50 y prydnawn a'r nos, a'r rhai hyny gan mwyaf yn forwyr; ac am un cynnulliad eglwysig, pryd nad oedd ond pedwar yn bresennol, ond eto iddo gael llawer o hyfrydwch ynddi; a phan yn ymadael yr oedd yn dadgan yr hyfrydwch oedd wedi ei gael yn y gwaith, ac yn credu na bu ei lafur yn Dublin yn ofer."

Yn mis Hydref y flwyddyn hon y mae y Parch. R. Williams yn rhoddi gofal y maes cenadol hwn i fyny, wedi bod yma yn llafurio yn ymdrechgar, a than lawer iawn o anfanteision, am naw mlynedd o amser; a'i destynau diweddaf yma oeddynt, y bore, Salm iv. 3; y prydnawn, 1 Ioan iii. 2; y nos, 2 Cor. v. 10, 11.

BARN CARLYLE AM SHAKESPEARE.

Os dywedaf mai Shakespeare ydyw y mwyaf ei feddyliau, yr wyf wedi dywedyd y cyfan yn ei gylch; ond y mae mwy yn meddwl Shakespeare nag yr ydym eto wedi ei weled. Y mae efe yr hyn a alwaf fi yn feddwl *anymwybyddol*—y mae mwy o rinwedd ynddo nag y mae efe ei hunan yn hysbys o hono. Dywed Novalis am dano fod ei *dramas* yn gynnyrchion natur mor ddwfn a Natur ei hun. Yr wyf yn cael gwirionedd mawr yn y dywediad hwn. Nid dyfais ydyw celfyddyd Shakespeare. Ei gwerth uwchaf ydyw ei bod yno, nid trwy unrhyw gynllun neu ragdrefniad. Y mae yn tyfu i fyny o ddyfnderoedd Natur, trwy yr enaid goruchel, cywir hwn, yr hwn sydd lais Natur. Bydd i genedlaethau diweddaraf dynolryw gael ystyron newydd yn Shakespeare, yn taflu goleuni newydd ar eu bôd dynol eu hunain. . . . . Gwobr uchaf Natur i enaid mawr, syml, ydyw iddo gael bod fel hyn *yn rhan o honi hi ei hunan*.—CARLYLE.

WALLAROO, SOUTH AUSTRALIA.

CYNNWYSA y *Wallaroo Times* am Mawrth 13eg adroddiad dyddorol am gyfarfod blynyddol "yr Eglwys Gymreig" yn Wallaroo, a gynnaliwyd Sabboth a Llun, Mawrth 10fed a'r 11eg. Yr hyn a olygir wrth "yr Eglwys Gymreig" yw yr hyn a fuasem ni yn ei alw yn "Gapel Cymreig." Ni ddywedir i ba enwad y perthyna; credwn mai Presbyteraidd neu Fethodistaidd ydyw, gan mwyaf, ond gyda chymysgedd yn ddiammheu o enwadau eraill. Y mae yr enw yn awgrymiadol ar y pen hwn—"Yr Eglwys *Gymreig*." Pwysleisir yr *iaith* yn hytrach na'r enwad. Y mae yr iaith yn rhwymyn o undeb, ac yn cadw dynion o olygiadau gwahanol ar lawer o bynciau, i gydaddoli yn gysurus yn nghwlwm tangnefedd. Ni thâl tynu terfynau enwadol yn rhy dŷn yn eithafoedd y ddaear. I'e ymfudai y mwyaf cul a sectyddol ei ysbryd o Gymru i Wallaroo, credwn y teimlai, erbyn cyrhaedd yno, fod gosod deg neu ddeuddeng mil o filldiroedd rhyngddo â Chymru wedi gwneyd hafog ryfedd ar ei sectyddiaeth. Byddai yn fwy hawdd ei drin, a diau y clywid ef yn ymofyn yn ostyngedig am rywle lle y mae yr Efengyl yn cael ei phregethu yn yr iaith Gymraeg! Byddai yn iechyd mawr i grefydd Cymru, ac i'w crefydd hwythau, pe ffurfid Gwladfa o'r dosbarth hwn mewn rhyw wlad heb fod yn nês i Gymru na deng mil o filldiroedd.

Gweinidog yr Eglwys Gymreig yn Wallaroo yw y Parch. JOHN LLOYD. Brodor yw Mr. Lloyd o dref Caernarfon, ac yno y treuliodd y rhan fwyaf o flynyddoedd mebyd ac ieuenctyd, yn aelod gyda'r Methodistiaid yn eglwys Engedi. Bu yno am rai blynyddoedd ar ol priodi. Bu wedi hyny am rai blynyddoedd yn Dublin. Yr oedd Mr. Lloyd yn hynod am ei zel a'i weithgarwch crefyddol yn y cyfnod hwn; ac yr oedd yn nodedig am ei ysbryd anhunangar. Adnabyddid ef fel un o'r dynion mwyaf caredig a chymwynasgar. Nid ydym yn sicr pa bryd na pha le y dechreuodd bregethu. Ond y mae yn awr yn weinidog llwyddiannus ar yr eglwys uchod er ys dros un mlynedd ar hugain. Ac ar y dyddiau crybwylledig, cynnaliwyd cyfarfod blynyddol yr eglwys. Pregethwyd boreu Sabboth gan y Parch. P. Knight, B.A.; yn y prydnawn, gan y Parch. T. Piper, o Moonta; a chan y Parch. John Lloyd yn yr hwyr, yn nghapel y Wesleyaid. Yr oedd y capelydd yn llawnion ymhob odfa. Dywedir fod adroddiad arianol yr eglwys y mwyaf boddhâol er ei sefydliad.

Cynnaliwyd cyfarfod cyhoeddus nos Lun yn y capel Cymreig, lle yr oedd cynnulleidfa fawr wedi ymgynnull. Llywyddid gan Mr. Thomas Davies, U.H. Anerchwyd y cyfarfod gan y Parch. W. Thompson, M.A., B.D. (Henaduriaethwr); y Parch. W. Jarrett (Wesleyad Cyntefig); y Parch. Percy Knight, B.A.

Wesleyad); a'r Parch. A. Hodge (Annibynwr). Dywedodd Mr. Lloyd, ar ddiwedd y cyfarfod, ei fod yn awr yn dechreu ar yr eilfed flwyddyn ar hugain o'i weinidogaeth yn yr eglwys hon; ac nad oedd trwy yr holl amser wedi myned allan o'r capel hwnw gyda theimladau archolledig. Diolchai i Dduw am hyn, ac iddo ef y rhoddai yr holl ogoniant. Cyflwynodd ddiolchgarwch i'w gydweinidogion, y cadeirydd, y côr, y newyddiadur lleol, a'r gwahanol enwadau, a phawb oeddynt wedi cynnorthwyo i wneyd eu cyfarfod blynyddol yn un llwyddiannus.

Yr oedd yn llawenydd diffuant genym ddarllen yr adroddiad uchod am lwyddiant gweinidogaeth Mr. Lloyd. Nis gallem lai na synu wrth ddarllen yn yr un newyddiadur am eglwys arall, *gan' milldir* oddiwrth y llall, yr hon sydd hefyd dan ofal yr un gweinidog. Dyfynwn y paragraph:—

"Nid oes anghen hysbysu y rhai sydd wedi bod yn gydnabyddus â'r Parch. John Lloyd yn ystod ei weinidogaeth faith a gwerthfawr yn Wallaroo, ei fod yn feddiannol ar ŷni nad oes ond gan ychydig gymaint, na chan neb fwy. Ond nid bob amser y mae gwir deilyngdod yn cael ei gydnabod. Pa fodd bynag, gyda golwg arno ef, teimlwn yn sicr y bydd yn dda gan ei lïaws cyfeillion ar yr Orynys wybod fod ei lafur yn cael ei werthfawrogi mor fawr yn yr eglwys arall sydd dan ei ofal yn *Mount Lofty* ag ydyw yma. Ymddangosodd adroddiad o Gyfarfod Blynyddol eglwys *Mount Lofty* yn yr *Australian Independent*, papyr crefyddol a gyhoeddir yn Sydney, yr hwn a ddywed:—'Yr oedd yr adroddiadau yn llawn o lwyddiant; y mae yn amlwg fod gweinidogaeth nawsaidd y Parch. John Lloyd yn fendithiol. Y mae Mr. Lloyd yn weinidog ar ddwy eglwys gan' milldir oddiwrth eu gilydd. Rheilffyrdd ac ŷni a alluogant ddyn i wneyd llawer iawn. Y mae Mr. Lloyd yn dalp o ŷni *(a mass of energy)*.'"

Barddoniaeth.

ENGLYN AR YR IAWN.

Nodedig a hynod ydyw—yr Iawn,
A'i rinwedd digyfryw;
Dwyfol rodd i ddynolryw
A roes Iôn o'i fawr ras yw.

Dolgellau. Glan Wnion.

IAWN CRIST.

Pryddest fuddugol yn Eisteddfod Gadeiriol Lixwm, 1888. *Gan* "Cornelius," *set Mr. Joseph Griffiths, Wyddgrug.*

"Paham y gwneir cam â'r cymmod,—yr Iawn;
A'i rinwedd dros bechod?
Dywedwch faint y Duwdod;—
Yr un faint yw 'r Iawn i fod."
R. A. G. Ddu.

Pa ddeall, pa awen, pa ddawn sydd ddigonol,
I draethu na dirnad dirgelwch mor llawn
O haeddiant, dyoddefaint, ufudd-dod mor rasol,
Drysorwyd i'r euog diobaith mewn Iawn?
Goleuni yr haul;—ond yr haul sydd oleuni:—
"Iawn Crist,"—ond Efe, Efe'i hun yw yr Iawn!
"Goleuni yw Duw:"—goleuni 'n bodoli;—
Yr Iawn a'r Cyfryngwr, mae 'r undeb mor llawn.
"Yr Hwn a osododd Duw 'n Iawn" yw 'r dystiolaeth;—
Y Person, gosodiad, a'r aberth o hedd,—
Yn haeddiant tragwyddol,—yn gymeradwyaeth
I'r euog a gredo ar erchwyn ei fedd!

Nid gweithred, nid gwaith yw yr Iawn, ond y Person;
"Yr Hwn a'i traddododd ei hun trosom ni,"
Yn offrwm, yn aberth i Dduw, a thros ddynion:—
Trwy rinwedd ei haeddiant gwrandewir ein cri.
Nid taliad a roddwyd un waith ar Galfaria
Yw Iawn y gwirionedd,—"Efe yw yr Iawn!"
Mae 'r haeddiant a'r gwerth yn y Person yn para;—
Mae rhinwedd y cymmod uwch deall pob dawn.

Ai gwir oedd preswyliad Duw 'n ddyn ar y ddaear?
Ai ynte ymddangos fel dyn a wnaeth Duw?
Ai gwir fod Mab Joseph—y Prophwyd digymhar—
Yn Arglwydd a Barnwr y meirw a'r byw?
Os hwn oedd yr Iawn, a oedd raid iddo farw?
Os marw, pa raid dyoddefaint mor ilym?
Ai ni all'sai ochel gofidiau mor chwerw,
A sathru pob gelyn yn amlder ei rym?
Y diddrwg, dihalog, yr ymddidoledig,
Heb dwyll yn ei enau, ac ni wnaethai gam,
Yn marw dan felldith, ar bren yn grogedig;—
Medd nefoedd, a daear, ac uffern—paham?

Awn at y dystiolaeth, y ddeddf, a'r prophwydi;—
Cawn son am ddyoddefaint, marwolaeth a gwaed
Diniwed ddurturod, ac ŵyn, ac anneri,—
Poeth-ebyrth dros gamwedd er cymmod a wnaed.
Heb ollwng eu gwaed hwy nid ydoedd maddeuant:—
Nyni a grwydrasom fel defaid ar goll;—
Messïah a leddir,—ond nid am ei haeddiant,
Yr Arglwydd roes arno 'n hanwiredd ni oll.
Yr Arglwydd a fynai ei ddryllio 'n ddiarbed;
Efe a'i trywanodd,—a'i clwyfodd â'i gledd;
Ac onid oedd raid i Grist ddyoddef a myned
Trwy angeu i mewn i ogoniant a hedd?

Mae haeddiant tragwyddol yr Iawn mor ddiderfyn
Ag anghen troseddwyr pob oes a phob gwlad:
Dyweder mai meidrol yw gwerth pob credadyn,—
Mae 'r Iawn mor ddiderfyn a chariad y Tad
Os cariad yw 'r Duwdod, pa le mae cyfiawnder?
A ydyw sancteiddrwydd mor ddysglaer, mor bur,
Wrth gospi y diddrwg ac arbed ysgeler
Droseddwr, a'i ollwng heb gerydd na chur?

"Yr Hwn a osododd Duw 'n Iawn,"—diolch iddo!
I ddangos cyfiawnder wrth faddeu fy mai.
Mae 'r priodoliaethau yn Hwn yn dysgleirio
Mewn mawredd cyfartal,—dim mwy a dim llai.
Ac felly y carodd Duw 'r byd, medd y Ceidwad,
Nes rhoddi ei unigan.dig Fab mad;
Fel mwyach na choller pwy bynag, mor anfad,
A gredo, ond caffael pur fywyd yn rhad,

Wel dyma amlygiad o gariad yn osai
Y cynghrair tragwyddol—cyfammod y Tri :—
"O deffro, fy nghleddyf, yn erbyn fy Mugail ;
A tharo y Gŵr sydd yn gyfaill i mi."
Ha ! "wele fi, anfon fi,—da genyf wneuthur
D' ewyllys, O Dduw !—mae dy gyfraith mor gu :
'N awr wele fi 'n dyfod—'r wy 'n dyfod yn brysur"—
Cyhoedder trwy 'r ddaear—"mae 'n d'od oddi fry."

Arafed olwynion peirianwaith y cread ;
Cydsafed y bydoedd mewn syndod bob un ;—
Y dwyfol Ddeddfroddwr, yn mawredd ei gariad,
Yn marw i ddyhuddo 'i ddigofaint ei hun ;
Anghenrhaid tragwyddol gyfiawnder yn cospi
Anghyfraith yn mherson y Deddfwr yn Iawn ;
Y cariad, cyfiawnder, a'r purdeb diwyrni
Yn cydymddysgleirio mewn haeddiant mor llawn.

Ai merthyr oedd Iesu, a thyst i'r gwirionedd,
Yn marw o gariad at grefydd ei wlad ;
Gan ddadgan hyd angeu werthfawredd pur rinwedd ;
Gan selio 'i dystiolaeth â'i fywyd heb wâd ?—
Gwrandawn ei dystiolaeth,—"'D oes neb yn cymeryd
Fy einioes oddiarnaf,—fy meddiant yw hi ;
Myfi sy 'n ei dodi i lawr, myfi hefyd
A'i hadfer ;—gorchymyn fy Nhad yw i mi."
"Y cwpan a roddes y Tad, onis yfaf?
Mae 'n chwerw,—mae f' enaid yn drist hyd y bedd ;—
Gwn na 'm cywilyddir,—y dydd a ennillaf,
Y diwedd fydd coron gogoniant a hedd.

Myfi, och ! pryf ydwyf, nid gŵr, gwarthrudd dynion
A dirmyg y bobloedd ;—ysgydwant eu pen ;
Fel gwrdd-deirw Basan yw gwedd fy ngelynion,
Agorant eu genau mewn cabledd a sen.

Fy Nuw, O fy Nuw ! paham y'm gadewaist ?
Tro ataf, a thrugarhâ wrthyf yn awr !—
Ni chiliaf yn ol,—on'd i hyn y'm danfonaist,—
'R wy 'n gwel'd buddugoliaeth fel toriad y wawr ;
I wneuthur d' ewyllys y'm ganed mewn amser ;
Gwasanaeth ufudd-dod yw 'm bywyd a'm bedd,
A rhoddi fy einioes yn bridwerth dros lawer,
A'u dwyn i ogoniant i weled dy wedd."

O ! ryfedd ufudd-dod,—Duw-ddyn mewn gwasanaeth
Dan ddeddf, heb ddim rhwymau ond rhwymau ei ras,
A rhwymau cyfammod o rasol ddarpariaeth
Yn hwn yr ymrwymodd o'i wirfodd yn was.
Ufudd-dod yn cynnwys dyoddefaint hyd angeu,
Hyd angeu ! O ïe, hyd angeu y groes ;
Pa seraph all ddirnad dyoddefaint ein Meichiau,
Pan lefai o'r t'wyllwch yn nyfnder ei loes,—
"Elôi !—Elôi !—Lamà Sabachthàni !"
O ! hunanymwadiad byth byth i'w fawrhau ;
Gwirfoddol ufudd-dod ymhob rhyw galedi ;
Anfeidrol ddyoddefaint ymhob ufuddhau!

(I barhâu.)

DAU WR A AETH I FYNY I'R DEML I WEDDIO.

(Cyfeithiad o Hen Awdwr.)

DAU i weddïo? Yn hytrach aeth yno
Un i weddïo a'r llall i ymffrostio.

Saif un yn syth ac yn uchel ei droediad,
Lle na faidd y llall agoryd ei lygad

I allor Duw Iôr y naill oedd agosaf ;
Ond i Dduw 'r allor y llall ydoedd nesaf.

G.

Adolygiad y Wasg.

Hanes Bywyd y diweddar Barchedig HENRY REES, *Liverpool, yn cynnwys casgliad helaeth o'i Lythyrau. Gan y Parch.* OWEN THOMAS, D.D., *Liverpool.* Rhan I. Hughes & Son: Wrexham.

WELE ugain mlynedd wedi myned heibio, er pan gynhyrfwyd Cymru drwyddi gan y newydd pruddaidd am farwolaeth y Parchedig HENRY REES! Llawer gwaith y buom yn gresynu na buasai ei Gofiant wedi ymddangos er's o leiaf bymtheng mlynedd yn ol. Cofus genym glywed ei gyfaill ffyddlawn, a'i gydweithiwr am ddegau o flynyddoedd, y diweddar David Roberts, Ysw., Liverpool, yn cwyno yn fawr mewn Cymdeithasfa er's llawer o flynyddoedd bellach, am na buasai y Cofiant wedi dyfod allan ; a sylwai y byddai efe ei hunan, a lluaws ereill o gyfoedion a chyfeillion Mr. Rees, y rhai a fuasent yn cymeryd y dyddordeb mwyaf mewn darllen ei Gofiant, yn fuan iawn wedi ei ddylyn ef i'r byd mawr ysbrydol. Ac felly yn nghwrs naturiol pethau y bu.

Ond wele y Rhan gyntaf o'r diwedd wedi ymddangos. Er pan glywsom gyntaf fod Dr. THOMAS wedi ymgymeryd â dwyn y Cofiant allan, parai enwogrwydd y gwrthddrych a'r awdwr i'n dysgwyliadau gael eu cyfodi yn uchel iawn: ac ni siomwyd mo honynt yn y gradd lleiaf yn y Rhan gyntaf hon. Y mae yn bob peth a allesid ei ddysgwyl neu ei ddymuno. Darllenasom hi bob gair gydag awyddfryd a mwynhad nas gallwn ei ddesgrifio. Y mae ei darllen yn wledd o'r fath fwyaf danteithiol. Y mae y fath ddyddordeb a swyn yn yr hyn a ddywedir ac yn y dull o'i ddyweyd, ymhob tu dalen, nes peri fod yn anmhosibl bron, ar ol dechre darllen, roddi heibio cyn bwyta yr holl lyfr. Y mae pob ffaith fechan, y manylion lleiaf, yn llawn dyddordeb i ni, am y pregethwr mwyaf, y mae'n debyg, a chymeryd pob peth at eu gilydd, a ymddangosodd yn Nghymru o'r dechreu ; ac am y cymeriad mwyaf *saintly*, yn nyfnder ei ysbrydolrwydd, llymder ei burdeb, a llwyredd ei ymgysegriad i'r Efengyl, a welodd ein gwlad erioed.

A chafodd gwrthddrych enwog y Cofiant fywgraffydd teilwng o hono yn Dr. Thomas, megys y cafodd pregethwr mawr

arall Cymru—y diweddar Barch. John Jones, Talsarn. Y mae yn ddiau fod Cofiant y Parch. John Jones yn llyfr hollol ar ei ben ei hun, a chredwn nad allasai neb ei ysgrifenu ond ei awdwr. Nid ydym yn ammheu dim na bydd Cofiant Mr. Rees yn gydymaith-gofiant i'r llall (os goddefir y fath ymadrodd Cymreig-Seisonig)—dau Gofiant heb eu cyffelyb yn yr iaith am ddau brif bregethwyr Cymru. Y mae gan Dr. Thomas ryw allu a dawn dihafal i ysgrifenu Bywgraffiad—pregethwr mawr yn arbenig. Megys y mae yn bregethwr mawr ei hunan, y mae mewn dwfn gydymdeimlad â'i destun—y dyn a'i waith. Y mae ganddo afael ryfeddol ar egwyddorion ac ar fanylion, yr hyn sydd yn beth anghyffredin. Am hyny y mae yr hanes yn gyfoethog o ffeithiau, y rhai ydynt ynddynt eu hunain yn ddyddorol; ond y mae eu gwerth a'u dyddordeb yn cael eu hychwanegu yn fawr trwy y *gallu* sydd gan yr awdwr *i ymwneyd â'r ffeithiau*, pa un bynag ai trwy eu hegluro, nodi allan eu hystyr, olrhain eu cysylltiadau, neu daro goleuni allan o'r ffaith i dywynu ar ryw nodwedd yn y gwrthddrych, neu yr amgylchiadau cydfynedol. Peth arall hefyd sydd yn gryf yn Dr. Thomas, megys yr oedd hefyd yn hynod yn Mr. Rees, ydyw yr hyn a elwir *human interest* —dyddordeb mawr ymhob peth dynol, ymhob peth a berthyn i *ddyn*. Gallasai gwrthddrych ac awdwr y Cofiant dystio yn ngeiriau yr hen linell Ladin adnabyddus—nad oeddynt yn cyfrif dim a berthynai i *ddyn* yn estronol iddynt hwy. Chwanegwn at hyn y tri rhagoriaeth arbenig a berthyn i arddull yr awdwr:—Clirder, cryfder, a llawnder. Y mae Dr. Thomas yn feistr ar fynegiad —y mwyaf meistrolgar, y mae'n debyg, mewn gwneyd *statement* clir, nerthol, a chyflawn heb fod yn eiriog.

Synwn yn fawr at ein cyd-genedl os na chlywn y bydd y llyfr hwn yn gwerthu *wrth y miloedd.*

Cymru Fydd. *O dan olygiaeth Mr.* R. H. Morgan, M.A., *Menai Bridge; a Mr.* O. M. Edwards, B.A., *Rhydychain.* (Cyf. II. Rhifyn 6.) E. W. Evans, Dolgellau.

Cyfrwng y bwriedir y cyhoeddiad hwn i fod i amlygu ac i feithrin yr ymddeffroad, neu y bywyd newydd, cenedlaethol sydd wedi cychwyn yn ddiweddar, ac wedi cynnyddu mor gyflym yn ein plith. Yr ydym yn barnu ei fod yn dra chyfaddas i ateb yr amcan teilwng hwn. Gwelir ei fod yn awr dan olygiaeth dau weinidog (er mai llëygwyr ydynt ar y wyneb-ddalen) dysgedig, galluog, llawn ŷni a gwaith, ac o'r iawn ysbryd (ni a gredwn), yr hyn a'u ceidw i fyned yn mlaen heb redeg i eithafion. Credwn fod Mr. Morgan a Mr. Edwards yn engreifftiau rhagorol o bethau goreu *Cymru Fydd*, ac felly yn gymhwys iawn i fod yn eneuau ac arweinyddion y symudiad. Cynnwysa y Rhifyn hwn erthyglau rhagorol yn Gymraeg a Saesoneg gan y Golygwyr, y Barnwr Brynmor Jones, Ll.B.; y Proffeswr T. F. Roberts, M.A., Caerdydd; a'r Proffeswr Ellis Edwards, M.A., Bala.

Newyddion Cyfundebol.

Y CYFARFODYDD MISOL.

Yn Nghyfarfod Henaduriaeth Trefaldwyn a gynnaliwyd yn y Groeslwyd, Mehefin 13 a'r 14eg, hysbyswyd fod cyfeillion y lle hwn wedi llwyddo i dalu £200 o'r ddyled ar y capel yn ystod y flwyddyn. Pasiwyd pleidlais gynhes o ddiolchgarwch i D. Davies, Ysw., Llandinam, am ei haelioni tuag at yr achos hwn.

Yn Nghyfarfod Misol Trefaldwyn Isaf, a gynnaliwyd yn Llangynog, Mehefin 24 a'r 25ain, penderfynwyd cyflwyno y genadwri a ganlyn i sylw y Gymdeithasfa nesaf:—"Ein bod, yn ngwyneb sefyllfa bresennol crefydd yn ein gwlad, yn dymuno galw sylw y Cyfarfod Misol at yr anghenrheidrwydd am fwy o undeb a chydweithrediad rhwng y gwahanol enwadau Ymneillduol â'u gilydd, mewn trefn i hyrwyddo teyrnas yr Arglwydd Iesu yn ei blaen yn ein plith." Gwnaed coffâd teimladwy am y diweddar Barch. Hugh Lloyd, Wolverhampton, a phenderfynwyd anfon llythyr o gydymdeimlad â'r teulu yn eu trallod a'u galar.

Yn Nghyfarfod Misol Llundain, a gynnaliwyd Mehefin 26ain, yn Jewin Newydd, hysbysodd y Parch. R. E. Morris, B.A., ei fod yn bwriadu myned ar ymweliad âg Unol Daleithiau America, ac felly y bydd yn absennol o'u plith am y tri mis nesaf. Penderfynwyd fod y Cyfarfod Misol yn dadgan ei ddymuniadau goreu ar ran Mr. Morris, gan weddio am i nawdd ac arweiniad y Nef fod yn eiddo iddo yn ystod ei fynediad allan i Racine, yn yr Unol Daleithiau, yn ystod ei aros-

iad yno, a hyd ei ddychweliad yn ol. Cyflwynwyd "Llyfr Coffadwriaeth yr Amseroedd," sef llyfr yn cynnwys hanes y Methodistiaid Calfinaidd yn Llundain, i'r Cyfarfod Misol, gan Mr. Lemuel Pierce. Rhoddwyd cymeradwyaeth gyffredinol i'r llafur cariad hwn o eiddo Mr. Pierce, a dymuniad ar iddo ei gwblhâu trwy gael hanes Jewin Crescent, Jewin Newydd, a Hammersmith, y rhai oeddynt hyd yma heb ddyfod i law.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Conwy, a gynnaliwyd yn Nantbwlchyrheiyrn, Gorphenaf 3 a'r 4ydd, hysbyswyd y cymerid i ystyriaeth yn y cyfarfod nesaf y priodoldeb o fod swyddogion yn cael eu dewis i eglwysi yn y cyfarfod eglwysig ar nos Sabboth.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Benfro, a gynnaliwyd yn yr Hall, ar adeg y Gymdeithasfa, cytunwyd ar benderfyniad i'w gyflwyno i'r Gymdeithasfa ynghylch afreoleidd-dra ydoedd wedi cymeryd lle gyda'r gweinyddiad o Swper yr Arglwydd, a gosodwyd ar y Parchn. W. Powell a G. Williams i'w gyflwyno.

Yn Nghyfarfod Misol Arfon, a gynnaliwyd yn Beddgelert, Gorphenaf 4 a'r 5ed, gwnaed coffhâd am y diweddar Mr. R. Griffith, Tabernacle, a Mr. L. Lewis, Caernarfon, a phenderfynwyd fod cofnodiad o gydymdeimlad y Cyfarfod Misol yn cael ei anfon at deuluoedd y naill a'r llall. Caed anerchiad rhagorol gan y Parch. W. Rowlands, Cefnywaen, wrth roddi i fyny y gadair i fyny i'w olynydd, Dr. Roberts, U.H., Penygroes.

Yn Nghyfarfod Misol Gorllewin Meirionydd, a gynnaliwyd yn Garegddu, Ffestiniog, Gorphenaf 8 a'r 9fed, ymdriniwyd yn nghyfarfod y gweinidogion ar "Ddyledswyddau gweinidog." Mater ymdrafodaeth am yr awr gyntaf yn y prydnawn oedd "Addysgiaeth y plant yn yr Ysgol Sabbothol." Darllenwyd papur rhagorol ar y testun gan Mr. J. Parry Jones, Bank. Darllenwyd llythyrau cyflwyniad y Parchn. J. Roberts, Corris, a D. O'Brien Owen, Llanfrothen a Croesor, a rhoddwyd derbyniad croesawgar iddynt. Penderfynwyd rhoddi anrheg o lyfrau i Miss Elizabeth Williams, Croesor, ar ei hymadawiad i fyned yn genades i Sylhet.

Yn Nghyfarfod Misol Lleyn ac Eifionydd, a gynnaliwyd yn Llanengan, Gorphenaf 8 a'r 9fed, traddododd y Parch. James Jarrett, Nefyn, anerchiad wrth gyflwyno y gadair i'w olynydd, E. Jones, Ysw., Maer Pwllheli. Pasiwyd pleidlais o ddiolchgarwch i Mr. Jarrett am ei wasanaeth difwlch yn y gadair am chwe' mis, ac am ei anerchiad rhagorol.

Gwnaed darpariadau gan bron yr oll o'r Cyfarfodydd Misol ar gyfer dwyn tystiolaeth ger bron y Ddirprwyaeth sydd yn chwilio i weithrediad Deddf Cau y Tafarnau ar y Sabboth yn Nghymru.

Rhoddwyd annogaethau gwresog hefyd mewn amryw Gyfarfodydd Misol i ledaenu a phrynu Cofiant a Phregethau y diweddar Barch. Richard Owen, yr hwn sydd newydd ei gyhoeddi.

GALWADAU.

Deallwn fod Mr. G. S. Parry, Carmel, wedi cydsynio â galwad eglwys y Borth, ger Porthmadog, i ddyfod i'w bugeilio; a Mr. J. E. Jones, Gyffylliog, i eglwysi Salem a Nant, Sir Fflint; a Mr. J. Davies, Bala, i eglwysi Coedpoeth, Glan'rafon a Rhostyllen, Sir Fflint.

Y mae y Parch. Henry Rees Davies, Crewe, wedi cydsynio â galwad eglwys y Cysegr (Arfon), i'w gwasanaethu fel bugail, a'r Cyfarfod Misol wedi cadarnhau yr alwad.

CYFARFODYDD PREGETHU.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Rehoboth, Treffynnon, ar y Sabboth, Gorphenaf 7fed. Pregethwyd gan y Parchn. Griffith Ellis, M.A., Bootle, ac Owen Owens, Liverpool.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Llanfrothen, Sabboth, Gorphenaf 21ain. Gweinyddwyd gan y Parchn. D. Charles Evans, Menai Bridge, a G. Parry, D.D., Aberystwyth.

Gorphenaf 6ed, cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Brynrhos, Arfon, pryd y pregethwyd gan y Parchedigion D. F. Williams, B.A., Rehoboth; William Thomas, Pwllheli; a John Pritchard, Amlwch. Cafwyd pregethau grymus, ac arwyddion amlwg o foddlonrwydd yr Arglwydd yn yr holl oedfaon; a gobeithiwn y bydd y cyfarfod yma yn ddechreuad adfywiad grymus yn ein plith.—D. Thomas.

BEDLINOG.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu Blynyddol yn y lle uchod ar y dyddiau Sul a Llun, Mehefin 16 a'r 17eg, pryd y pregethwyd gan y Parchn. D. H. Williams, Casnewydd, ac Ebenezer Rees, Bryntirion.

PENDINE.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn y lle uchod y Sabboth, Mehefin 30ain. Pregethwyd gan y Parch. W. M. Lewis, Tyllwyd, dair gwaith.

ARHOLIAD DUWINYDDOL ATHROFA Y BALA, 1889.

I.

MARTENSEN'S *Christian Dogmatics.* (*The Fall of Man from God*, &c.: SECT. 80—120.) (Not more than *Eleven* Questions to be answered.)

1. Shew that the Fall of man, though a true and universal history, is not eternal history; or, that sin is not inseparable from the conception of man.

2. What principle in human nature makes the realization of evil possible?

3. Which is the theory adduced in the Oriental Manichæism to maintain the necessity of evil? And mention the opposite view by which Western speculation has endeavoured to uphold that necessity?

4. Shew how the idea of the necessity of sin is derived from the *history of the world.* Name the principal Protestant thinkers by whom it was set forth; and shew the fallacy of this theory.

5. In the doctrine of the necessity of evil which traces it back to the *divine decree*, shew how the supra-lapsarian theory that describes the Fall as a *felix culpa* fails to reconcile the *ethical* and the *meta physical* view of the world. State the true view, according to Martensen, by which the reality of sin and of redemption can alone be maintained, and which embraces the truth both of the supra-lapsarian and the infra-lapsarian theories.

6. Explain the difference between the theories of *Traducianism* and *Creationism.* What is there in man that cannot be transmissible or inheritable?

7. What are the errors involved in Kant's doctrine of the *Categorical Imperative*, or the *Autonomy of Reason?*

8. Explain the ethical meaning of the scriptural expressions ὁ κόσμος οὗτος and ὁ αἰὼν οὗτος as shewing the effects of the Fall on the historical development of the race.

9. Shew how the Christian doctrine of the Devil is opposed to the dualism of heathendom, to Acosmism, Pantheism, and Theism; and how it is related to the Creation-dogma, the dogma of the Son of God, or the doctrine of the Trinity. Explain the phrase *Alterum dei filii.*

10. State the Protestant Doctrine of Original Sin, and examine the objections brought against it.

11. Explain the distinction between the *immanent* and the *transcendent* in the operations of the Providence of God.

12. How does Martensen distinguish between the *relative* and the *perfect* miracle? And how does the passage that he adduces furnish an instance of the latter?

13. State your opinion as to the proposition—*Etiamsi homo non pecasset, Deus tamen incarnatus esset—licet non crucifixus.* What portions of Scripture are referred to by Martensen as supporting that view?

G. PARRY.

II.

GREEK TESTAMENT. (*Colossians* II., III.)

(Not more than *Eleven* Questions to be answered).

1. CHAP. I., *Ver.* 1: Does the latter clause (καὶ ὅσοι κ.τ.λ.) imply that the Apostle was personally known to the Colossians and Laodiceans, or that he was not? Or—is that clause in the same category as the ὑμεῖς and those ἐν Λαοδικείᾳ, or in a different one?

2. *Ver.* 2. (1) Is Χριστοῦ in apposition with Θεοῦ? (2) Or, is it the genitive after Θεοῦ? (3) Or, is it in apposition with μυστηρίου? Translate the clause according to each of the above views, and give a reason for preferring one of them.

Comment on the various readings in this passage.

3. *Ver.* 3. (1) Does the ἐν ᾧ refer to "Christ" or the "mystery?" (2) Give the distinction between σοφία and γνῶσις. (3) What is the allusion in ἀπόκρυφοι? (4) Is ἀπόκρυφοι connected with εἰσὶν, or is it to be taken as a secondary predicate?

4. *Ver.* 9. (1) Specify the difference between θεότης and θειότης. (2) Is the πλήρωμα in this verse the same as that in I. 19? If not, explain the difference. (3) Give the meaning of σωματικῶς in this connection.

5. *Ver.* 14, 15. (1) Explain the construction χειρόγραφον τοῖς δόγμασιν. Is the direct combination of a verbal substantive with a dative of the instrument a more frequent construction in classical or in New Testament Greek? (2) Explain the literal and the spiritual meanings of the "handwriting," and of the allusions in ver. 14 and 15.

6. Explain the application of the paragraph 16—23 to the asceticism and the various tenets of the false teachers.

7. CHAP. III. *Ver.* 1.—(1) To what expression in Chap. II. does the clause "If then ye were raised with Christ" refer? (2) What is the theological import of the terms "buried with," "risen with," &c.? Is the participation an objective or an ethical one?

8. *Ver.* 2.—Which is the best translation of the aorist ἀπεθάνετε—that denoting a *state*, or the *act* of entering on that state?

9. *Ver.* 5. (1) Shew how the substitution of a general principle for special precepts attains the end after which the Gnostic teachers had striven in vain—the checking of sensual indulgence. (2) Distinguish between the vices mentioned here: and ex-

plain the accusative case. (3) What is the general order observed?

10. *Ver.* 8. (1) Distinguish between these vices. (2) What is the distinctive character of this class of sins, by which its difference from the class specified in ver. 5 is marked?

11. *Ver.* 9, 10, 11. Are the aorist participles here synchronous with the *ἀπόθεσθε* and the *μὴ ψεύδεσθε*, or do they precede them? Or—do they form a part of the exhortation, or assign a ground for it? State your reasons for the view you adopt.

12. *Ver.* 15. (1) Which is the reading that has the greatest weight of critical authority in its favour? (2) Explain the precise meaning of the verb *βραβεύειν*, and shew how this affects the sense you give to *καταβραβενέτω* in II. 18.

13. Comment on some one point of grammar in chap. II. 2, 8, 15.

G. Parry.

MARWOLAETHAU PREGETHWYR.

Y PARCH. SAMUEL PRICE, BURY'S GREEN.

Ar y 6ed dydd o fis Mai diweddaf, bu farw y Parch. Samuel Price. Genedigol oedd Mr. Price o Brynmawr, ac yno y dechreuodd bregethu. Bu am beth amser yn Ngholeg Trefecca, dan addysg Dr. Charles. Aeth o'r Coleg yn genadwr i Lanmartin. Bu wedi hyny yn Llandâf. Aeth oddiyno i Porth Cawl, ac oddiyno i Bury's Green, i gymeryd gofal yr eglwys hono, a dwy eglwys arall. Wedi bod yn gystuddiol am rai blynyddau, er yn dal yn ei lafur cyhoeddus, ymddiswyddodd er mwyn i'r eglwysi gael gofal mwy effeithiol, a symudodd i fyw i'r Taibach. Yr oedd Mr. Price o ysbryd crefyddol, o dymher serchog, ac yn dra ymroddedig i wasaneth ei Arglwydd. Bu lluaws o bobl ieuainc dan ei addysg yn darpar ar gyfer yr Athrofa. Yr oedd ei ddefnyddioldeb a'i barch yn fawr ymhob man y bu yn trigiannu. Claddwyd ef dan y ddeddf newydd yn mynwent Eglwys y Groes. Gwasanaethwyd wrth y tŷ gan y Parch. Moses Thomas; ac wrth y bedd, gan y Parchn. W. Williams, Abertawe; D. Phillips, Abertawe; ac E. Jones, Castellnedd.

Y PARCH. HUGH LLOYD, WOLVERHAMPTON.

Ganwyd Mr. Lloyd yn Llansantffraid Glan Conwy. Bu yn llafurio am rai blynyddoedd (cyn ac ar ol y flwyddyn 1857) fel Cenadwr Trefol ynglŷn â'r Genadaeth Gymreig yn Llundain. Cafodd alwad oddiyno i Dowlais, lle y bu yn llafurio fel bugail gyda llwyddiant a chymeradwyaeth am amryw flynyddoedd. Symudodd tuag 16 mlynedd yn ol i gymeryd gofal eglwysi Cymreig Wolverhampton a Bilston. Yr oedd Mr. Lloyd yn ŵr pybyr, gwrol, llawn o ŷni a gweithgarwch. Diau iddo fod yn dra defnyddiol yn y gwahanol gylchoedd y bu yn llafurio ynddynt. Adfeiliai ei iechyd er ys rhai blynyddoedd, a dydd Mawrth, Mehefin 18fed, hunodd yn dawel yn yr Iesu yn 76 mlwydd oed. Daeth y diwedd yn ddisymwth. Y dydd Gwener canlynol, cynnaliwyd gwasanaeth yn y capel, yn yr hwn y cymerwyd rhan gan y Parchn. D. Pierce, Salem; E. Griffiths, Meifod; J. Johnston; J. Prichard, a W. Williams, Birmingham; a Mr. W. Jones, Wrexham. Gwasanaethwyd wrth y bedd gan y Parch. E. Griffiths.

Nodiadau Misol.

CYNNULLIAD YSGOLION SABBOTHOL Y BYD.

Nos Lun, y 1af o Orphenaf, y dydd Mawrth a'r Mercher canlynol, cynnaliwyd cyfarfodydd cynnrychiolwyr yr Ysgolion Sabbothol o wahanol wledydd y byd, yn Llundain. Croesawyd hwy gan Arglwydd Faer Llundain nos Lun yn y *Mansion House*. Yr oedd mwy na 600 yn bresennol; yn eu mysg yr oedd amryw foneddigesau yn gynnrychiolwyr o America, a rhai, er nad cynifer, o wledydd eraill. Canmolai y Maer Ysgolion Sabbothol yr Unol Daleithiau, a dywedai nad oedd eu gwell mewn unrhyw wlad. Rhoddwyd adroddiad o ystâd a gwaith yr Ysgolion Sabbothol gan ymwelwyr o Germany, Ffrainc, Sweden, Holland, Denmark, India a China, heblaw y cenadon o America.

Y PARCH. N. CYNHAFAL JONES, D.D.

Pan ar fin myned i'r Wasg, derbyniasom y newydd fod Prifysgol Wooster, Ohio, wedi anrhydeddu y Parch. N. Cynhafal Jones â'r gradd o Ddoctor mewn Duwinyddiaeth. Y mae rhagoriaethau Dr. Cynhafal Jones, a'i lafur trwy y pulpud a'r wasg, yn adnabyddus trwy Gymru, fel na raid dyweyd dim am danynt ar hyn o bryd—heblaw fod ein lle wedi ei lenwi â *sheet* olaf y Rhifyn yn myned i'r Wasg. Y mae yn y *Montgomeryshire*

Echo a'r *County Herald* grynodeb o hanes ei yrfa a'i lafur llenyddol. Dymunwn i Dr. Jones weddill hir a chysurus i'w oes ddefnyddiol, i wisgo yr anrhydedd newydd hwn.

Y BARNWR JONES.

Da genym weled fod yr Anrhydeddus John T. Jones, Dodgeville, Wisconsin, wedi ei ethol am y pedwerydd tymmor, yn ddiwrthwynebiad, yn Farnwr Sirol Iowa, Talaeth Wisconsin. Llanwai swydd bwysig yn y fyddin yn adeg y rhyfel, ac wedi hyny yn un o swyddfeydd y Llywodraeth yn Washington. Deallwn ei fod wedi ennill iddo ei hun gymeriad rhagorol, a'i fod yn hynod o gymeradwy a phoblogaidd yn ngweinyddiad ei swydd uchel. Y mae y Barnwr Jones yn disgyn o du ei fam, o wehelyth Robert Roberts, Clynnog, John Roberts, Llangwm, a Michael Roberts, Pwllheli. Y mae yn gefnder i Mrs. Major Jones, priod yr *American Consul* yn Nghaerdydd. Bu ei rieni am flynyddoedd lawer yn aelodau o eglwys Moriah, Caernarfon; ac yr oedd y ddau yn hynod mewn duwioldeb. Pan oedd efe yn fachgenyn ieuanc, ymfudodd y teulu i America, tuag un neu ddwy flynedd ar bymtheg ar hugain yn ol. Dymunwn i'r Barnwr Jones oes hir o ddefnyddioldeb ac anrhydedd, pob cysur a llwyddiant, i rodio yn llwybrau ei rieni duwiol a'i hynafiaid enwog, ac i wasanaethu ei genedlaeth yn ol ewyllys Duw.

Bwrdd y Golygydd.

ATEBIAD I DDAU GWESTIWN O EIDDO "DIACON O'R DEHEUDIR."

Anwyl Frawd,—Gwelaf fod Golygydd y Drysorfa wedi ateb eich cwestiwn cyntaf, nad oes modd ei ateb yn well. Ac mi a synais pan welais fod yr un copi ar gael, heb ei werthu, o Gofiant a Phregethau Robert Roberts, Clynnog; oblegid ni welais lyfr erioed yn gwerthu mor brysur ag ef pan newydd ddyfod allan o'r Wasg. Mae yn rhaid fod rhywbeth y tu allan i'r Cofiant ei hunan wedi bod yn fagl iddo, fel ag i fod yr un copi wedi aros. Ac yn awr, rhof gynghor i bob Diacon, ac hefyd i bob pregethwr yn y De a'r Gogledd, sydd heb ei gael, i'w brynu. Mae yn resyn fod y fath seren ddysglaer wedi bod megys o'n golwg am gymaint o flynyddoedd: ie, gellir dywedyd mai y Parchedig Robert Roberts oedd y seren ddysgleiriaf yn awyrgylch y weinidogaeth yn Nghymru, yn nghorff y can' mlynedd cyntaf o oes y Cyfundeb.

Mewn perthynas i'r ail gwestiwn:—Testyn y gweinidog y cyfeiriasom ato oedd Ezeciel xxxiii. 11. Ar ol egluro ei destyn, sylwodd ar echryslonrwydd cyflwr dyn annuwiol; ac yna agorodd ddrws o obaith o'i flaen, a hyny ynglŷn âg iddo adael ei ffordd ddrygionus a throi at yr Arglwydd. Yr oedd y dorf yn cynnwys o 15 i 18 mil o wrandawyr; ac yr oedd y gweinidog wedi hoelio pob clust i wrando fel am eu bywyd. A'r geiriau yr oedd yn eu dyblu oedd—"*Troi a byw;*" yna llefarai wed'yn am drueni yr annuwiol, ac yn niwedd pob brawddeg gwaeddai â'i holl nerth—"*troi a byw.*" Yr oeddwn wrth wrando yn cyffelybu pob brawddeg i lanw y môr, y naill dòn fel yn ymlid ar ol y llall. Darfu i'r gŵr boneddig o Sais y cyfeiriwyd ato, wrth weled y dorf fawr yn gwrando fel am eu bywyd ar un llaw, a'r graig yn adsain ar y llaw arall, ofyn i ddyn oedd yn ei ymyl pa beth oedd y graig yn ei lefaru? A dywedodd y dyn mai "troi a byw" oedd y graig yn ei ddywedyd yn barhaus. Cadwodd y Sais y geiriau yn barhaus yn ei feddwl, gan eu hadrodd yn ddystaw, ynddo ei hunan; ac yn y diwedd, mynodd gael allan holl redfa y weinidogaeth. Safodd hyny yn ei fyfyrdodau, aeth yn ddyfnach i'w ddeall, a dywedodd ei gydwybod wrtho mai iddo ef, oedd yn Sais, yr oedd y bregeth Gymraeg trwy y graig yn llefaru. Ac felly, trwy y moddion yna yn ol pob golwg, bu yn foddion o iachawdwriaeth i'r Sais.—Yr eiddoch yn gywir,

Ar——dd——on.

ATEBIAD ARALL I DIACON O'R DEHEUDIR.

At Olygydd y Drysorfa.

Wyf fel un oedd yn gwrandaw pregeth Dr. Thomas, Liverpool, 12 mlynedd yn ol (efallai 15) ar y geiriau, Ezeciel xxxiii. 11, "Troi a Byw" yn gallu cyd-dystiolaethu âg "Archddiacon Sir Gaernarfon," fy mod yn eu cofio gyda mawr foddhad, a fy mod yn sylwi yn neillduol ar y creigiau yn adsain *(echo)* "Troi a Byw," a'r Dr. (fel y gall ef), yn llefaru ddegau os nad ugeiniau o weithiau y tri gair bendigedig hyn "Troi a Byw," nes ydoedd y dylanwad ysbrydol fel trydan yn treiddio drwy'r dyrfa, nes wyf heddyw gyda diolch yn edrych yn ol i'r bregeth ogoneddus hono fel cyfnod yn fy mywyd—er fy mod efallai wedi byw er hyny yn ddigon annheilwng, ond nid ydyw y geiriau hyn "Troi a Byw," wedi myned o'm cof. Ac fel un sydd yn mron meddwl fod pregethu Cymanfaoedd yn yr awyr agored yn myned yn ddieffaith, nis gallaf lefaru yn eu herbyn o herwydd pregeth "y tri gair" hyn.—Yr eiddoch yn gywir,

W. Jones

Cofnodau Cymanfaol.

Y GYMANFA GYFFREDINOL, LLANGOLLEN.

Mai 14, 15, a'r 16eg, 1889.

Llywydd:—Y Parchedig G. Parry, D.D., Aberystwyth.

Ysgrifenyddion:—Y Parchn. John Davies, Pandy, ac Evan Jones, Caernarfon.

(Parhad o tu dal 275.)

Cytunwyd,—Fod yr Adroddiad yn cael ei dderbyn a'i gymeradwyo, gan lawenhau am y llwyddiant sydd wedi bod ar ein meusydd Cenadol yn ystod y flwyddyn.

(1.) Penderfynwyd,—Fod y Gymanfa yn galw sylw difrifol y Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau at Gyllid y Genadaeth, ac yn gobeithio y gwneir ymdrech i chwyddo y casgliadau y flwyddyn hon.

(2.) Cyflwynwyd y Parch. Dr. Griffiths, o Fryniau Khasia, i'r Gymanfa gan yr Ysgrifenydd, y Parch. Josiah Thomas, M.A. Wedi cael anerchiad dyddorol gan Dr. Griffiths, penderfynwyd yn unfrydol,—Ein bod yn rhoddi y croesawiad mwyaf gwresog i'n hanwyl frawd, y Parch. Dr. Griffiths, ar ei ddychweliad i'n mysg ar ol deng mlynedd o lafur cymeradwy a llwyddiannus yn India. Teimlwn yn ddiolchgar am ei fod ef a'i briod wedi cael gras i ddal yn ffyddlawn a gweithgar gyda'r achos yr aethant allan er ei fwyn, ac am eu bod hwy a'u plant wedi bod dan amddiffyn yr Arglwydd yn ystod eu mordaith, ac wedi cyrhaedd yn ol yn ddiogel. Dymunwn iddynt lawer o hapusrwydd ac adnewyddiad ysbryd a nerth trwy eu hymweliad â gwlad eu genedigaeth.

(3.) Cyflwynwyd Miss Elizabeth Williams, yr hon sydd yn ymgeisydd am fyned allan i'r maes Cenadol, i'r Cyfarfod, gan yr Ysgrifenydd, a phasiwyd yn unfrydol,—Ein bod fel Cymanfa yn derbyn Miss Williams i fod yn Genades dros Grist yn Sylhet.

(4.) Gwnaed hysbysiad am ymadawiad y Parch. John Jones i fyned yn ei ol i'r maes Cenadol. Wedi cael ychydig eiriau gan Mr. Jones ei hun, pasiwyd,—Ein bod yn diolch yn wresog i Mr. Jones am ei ymweliad â ni fel gwlad, yn dymuno nawdd y Nefoedd drosto ar hyd ei daith yn ol, ac yn dymuno arno ein cofio fel Cymanfa yn y modd mwyaf serchog at yr holl frawdoliaeth ar Fryniau Khasia.

(5.) Penderfynwyd,—Gan fod tymmor cytundeb y Gymanfa â Mr. E. Jones fel Cenadwr cynnorthwyol yn Llydaw yn terfynu yn mis Mehefin y flwyddyn hon, ein bod yn teimlo nas gallwn wneyd dim yn well na pharhau gwasanaeth Mr. Jones am y flwyddyn ddyfodol.

(6.) Pasiwyd y penderfyniadau canlynol:—i. Ein bod yn llawen wrth dderbyn yr Adroddiadau calonogol am sefyllfa y gwaith ar ein meusydd Cenadol, ac yn enwedig ar Fryniau Khasia a Jaintia, am yr ychwanegiadau at nifer y dychweledigion, ac am yr arwyddion eu bod yn cynnyddu mewn gwybodaeth a gweithgarwch. —ii. Ein bod, tra yn teimlo yn ddiolchgar i'r Arglwydd am y llwyddiant sydd wedi cymeryd lle ar ein meusydd Cenadol, ac am yr haelioni sydd wedi ei ddangos gan lawer o'n heglwysi, yn dymuno adgofio holl garedigion yr Efengyl fod llawer mwy eto yn aros i'w gyflawni; nad yw y dychweledigion sydd ar y Bryniau ond rhan fechan o'r boblogaeth; fod Sylhet gyda'i dwy filiwn o drigolion heb ond un Cenadwr; fod y Llydawiaid eto yn gaethion i ofergoeledd y Babaeth; ac nas gallwn gyfarfod âg anghenion y bobl yr ydym wedi ymgymeryd â'u hefengyleiddio heb ymdrechion parhaus ac adnewyddol.—iii. Dymunwn ddadgan ein llawenydd wrth weled yr ymdrech a wneir o blaid y Genadaeth gan y chwiorydd a'r plant mewn amryw o'r eglwysi; ac erfyniwn ar fod ein swyddogion eglwysig yn rhoddi cefnogaeth i sefydliad cangen-gymdeithas y merched mewn cysylltiad â phob eglwys, ac ar fod y plant yn euwedig yn cael eu cyfarwyddo i gymeryd rhan yn y gwaith.

(7.) Pasiwyd, fod yr Adroddiad canlynol yn cael ei gymeradwyo a'i fabwysiadu:—

Jiwbili y Genadaeth.—Yn gymaint ag y bydd ein Cenadaeth Dramor, erbyn y flwyddyn 1890, wedi cyrhaedd ei degfed flwyddyn a deugain, ein bod yn barnu mai priodol fyddai cymeryd mantais ar yr achlysur hwn i alw sylw neilluol at yr achos Cenadol, ac yn arbenig at ein Cenadaeth ni ein hunain, ac arfer moddion i ddeffroi ein heglwysi i zel adnewyddol gyda'r gwaith. Yn ngwyneb sefyllfa bresennol ein Cenadaeth, pan y mae y treuliadau wedi bod, ac eisoes i fesur, yn fwy na'r derbyniadau, ein bod yn barnu mai doeth fyddai gwneyd ymdrech arbenig i gasglu *Special Fund* i gyfarfod â'r diffyg presennol, yn gystal ag i alluogi y Cyfarwyddwyr i ddwyn ymlaen y gwaith yn effeithiol.

I. Heblaw gwaith cyffredin y Genadaeth yn ei amrywiol ranau ar ein holl feusydd, golygwn fod yr amcanion canlynol yn rhai y bydd ai yn briodol cadw golwg arbenig arnynt ar yr achlysur hwn:—1. Rhoddi y Sefydliad Duwinyddol yn Khasia ar y fath seiliau ag a sicrhão i'r pregethwyr brodorol bob manteision addysg, i'w darparu i fod yn weinidogion cymhwys i'w cydwladwyr. 2. Yn gymaint a'n bod wedi ail ddechreu y gwaith Cenadol yn Sylhet, lle y mae poblogaeth o yn agos i ddwy filiwn heb fod yn eu mysg ond un Cenadwr, ystyriwn fod yn bwysig, tuag at ddwyn ymlaen y gwaith i fesur yn briodol, fod genym nifer lled dda o Genadon yno. Bydd cynnaliaeth y cyfryw, a darparu adeiladau Cenadol cyfleus, yn rhwym o ychwanegu at y treuliadau. 3 Tuag at ddwyn ymlaen y Genadaeth Feddygol yn Mawphlang, yn gystal â'r un ydym newydd sefydlu yn Jaintia, bydd yn anghenrheidiol i gyfeillion y Genadaeth barhau ac ymhelaethu yn eu cyfraniadau. 4. Golygwn mai priodol rhoddi cyfleusdra ar yr adeg hon i gyfeillion gyfranu tuag at Gyllid

Cenadon Methedig, a Gweddwon ac Amddifaid Cenadon. Fel y mae nifer ein Cenadon yn amlhau, y tebygolrwydd ydyw y daw gofynion lled drymion ar y cyllid hwn yn y blynyddoedd sydd yn ymyl. 6. Gyda'r cyfan, cadw mewn golwg y pwysigrwydd o godi cyllid blynyddol y Genadaeth, trwy sicrhau fod casgliad yn cael ei wneyd bob blwyddyn ymhob eglwys, ychwanegu nifer y tanysgrifwyr, a cheisio cael y rhai sydd eisoes yn cyfranu i fod yn fwy helaeth yn eu cyfraniadau.

II. Tuag at gyrhaedd yr amcanion hyn, cynnygir—1. Fod Cyfeisteddfod, cynnwysedig o aelodau y Cyfeisteddfod Gweithiol, ac un aelod a benodir gan bob Cyfarfod Misol a Henaduriaeth, yn cael eu penodi yn Bwyllgor (i'w alw Pwyllgor y Jiwbili), i ofalu am ddwyn y symudiad ymlaen. 2. Fod y Pwyllgor hwn yn gweithredu mewn cysylltiad â'r Cyfeisteddfodau Sirol yn y Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau. 3. Fod y Pwyllgor, mewn cysylltiad â'r Cyfeisteddfodau Sirol, yn trefnu ar fod i gyfarfod Cenadol gael ei gynnal ymhob cynnulleidfa trwy y Cyfundeb yn ystod y flwyddyn hon, i alw sylw at hawliau y Genadaeth, ac i gymhell i haelioni ychwanegol o'i phlaid. 4. Fod i'r Pwyllgor drefnu ar fod i'r Parch. John Jones, tra yn y wlad hon, y Parch. Dr. Griffiths, ac Ysgrifenydd Cyffredinol y Genadaeth, neu un o aelodau y Cyfeisteddfod Gweithiol, neu eraill o Gyfarwyddwyr y Genadaeth, fod yn *Deputation* i ymweled â'r Cyfarfodydd Misol a'r cynnulleidfaoedd yn yr achos hwn. 5. Fod i Drysorydd ac Ysgrifenydd, a nifer o frodyr neu chwiorydd, gael eu penodi ymhob eglwys i ofalu am yr achos, penodi casglyddion, &c., y Pwyllgor i anfon llyfrau casglu i bob eglwys. 6. Fod pob arian a gesglir yn benodol at y cyllid hwn i gael eu talu i'r ariandŷ dan yr enw *Jubilee Fund*, a'r cyfrif i'w gadw ar wahân, ac i'w gyhoeddi gydag Adroddiad 1890, a bod yr arian, ar gwblhâd y cyllid, i gael eu trosglwyddo i gyllid cyffredinol y Genadaeth.

III. Fod i'r Ysgrifenydd Cyffredinol barotoi hanes y Genadaeth o'i dechreuad hyd flwyddyn y Jiwbili, a bod awdurdod i'r Cyfeisteddfod Gweithiol ddarparu *maps*, darluniau o rai o'r gorsafoedd, &c., i egluro y gyfrol.

(8.) Pasiwyd,—Fod y brodyr canlynol, ynghyd a'r rhai ydynt wrth eu swydd, yn ffurfio y Pwyllgor Gweithiol am y flwyddyn ddyfodol:—Y Parchedigion O. Thomas, D.D., H. Jones, J Thomas, B.A., G. Ellis, M.A., D. Williams, W. Jones, E. J. Evans, O. J. Owen, M.A., O. Jones, B.A.; Mri. T. Jones, Garston; J. Harrison Jones; Edward Owen, Breeze Hill; J. Rice Lewis, Hoylake; John Lloyd, Ullet Road; W. Venmore; J. R. Jones, Belvidere Road; W. Jones, Bootle; J. Herbert Roberts, U.H., Abergele; J. Griffith; E. Pugh; J. Williams, Moss Bank; T. Edwards, Linnet Lane; a W. Patton.

(9.) Cytunwyd fod diolchgarwch y Gymanfa yn cael ei gyflwyno i Mr. David Hughes, U.H., Trysorydd Cyffredinol y Genadaeth; Mr. J. Herbert Lewis, M.A., Trysorydd Cyllid Gweddwon ac Amddifaid Cenadon; Parch. Josiah Thomas, M.A., Ysgrifenydd Cyffredinol y Genadaeth; Mri. J. Rice Lewis, a J. R. Jones, Archwilwyr y Cyfrifon; Dr. Gee, Cyfarwyddwr Meddygol, a holl Aelodau y Cyfeisteddfod, am eu gwasanaeth i'r Genadaeth yn ystod y flwyddyn ddiweddaf.

Terfynwyd trwy weddi gan y Parch. J. Pugh, B.A.

Trydydd Eisteddiad y Gymanfa.

Prydnawn Mercher, Mai 15fed, am 2 o'r gloch.

Dechreuwyd trwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. Evan Morris, Aberaeron.

XIV. Rhoddwyd croesawiad cynhes i'r Parchedigion Alexander Macleod, D.D., Birkenhead, Llywydd Cymanfa Henaduriaethol Lloegr am y flwyddyn hon; James Brown, St. Helens, a Mr. John Swanson, Liverpool, fel aelodau gohebawl *(corresponding members)* oddiwrth yr Eglwys Henaduriaethol. Cafwyd anerchiad brawdol a chynhes gan Dr. Macleod, a rhoddwyd deheulaw cymdeithas i'r brodyr dyeithr ar ran y Gymanfa gan y Llywydd. Cafwyd gair gan Dr. T. C. Edwards.

XV. Darllenwyd llythyr oddiwrth Gynnullydd Pwyllgor Seneddol a Meddiannau y Cyfundeb, Mr. John Jones, U.H., Llanfyllin, yn galw sylw y Gymanfa at Adroddiad y Pwyllgor y mae ef yn Gynnullydd o hono. Penderfynwyd,—Fod Adroddiad y Pwyllgor Seneddol a Meddiannau y Cyfundeb yn cael ei dderbyn a'i gymeradwyo.

XVI. Ar gynnygiad Mr. Peter Roberts, Llanelwy, ac eiliad Mr. Robert Rowland, U.H., Pwllheli, penderfynwyd,—Ein bod yn cyflwyno ein diolchgarwch gwresog i'r Pwyllgor am yr hyn y maent wedi ei wneyd eisoes, ynghyd a dymuniad am iddynt barhau yn eu swydd am y flwyddyn ddyfodol. Ein bod hefyd yn dymuno ar i'r Pwyllgor gymeryd y mesurau a farnont hwy yn oreu i bwyso ar Aelodau Seneddol i gael deddf i orfodi tirfeddiannwyr i roddi tir i adeiladu Capelau pan fyddo galw am hyny, ac hefyd i werthu y tir sydd yn *leasehold* fel ag i'w wneyd yn *freehold*.

XVII. Pasiwyd yn unfrydol,—Fod y Gymanfa hon yn dymuno cydnabod Aelodau Seneddol dros Gymru, am y sylw y maent eisoes wedi ei dalu i Achosion Cymreig, ac yn gofyn yn barchus iddynt i wneyd yr hyn sydd yn eu gallu i ddwyn ger bron, a hyrwyddo trwy y Senedd, Weithred fyddo yn gorfodi tirfeddiannwyr i werthu tir i adeiladu addoldai arno.

XVIII. Pasiwyd, — Fod Adroddiad y Pwyllgor Arianol yn cael ei gymeradwyo:—

Yn bresennol, Mri. Robert Rowland, U.H., Pwllheli (Cadeirydd), John Griffith, Egremont; Ysgrifenydd), R. J. Davies, U.H., Cwrtmawr (Trysorydd), W. Griffiths, Rock; Robert Jones, Blaenau Ffestiniog; a J. Herbert Lewis, U.H.—1. Darllenwyd a chymeradwywyd cyfrif y Trysorydd am y flwyddyn ddiweddaf, wedi ei archwilio gan Mri. John Griffith, Egremont, a William Griffiths, Rock. —2. Awdurdodwyd y Trysorydd i dalu y swm o £35 er cynnorthwyo cyhoeddi y *Monthly Tidings* am y flwyddyn hon.—3. Penderfynwyd,—Ein bod yn dymuno galw sylw y Gymanfa at y priodoldeb o fod pob cais arianol yn cael ei gyflwyno trwy y Cyfeisteddfod, ac na byddo ymrwymiadau arianol yn cael eu gwneyd cyn i'r cyfryw fod dan ystyriaeth y Cyfeisteddfod.—4. Fod diolchgarwch y Gymanfa yn cael ei gyflwyno i R. J. Davies, Ysw, U.H., y Trysorydd, a'n bod yn ei ail benodi yn Drysorydd am y flwyddyn hon.—Robert Rowland, *Cadeirydd*; J. Griffith, *Ysgrifenydd*.

XIX. Cyflwynwyd Adroddiad Pwyllgor y Llyfrau gan y Parch. Thomas Roberts, Bethesda, yr Ysgrifenydd; a phenderfynwyd,—Fod yr Adroddiad, yr hwn a welir isod, yn cael ei fabwysiadu:—

Cyfarfu y Pwyllgor yn y *Schoolroom* perthynol i Gapel Rehoboth, Llangollen, am dri o'r gloch prydnawn dydd Mawrth, y 14eg o Fai, 1889.—Yr oedd yn bresennol y Parchn. T. Levi; G. Parry, D.D.; N. C. Jones, Llanidloes; J. O. Jones. Llanberis; J. Hughes, D.D., Caernarfon; Principal Edwards, D.D.; E. Davies, Trefriw; Joseph Evans, Abertawe; J. M. Jones, Caerdydd; Daniel Lewis, Ferryside; W. James, M.A., Nantymoel; Evan Jones, Caernarfon; Mri. P. Roberts, Llanelwy; R. Rowland, U.H., F.S.A., Pwllheli; J. Jones, Merthyr; R. J. Davies, U.H., Cwrtmawr; David Jones, Manchester; Richard Jones, Dolgellau, a'r Ysgrifenydd.—Dewiswyd Mr. Roberts, Llanelwy, i lywyddu.—1. Darllenwyd a chadarnhawyd y cofnodau o weithrediadau y Pwyllgor a gynnaliwyd yn Hope Chapel, Merthyr, ar y 4ydd o fis Mehefin, 1888.—2. Darllenwyd adroddiad archwilwyr cyfrifon y ddwy DRYSORFA, a chymeradwywyd ef.—Wrth weled y swm mawr o logau yr ydys yn eu talu bob blwyddyn, y mae y Pwyllgor yn deisyf sylw y Siroedd at y rheol sydd yn gofyn ar fod i'r taliadau am y ddwy DRYSORFA gael eu gwneyd bob hanner blwyddyn; a dymuniad y Pwyllgor ydyw ar fod i bob sir ymdrechu cadw, gyda phrydlondeb, at y rheol hon.—3. Penderfynwyd penodi Is-bwyllgor i'r dyben o wneyd ymchwiliad i holl ranau y Cytundeb sydd rhwng y Cyfundeb ac Argraffwyr y ddwy DRYSORFA; ac hefyd ymddiriedwyd i'r Is-bwyllgor hwn wneyd ymofyniad a dwyn adroddiad i Bwyllgor y Llyfrau, pa siroedd sydd mewn dyled am yr hyn a dderbyniasant o'r DRYSORFA. Pasiwyd fod y brodyr canlynol i fod yn aelodau y Pwyllgor:—y Parchn. E. Jones, Caernarfon; J. O. Jones, Llanberis; Mr. R. Rowland, U.H., F.S.A. Pwllheli; a'r Ysgrifenydd. Yr Ysgrifenydd i fod yn gynnullydd.—4 Rhoddes Mr. Rowland, Pwllheli, adroddiad o'r hyn a wnaed gan yr Is-bwyllgor a benodasid i ystyried y taliadau dyledus i ysgrifenwyr i'r DRYSORFA. Derbyniwyd yr adroddiad; a phenderfynwyd fod y personau ag yr oedd pwyllgor yr Amwythig wedi addaw symiau penodol iddynt am ysgrifau yn cael eu talu yn ol yr addewid hono. Penderfynwyd fod y brodyr canlynol i weithredu fel pwyllgor am y flwyddyn ddyfodol:—Y Parchn. G. Parry, D.D.; T. Levi; Llewelyn Edwards, M.A., Aberystwyth; Mri. R. J Davies, U.H., Cwrtmawr; a D. Jenkyn Davies, U.H., Aberystwyth.—5. Darllenwyd yr Adroddiad canlynol o eiddo yr Is-bwyllgor yr ymddiriedasid iddo ofalu am y Llyfr y bwriedir ei ddwyn allan, yn cynnwys argraffiad newydd o'r *Constitutional Deed*, ynghyd a *documents* eraill sydd wedi eu mynych enwi yn adroddiadau blaenorol Pwyllgor y Llyfrau:—

Cyfarfu yr Is-bwyllgor yn Machynlleth, dydd Iau yr 21ain o Fedi, 1888. Yr oedd yn bresennol,—Mri. Thomas Lewis, A.S., Bangor; Edward Griffith, U.H., Dolgellau; John Jones, U.H., Llanfyllin; a'r Ysgrifenydd. Dewiswyd Mr. Lewis yn Llywydd y Pwyllgor; ac yn ystod yr eisteddiad, fe benderfynwyd ar y pethau canlynol;—1. Gofyn i Mr. John Bryn Roberts, A.S., ymgymeryd â golygu y Llyfr y mae y Pwyllgor hwn wedi ei benodi er ei ddwyn allan.—2. Cael tynu allan ddau *fair copy* o bob un o'r *model deeds* fel y maent wedi eu cyfnewid gan Mr. Bunting; ac anfon un *set* i Ysgrifenydd Cymdeithasfa y Deheudir, ac un *set* i Ysgrifenydd Cymdeithasfa y Gogledd, er gofyn, trwy yr Ysgrifenyddion, am gymeradwyaeth y ddwy Gymdeithasfa i'r cyfnewidiadau a wneir yn y rhai hyn, tuag at iddynt gael eu hargraffu yn y Llyfr y bwriedir ei ddwyn allan.—3. Bod i'r Llyfr gynnwys y pethau canlynol:—(1) Y *Constitutional Deed*, gydag enwau y personau ddarfu ei harwyddo; a'r *Declaration of Trust Deed*, heb enwau yr arwyddwyr. (2) *Model Deeds*, wedi eu diwygio gan Mr. Bunting. (3) Deddf Claddfeydd, ynghyd a chyfarwyddiadau i weithredu dani. (4) Syr *Morton Peto's Act*, gyda golwg ar ddewis ymddiriedolwyr newyddion ar gapelau, ynghyd a phob cyfarwyddiadau eraill gyda golwg ar appwyntiad ymddiriedolwyr. (5) Deddfau cofrestru capelau, a'u trwyddedu i briodi. (6) Cymaint o'r *Mortmain Acts* ag sydd yn ofynol i gyfarfod âg amgylchiadau ein Cyfundeb ni. (7) Cyfarwyddiadau i wneuthur Cymunroddion at wahanol achosion y Cyfundeb; ynghyd, hefyd, a nodiadau ar unrhyw ran o Gyfraith y Tir sydd yn dal perthynas â'n hamgylchiadau ni fel Ymneilduwyr Protestanaidd.—4. Bod i'r Llywydd a'r Ysgrifenydd ymweled â Mr. J. Bryn Roberts, A.S., i ymddyddan ac ymgynghori âg ef gyda golwg ar ddygiad y llyfr allan.—5. O berthynas i bris a maint y llyfr, y mae yr Is-bwyllgor o'r un farn ag oeddynt o'r blaen, pan wedi derbyn gair gyda golwg ar hyn oddiwrth y diweddar Mr. Charles Hughes, Wrexham.—Cymeradwywyd yr adroddiad; a dymunwyd ar i'r Is-bwyllgor hwn barhau yn eu swydd nes dwyn y Llyfr hwn allan; a phenderfynwyd hefyd fod Mr. Jones, U.H., Llanfyllin, yn cael ei benodi i fod yn aelod o'r Pwyllgor.

6. Darllenwyd yr adroddiad canlynol a anfonasid i'r Pwyllgor gan y Parch. Joseph Evans, Abertawe, fel cynnullydd yr Is-bwyllgor a benodasid i ystyried holl fater y Llyfr Hymnau Saesoneg:—

English Hymn Book Committee, held at Shrewsbury, April 23, 1889.—Present,—Revs. Edward Jerman, Wrexham (in the chair); Professor Ellis Edwards, M.A., Bala; Edward Parry, M.A., Newtown; David Evans, B.A., Whitchurch; and Joseph Evans, Swansea, Convener.—The following resolutions were unanimously agreed upon;—1. In view of the fact that, previous to the publication of the present Connexional Hymn Book, much confusion and inconvenience was experienced through the lack of such a book—different Hymn Books being used in different Churches—and that the Churches called for such a book, Resolved—that the Churches be recommended to adhere loyally to the present Hymn Book.—2. Inasmuch as a period of twenty years has elapsed since the present collection of Hymns was prepared, and that since that time many hymns that were in general use have become practically obsolete, and many new good hymns have appeared and become popular, it is resolved to recommend that a Revision of the present collection be made. The Committee considered that a Revision would be better than an Appendix, as the latter would increase the size of the book and make it more costly.—3. The Committee desired to urge that great care should be taken that the printing, binding, and general appearance of the book should be satisfactory to the Churches.—4. That a Committee of six be appointed to carry out the proposed revision with all despatch possible.—5. That an effort be made to get tenders for printing the Revised Hymn Book by the General Assembly of 1890.—6. That the Convener of the present Committee be permitted to attend the Book Committee at Llangollen to explain any matters that may arise from this Report.—JOSEPH EVANS, *Convener*.

Wedi cael eglurhad gan y Parch. Joseph Evans, cymeradwywyd yr adroddiad uchod,

oddigerth y pummed penderfyniad ynddo; ac yn unol â'r pedwerydd penderfyniad penodwyd y brodyr canlynol yn bwyllgor:—Y Parchn *Principal* Edwards, D.D.; *Professor* E. Williams, M.A., Trefecca; Joseph Evans, Abertawe; T. J. Wheldon, B.A., Ffestiniog; *Professor* Ellis Edwards, M.A., Bala; ac R. Jones, Llanymynech. Y Parch. Joseph Evans i fod yn gynnullydd.

7. Ar ol clywed darllen adroddiad Is-bwyllgor y Llyfrfa, penderfynwyd fod ystyriaeth bellach a lled lwyr yn cael ei roddi i'r mater yma; a thuag at hyny barnwyd mai da fyddai penodi yn bwyllgor nifer o frodyr yn byw yn lled agos i'w gilydd, y rhai a allent yn haws gyfarfod yn fwy mynych. Enwyd y brodyr canlynol, gydag awdurdod i chwanegu at eu nifer, i fod yn bwyllgor, ac i gyfarfod yn Nghaernarfon:—Y Parchn. J. Hughes, D.D.; E. Jones, Caernarfon: R. H Morgan, M.A.; J O. Jones, Llanberis; Mr. Rowland, Pwllheli; Dr. Roberts, U.H., Penygroes; a'r Ysgrifenydd. Yr Ysgrifenydd i fod yn gynnullydd.—8. Galwyd sylw at y parodrwydd sydd wedi ei ddangos gan y Mri. Hughes, Wrexham, i gydsynio â'r cais a wnaed atynt gan Gymdeithasfa y Gogledd yn gofyn iddynt ddwyn allan ail argraffiad o'r rhan gyntaf o Pennod xvi. o *Gofiant John Jones, Talysarn*, yn cynnwys "Hanes yr Hen Bregethwyr." Bwriad y Mri. Hughes yw dwyn y gyfran hon o'r Cofiant allan yn llyfr am swllt mewn amlen, ac am ddeunaw ceiniog mewn llian, a hyny ar eu cyfrifoldeb eu hunain. Llawenhâi y Pwyllgor wrth ddeall hyn; a hyderent y byddai y Gymanfa hefyd yn llawenhau, ac yn dadgan ei pharodrwydd hithau i wneyd pobpeth o fewn ei gallu er cefnogi y Mri Hughes yn eu hanturiaeth hon.—9. Llawenhâi y Pwyllgor hefyd yn fawr wrth ddeall fod y rhan gyntaf o Gofiant y Parch. Henry Rees yn y wasg; a'u hyder yw, y caiff y llyfr hwn gylchrediad helaeth trwy bob rhan o Gymru. —10. Nis gall y Pwyllgor beidio dadgan eu gofid dwys wrth weled nad oes cofiant eto wedi ymddangos i amryw wŷr o allu a defnyddioldeb mawr, a fuont feirw bellach er ys talm; a dymuna y Pwyllgor hefyd i'r Gymanfa ystyried ai ni ellir gwneyd rhywbeth er cyflawni y diffyg hwn.—11. Penodwyd y Parch. T. Levi yn olygydd *Trysorfa y Plant* am y flwyddyn ddyfodol, gyda'r un gydnabyddiaeth ag o'r blaen.—12. Ar air Mr. Levi, yn hysbysu ei fod wedi penderfynu rhoddi i fyny olygiaeth y *Dyddiadur* Cymraeg, penderfynwyd mai gwell o hyn allan fyddai bod golygiaeth y ddau *Ddyddiadur* yn nwylaw yr un person; a bod y gwaith am y flwyddyn ddyfodol yn cael ei ymddiried i'r Parch. E. Jerman. Swm ei gydnabyddiaeth fydd deg punt.—13. O berthynas i'r *Monthly Tidings*, penderfynwyd rhoddi i'r cyhoeddiad eleni yr un cymhorth ag a roddasid y llynedd; ond dymuna y Pwyllgor chwanegu mai eu barn yw bod y cymhorth hwn a roddir yn cyfreithloni iddynt awgrymu fod gwell amlen yn cael ei rhoddi i'r cyhoeddiad hwn; ac hefyd bod *statement of accounts* ynglŷn âg ef yn cael ei dangos.—14. Ethoiwyd yr Ysgrifenydd am flwyddyn yn chwanegol.—15. Penodwyd y Parch. J. O. Jones, Llanberis, a Mr. R. Rowland, U H., F.S.A., Pwllheli, yn archwilwyr cyfrifon y ddwy *Drysorfa* am y flwyddyn ddyfodol.—16. Hysbyswyd fod y rhai canlynol yn myned allan o'u swyddi fel aelodau o'r Pwyllgor: y Parchn. J. Hughes, D.D., Principal Edwards, D.D., Mri. Thomas Lewis, A.S., Bangor, a J. Jones, Merthyr.—THOMAS ROBERTS, *Ysgrifenydd.*

XX. Pasiwyd yn unfrydol,—Fod Llywydd ac Ysgrifenyddion y Gymanfa, ynghyd a'r Parch. Thomas Roberts, Bethesda, i gymeryd i ystyriaeth y personau mwyaf cymhwys i ymgymeryd âg ysgrifenu Cofiant y diweddar Barchedigion E. Morgan, John Phillips, Dr. Phillips, Dr. D. Charles, Dr. Edwards, Roger Edwards, Professor Howells, Joseph Thomas, &c., &c., ynghyd ag ymgynghori â theuluoedd y brodyr uchod.

XXI. Ail-etholwyd y Parchedigion John Hughes, D.D., T. C. Edwards, D.D.; Mri. John Jones, Merthyr; a Thomas Lewis, A.S., yn aelodau o Bwyllgor y Llyfrau am y tair blynedd dyfodol.

XXII. Pasiwyd,—Fod Adroddiad y Pwyllgor i ymohebu â'r Henaduriaethwyr yn cael ei gymeradwyo:—

Report of Committee on Intercourse with other Presbyterian Churches.—1. Your Committee have received a communication from the Presbyterian Church of England, through the Rev. R. H. Lundie, M.A., convener of their Committee on Intercourse with other Churches, inviting our Church to send representatives to the Federal Council of Presbyterian Churches to be held in Edinburgh in October next. The Federal Council has existed since 1876, and originally embraced the United Presbyterian Church of Scotland and the Presbyterian Church of England. Besides these Churches, the Free Church of Scotland has now signified its adhesion to it, and it may ultimately include the Established Presbyterian Church of Scotland, and the Irish Presbyterian Church. The basis of representation is 20 members from each Church. The Council meets triennially, and its objects are to give expression to the essential unity of the Presbyterian Churches of the kingdom, to secure the advantage of friendly conference on matters of common interest, and to discuss, without exercising legislative or judicial functions, any questions which may be specially referred to it by the Supreme Courts of the federate churches. As to the desirability, on other than financial grounds, of giving the cordial approval of the General Assembly to this proposal, your Committee are unanimous; but it is right to say that there is a difference of opinion arising out of the question of expense. A majority, however, recommend that the Assembly unite with the Federal Council, and appoint representatives to its next meeting in October.—2. Understanding that there is a probability of our brother, the Rev. T. J. Wheldon, B.A., visiting the Waldensian Church on the occasion of their bi-centenary celebration, your Committee recommend that he be authorised to represent the General Assembly, to convey to the Waldensian brethren our fraternal greetings, and the expression of our earnest prayer for the continued blessing of God on all their efforts in behalf of the truth.—3. With reference to our contribution towards the Pan-Presbyterian Council, your Committee regret to report that the sums due for the years 1887 and 1888, amounting to £50, have not been paid, and although circulars have been sent out to a considerable number of friends asking for subscriptions, the response has not been very encouraging, only £15 13s. 6d. having been received from the following persons:—Rev. T. J. Wheldon, B.A., 10s. 6d.; Mr. J. E. Powell, Wrexham, 10s.; Mr. J. Herbert Lewis, 10s. 6d.; Mr. Edward Davies, Llandinam, £1 1s.; Mr. David Davies, Llandinam, £5; Mr. John Edwards, Manchester, £1; Mr. William Evans, Bootle, 10s. 6d.; Mr. Richard Davies, Treborth, £2; Mr. John

Jones, Merthyr, £1; Mr. John Williams, Merthyr, 5s.; Mr. Rhys Davies, Merthyr, 5s.; Mr. J. Harrison Jones, Liverpool, 10s.; Miss Walker, Chester, £1; Mr. E. J. Bailie, Chester, 10s.; Mr. J. R. Jones, Liverpool, £1 1s.—We recommend that the Treasurer be authorised to pay the balance of amount due for the two years mentioned, and that in future the annual subscription of £25 be a charge on the fund of the General Assembly. We recommend that the report be received, and the Committee re-appointed.—J. THOMAS, *Convener*.

XXIII. Cyflwynodd y Parch. Griffith Ellis, M.A., Cynnullydd y Pwyllgor Dirwestol, yr Adroddiad a ganlyn, a phasiwyd ef yn unfrydol.

Derbyniwyd yr Adroddiad canlynol oddiwrth y Parch. David Jones, Garregddu, Ysgrifenydd Cymdeithasfa y Gogledd:—

Crynodeb o Adroddiad Dirwestol Cymdeithasfa y Gogledd, am 1888.—Oddiwrth yr Adroddiadau a ddaeth i law o'r Siroedd, da genyf hysbysu fod arwyddion bywyd ar yr Achos Dirwestol o fewn cylch Cymdeithasfa y Gogledd, ac ar yr un pryd y mae arwyddion fod diota yn ymosod ar rai parthau o'r wlad mewn dulliau ag yr oeddid yn dysgwyl na welsid mo honynt mwy. Y mae yn debyg fod gwedd mwy effro ar yr achos yn y trefi nag yn yr ardaloedd amaethyddol. Y mae yr arferiad o ranu diod mewn arwerthiadau eto yn codi ei ben, yr hwn a dybid oedd wedi cilio yn llwyr o'r tir. Cwynir hefyd am lygredigaethau sydd ynglŷn âg arddangosiadau amaethyddol, y rhai a achlysurir mewn rhan gan gyfeddach a meddwdod. Galwyd sylw y gwahanol Gyfarfodydd Misol at y ddau beth hyn. Eto credaf fod y Cyfarfodydd Misol yn effro iawn mewn rhai pethau, pan y daw galw. Gweithiwyd yn egniol a chyffredinol i wrthdystio yn erbyn y *Compensation Clauses*, ac mewn rhai manau gwneir egni i leihau nifer y tafarnau. Y mae y ddyledswydd o fod ein swyddogion eglwysig yn Ddirwestwyr yn cael ei gwasgu yn lled gyffredinol ar adeg eu derbyniad yn aelodau o'r Cyfarfod Misol, a diammheu fod eu nifer yn myned ar gynnydd, a'r annog yn y cyfeiriad hwn yn myned yn fwy cyffredinol.—DAVID JONES, *Ysgrifenydd y Cyfeisteddfod*.

—Ni roddwyd sylw arbenig i'r Achos Dirwestol yn Nghymdeithasfa y Dê yn ystod y flwyddyn ddiweddaf, ymhellach na phasio penderfyniad cryf yn erbyn Adranau Trwyddedol Mesur Llywodraeth Leol, er y bwriedid gwneuthur hyny yn Nghymdeithasfa Awst Ond y mae Cymdeithas Ddirwestol Deheudir Cymru a Mynwy yn parhau i wneuthur gwaith da. Anerchwyd yn ystod y chwarter cyntaf o'r flwyddyn bresennol 29 o gyfarfodydd yn nghapel y Methodistiaid gan y goruchwyliwr, sef y Parch. Morris Morgan. Nid oes un ammheuaeth nad yw yr Achos yn llwyddo yn ein gwlad; ond y mae arwyddion i'w gweled ar bob llaw nad yw ei elynion eto wedi eu gorchfygu yn llwyr. Nid ydynt ychwaith yn hepian, ond y maent yn hytrach yn wyliadwrus i achub pob cyfleusdra i wthio ymlaen y fasnach a'r arferion y dymunai pleidwyr sobrwydd eu gweled wedi eu hymlid allan o'n mysg. Ac y mae yr alwad yn uwch nag erioed am i'n holl swyddogion yn arbenig, yn weinidogion, pregethwyr, a blaenoriaid, fod eu hunain yn llwyrymwrthodwyr; a sefyll yn gryf ar bob achlysur yn erbyn yr arferion sydd yn gwneuthur y fath niwed yn ein heglwysi. Rhodder lle cyson i'r Achos Dirwestol yn ein heglwysi a'n cynnulleidfaoedd. Na fydded un o honynt heb ei *Band of Hope*, er addysgu ein plant yn Egwyddorion Dirwest. Ac i'r amcan hwn gellir cymeradwyo Catecismau y Parch. J. Rogers, Pembrey. A pharhaer i roddi sylw i'r Achos yn ein Cyfarfodydd Misol a'n Henaduriaethau yn gystal ag yn ein Cymdeithasfaoedd.—Yn y Gymanfa ddiweddaf yn Merthyr, pasiwyd penderfyniadau cryfion yn erbyn Adranau Trwyddedol Mesur Llywodraeth Leol. Cyfododd cydwybod y wlad yn erbyn yr Adranau hyny, ac yn enwedig y cynnygiad ynddynt i greu *vested interest* i'r tafarnwr yn ei drwydded, gyda'r fath rym fel y gorfu i'r Llywodraeth eu tynu yn ol. Ac wedi hyny gwnaed dadganiad arall yn Llys y Frenines fod gan yr ynadon hawl i wrthod adnewyddu trwydded heb roddi un math o ad-daliad oblegid hyny. Gwneir appêl, pa fodd bynag, yn erbyn y dyfarniad i Dŷ yr Arglwyddi; ond y mae gwrthwynebwyr Ad-daliad yn edrych ymlaen yn hyderus at y canlyniad.—Ond y peth pwysicaf yn Nghymru ar hyn o bryd ydyw y cynhwrf gyda golwg ar Ddeddf Cau y Tafarnau ar Ddydd yr Arglwydd. Gwnaed cais gan un newyddiadur i ddangos fod y Ddeddf yn fethiant, ac y dylid yn ddioed ei galw yn ol. Ac y mae bellach ymchwiliad i'w gweithrediad yn cael ei addaw trwy Ddirprwyaeth Freninol. Nid annaturiol ydyw i gyfeillion sobrwydd gwyno o herwydd taflu y wlad i draul a thrafferth gyda'r fath ymchwiliad, pan y mae effeithiau daionus y Ddeddf yn hollol eglur i bob sylwedydd teg a diragfarn. Ond gellir edrych ymlaen yn gwbl hyderus at y canlyniad; ac nid annhebyg ydyw y ceir cyn hir fel ei ffrwyth symudiad ymaith y diffygion yn y Ddeddf sydd yn attalfa ar ffordd ei heffeithiolrwydd llwyr, yn ogystal a mynegiad o deimlad cyhoeddus a wna ffyddlondeb mwy yn ei gweithyddiad yn anocheladwy.—Ond y mae yn dra phwysig, tuag at sicrhau y pethau hyn, gwneuthur pob ymdrech i ddwyn o flaen y Ddirprwyaeth dystiolaethau safadwy a chyfiawn yn ngwahanol ranau y wlad gyda golwg ar weithrediad y Ddeddf yn yr amser a aeth heibio. Y mae Cymdeithas Ddirwestol y Deheudir wrthi yn ddiwyd er ys amser yn gwneuthur parotoadau yn Morganwg; a dylid codi at y gwaith o ddifrif ymhob cymydogaeth trwy yr holl wlad.

Dymuna y Pwyllgor gyflwyno i'r Gymanfa y pethau canlynol:—1. Ein bod yn cymhell holl swyddogion ac aelodau ein Cyfundeb i ffyddlondeb cyson a pharhaus i'r Achos Dirwestol, ac yn enwedig i lafur ymysg y plant er sicrhau eu hymlyniad dros eu hoes wrth lwyrymwrthodiad â'r diodydd meddwol.—2. Ein bod yn cymhell y Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau i wneuthur ymdrech egnïol i ddwyn tystiolaethau cywir, ffyddlawn, a chyflawn o flaen y Ddirprwyaeth Freninol o bob cymydogaeth gyda golwg ar weithrediad Deddf Cau y Tafarnau ar Ddydd yr Arglwydd yn Nghymru; ac yn enwedig i wasgu ar y Ddirprwyaeth yr anghen am ddiddymu adran y *bona fide traveller*, a dwyn i mewn welliantau a sicrhaont i raddau helaethach ei heffeithiolrwydd.—3. Ein bod yn llawenychu o herwydd ail ddarlleniad y Mesur i Gau y Tafarnau ar Ddydd yr Arglwydd yn Lloegr; ac yn gobeithio y llwyddir, cyn diwedd y tymmor presennol, i'w osod ar Ddeddflyfrau y deyrnas. Ein bod yn galw ar holl Aelodau Seneddol Cymru i estyn pob cymhorth yn eu gallu i ddwyn hyn oddiamgylch.—4. Ein bod yn cymhell ein holl aelodau i roddi eu gwyneb, ymhob ardal, yn erbyn y fasnach mewn diodydd meddwol; ac i wneuthur ymdrech i leihau nifer y tafarnau, pa le bynag y gweler fod hyny yn bosibl. (Mewn amryw fanau llwyddwyd y llynedd i attal adnewyddiad trwyddedau trwy wrthwynebiad yn y Llysoedd Trwyddedol.)—5. Ein bod yn argyhoeddedig y dylai Clybiau fod dan yr un rheolaeth a thai cyhoeddus; ac

nad oes gobaith gwrthweithio y niwed a wneir trwy y cyfleusderau i yfed ynddynt heb hyny. —6 Mai un o anghenion blaenaf y Dywysogaeth ydyw Deddf yn rhoddi yn nwylaw y trethdalwyr eu hunain yr awdurdod i leihau nifer y tafarnau, ac i lwyr ddifodi y fasnach pan y byddo mwyafrif cryf o honynt yn galw am hyny.—7. Ein bod yn dymuno dadgan ein hargyhoeddiad fod deddf Cau y Tafarnau yn Nghymru ar ddydd yr Arglwydd wedi gwneuthur daioni dirfawr yn y wlad, ac mai yr unig resymau na buasai ei llwyddiant yn fwy yw anmherffeithrwydd y Ddeddf ei hun yn darparu ar gyfer cyfleusdra y *Bona Fide Travellers*, ynghyd a diffyg gwyliadwriaeth a gofal gyda'r gweinyddiad o honi, ac yn edrych ymlaen yn gwbl hyderus at ganlyniad yr ymchwiliad i'w gweithrediadau.—8. Fod copi o 5, 6, a 7, yn cael ei anfon i'r Prifweinidog, yr Ysgrifenydd Cartrefol, Mr. Gladstone, Sir W. V. Harcourt, a'r Aelodau Cymreig.—9. Ein bod yn enwi y brodyr canlynol yn Bwyllgor i gynnorthwyo gyda hyn:—Parchedigion S. A. Frazer, Rhosycolyn; John Owen Jones, Llanberis; David Evan Davies, Pwllheli; William Roberts, Llanrwst; Mr. Peter Roberts, Llanelwy; Parch. H. Barrow Williams; Mr. Owen Lloyd, Corwen; Parchn. Samuel Owen, Tanygrisiau; Edward Griffiths, Meifod; W. S. Jones, B.A., Llanidloes; W. R. Evans, Wrexham; Mr. Richard Williams, Newtown; Parch. Thomas Levi; Mr. James James, Ffynnonhywel; Parchn. William Evans, M.A.; Morris Morgan; John Morgan Jones; Joseph Evans; David Edwards, Newport; Rees Evans, Llanwrtyd; a Thomas Job. Y Parch. J. O. Jones, Llanberis, yn Gynnullydd.—GRIFFITH ELLIS, *Cynnullydd.*

XXIV. Galwyd sylw at y Rheol sydd eisoes gan y Gymanfa gyda golwg ar Bwyllgor Dirwestol gan y Parch. J. O. Jones, Llanberis, a bod y brodyr canlynol i ffurfio y Pwyllgor:—Parchn. Morris Morgan, G. Ellis, M.A., Bootle; David Jones, Garegddu, Ffestiniog; David Edwards, Casnewydd; Evan Jones, Caernarfon; J. Hughes, D.D.; John Eiddon Jones, Llanrug; Thomas Gwynedd Roberts; Griffith Roberts, Carneddi; John Williams, Dwyran, Môn; John R. Hughes, Brynteg; Daniel Rowlands, M.A., Bangor; Dr. Evan Roberts, U.H., Penygroes; Mri. Henry Lewis, Bangor; David Jones, Engedi, Caernarfon; Richard Hughes, Cefnmawr, Môn. Parch. John Owen Jones, Llanberis, i weithredu fel Cynnullydd. Pump o aelodau i ffurfio *quorum* o'r Pwyllgor Pasiwyd hyn yn unfrydol.

XXV. Pasiwyd, Fod Pwyllgor i gael ei benodi i gynnrychioli y Gymanfa Gyffredinol ger bron y *Royal Commission* sydd i ddyfod i Gymru i wneuthur ymchwiliad i weithrediad y *Sunday Closing Act for Wales*, ac i ddwyn barn a theimlad y Gymanfa sydd yn cynnrychioli cynifer o drigolion Cymru ger bron y *Commission*, ac awgrymu gwelliantau yn y Ddeddf er sicrhau gweithrediad mwy effeithiol o honi. Fod y Llywydd, y ddau Ysgrifenydd, y Parchedig Joseph Evans, a'r Parchedig Griffith Ellis, M.A., i gyfansoddi y Pwyllgor uchod; y Parch. G. Ellis, M.A., i fod yn Gynnullydd.

Terfynwyd yr Eisteddiad trwy weddi gan y Parchedig Thomas Hughes, Kenchester.

(I'w barhâu.)

CYMDEITHASFA DINBYCH,

MEHEFIN 18—21, 1889.

LLYWYDD:—Y PARCH. JOHN PRITCHARD, AMLWCH.

DYDD MERCHER, y 19eg.

Am 2 o'r gloch, Cyfeisteddfod Cyffredinol y Gymdeithasfa.

I. Galwyd enwau y Cynnrychiolwyr.

II. Derbyniwyd Cenadwriaethau o'r Gymanfa Gyffredinol a'r Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau.

III. *Cenadwriaethau o'r Gymanfa Gyffredinol.*—Penderfynwyd, —Ein bod yn cyflwyno cenadwriaethau a ddaethant o'r *Gymanfa Gyffredinol* ar yr Achos Cenadol, yr Achos Dirwestol a'r Arholiad Cymanfaol i'r Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau, gan daer ddymuno arnynt roddi iddynt y sylw dyladwy. Ynglŷn â'r genadwri ar yr Arholiad Cymanfaol, annogwyd fod mwy o le a sylw yn cael ei roddi i'r Arholiad Sirol, gan mai cyfartaledd bychan iawn o aelodau yr Ysgol Sabbothol yn y gwahanol siroedd sydd yn sefyll yr Arholiad hwnw.

IV. *Rheolau Derbyniad i'r Weinidogaeth.*—Penderfynwyd,—Fod y Rheolau cynnygiedig yn cael eu cyflwyno i ofal y Pwyllgor a benodwyd yn Mhont Menai, i gymeryd yr holl achos i ystyriaeth, a bod y Pwyllgor hwnw i ddwyn adroddiad i'r Gymdeithasfa yn fuan, ac yna fod y Rheolau hyny i'w hanfon i'r Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau.

V. *Y Diweddar Barch. Richard Owen.*—Hysbyswyd fod llyfr yn cynnwys Cofiant a Phregethau y diweddar Barch. Richard Owen bron yn barod. Annogwyd ar fod y Cyfarfodydd Misol yn rhoddi pob cefnogaeth i werthiant y llyfr, gan fod yr holl elw oddiwrtho yn myned i chwyddo y dysteb.

VI. *Pwnc Cyfarfod y Pregethwyr.*—Penodwyd y Parchn. John Hughes, D.D., Benjamin Hughes, a Thomas Gee i ymgynghori ynghyd ynghylch pwnc ymddyddan yn Nghyfarfod y Pregethwyr bore drannoeth.

VII. *Derbyn Aelodau i'r Eglwysi.*—Cafwyd ymddyddan pwyllog ar genadwri o'r Gymanfa Gyffredinol, a phenderfynwyd,—Ein bod yn penodi y brodyr canlynol i ffurfio penderfyniad ar y mater hwn, yn cynnwys cyfarwyddiadau i'w cyflwyno wedi hyny i'r Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau, sef y Parchn. O. Thomas, D.D.; R. Roberts, Dolgellau; Thomas Owen, Portmadoc; Thomas Gee; John Hughes, D.D., a Mr. Thomas Lewis, A.S. (Gwel Penderfyniad Rhif XXIX.)

VIII. *Tai Gweinidogion.*—Galwyd sylw at genadwri mewn perthynas i'r mater hwn, a phenderfynwyd,—Ein bod yn cyflwyno yr achos hwn yn gynhes i ystyriaeth y Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau.

IX. *Achos Criccieth.*—Hysbyswyd gan y Cenadon a fu yn Mhentrefelin, yn ol pen-

derfyniad y Gymdeithasfa ddiweddaf,—Fod yr Eglwys yn Mhentrefelin wedi dewis bod mewn cysylltiad â'r Capel Seisonig. Cadarnhäwyd y penderfyniad. Penderfynwyd hefyd,—Ein bod yn dymuno ar y ddau frawd a fu yno o'r blaen, sef y Parch. William Rowlands, Cefnywaen, a Dr. Roberts, Penygroes, i ymweled â Chriccieth, i wastadâu pob anghydweliedaid gyda golwg ar yr hen *promissory notes* o eiddo y ddwy blaid, a'n bod yn eu hawdurdodi hwy i weithredu fel y gwelont oreu, er dwyn yr achos i derfyniad boddhaol.

X. *Y Gronfa Fenthyciol.*—Ar ol ychydig ymddyddan ar y pwnc hwn, penderfynwyd,—Ein bod yn cadarnhau llais mwyafrif mawr y Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau yn cymeradwyo cynllun y Gronfa Fenthyciol, a'n bod yn galw ar y Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau i benodi aelodau ar bwyllgor y Gronfa Fenthyciol, ac i anfon eu henwau i'r Gymdeithasfa nesaf, a bod y pwyllgor hwn i gymeryd i ystyriaeth y gwelliantau ar y Rheolau a gynnygir gan y gwahanol Gyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau, ac yna i gyflwyno y Rheolau i'r Gymdeithasfa yn eu ffurf derfynol.

XI. *Adferu Brawd i'r Weinidogaeth.*—Ar ol ymdrafodaeth faith ar y cwestiwn hwn, penderfynwyd fod y Parchn. John Hughes, D.D., Owen Jones, B.A., William James, B.A., John Williams, Caerlleon, Mri. Thomas Lewis, A.S., John Williams, Moss Bank, a John E. Powell, Wrexham (y Parch. John Williams, Caerlleon, i fod yn gynnullydd), i fod yn bwyllgor i gymeryd yr holl fater hwn i ystyriaeth bwyllog, ac i ddwyn adroddiad arno i'r Gymdeithasfa nesaf. Caniatäwyd i'r pwyllgor, os tybiant hyny yn anghenrheidiol, i alw am wasanaeth Ysgrifenydd y Gymdeithasfa i gymeryd adroddiad manwl o bob tystiolaeth a ddygir ger bron.

Terfynwyd trwy weddi gan y Llywydd.

Am 6 *o'r gloch, Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.*

Dechreuwyd gan y Parch. John R. Hughes, Brynteg.

XII. *Y Gymdeithasfa Nesaf.*—Hysbyswyd fod y Gymdeithasfa nesaf i gael ei chynnal yn Mangor, Awst 27, 28, a 29—dyddiau Mawrth, Mercher a Iau. Cyfeisteddfod Cyffredinol y Gymdeithasfa i gyfarfod am 2 o'r gloch dydd Mawrth, y 27ain o Awst.

XIII. *Cadarnhäu.*—Darllenwyd a chadarnhäwyd penderfyniadau y Cyfeisteddfod Cyffredinol.

XIV. *Ordeinio.*—Derbyniwyd cenadwri o Sir Fflint o barth i ordeiniad Mr. Owen Mathias, a phenderfynwyd, Ein bod yn ei gyflwyno ef i'r Gymdeithasfa fel y brodyr eraill, i gael ei ordeinio.

XV. *Gweinyddiad yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd.*—Cafwyd ymddyddan pwyllog ar genadwri gyda golwg ar hyn, a phenderfynwyd fod y brodyr canlynol i fod yn bwyllgor i ystyried y cwestiwn uchod, ac i roddi adroddiad arno yn y Gymdeithasfa nesaf; sef y Parchn. Owen Thomas, D.D., John Hughes, D.D., Robert Roberts, Dolgellau; Thomas Owen, Potmadoc; James Donne, Daniel Rowlands, M.A., Owen Jones, B.A., William James, B.A., a John Prichard; Mri. Thomas Lewis, A.S., Edward Griffith, U.H., Dolgellau; David Hughes, U.H., Liverpool; John Davies, Manchester; John Roberts, Foxhall; D. P. Davies, Deganwy; Richard Davies, U.H., Treborth; Robert Rowland, U.H., Pwllheli; Thomas Rowlands, Drefnewydd; cynnullydd, Parch. William James, M.A.

XVI. *Achos Seisonig Llandudno.*—Yn unol â chenadwri o Ddyffryn Conwy, traddodwyd cyfarchiadau cynhes gan y Parchedigion C. T. Astley, M.A., a James Donne, ac eraill. Yn ganlynol mabwysiadwyd y penderfyniad canlynol:—Ein bod yn llawenhâu wrth glywed am lwyddiant yr ymdrechion a wneir yn Llandudno i sefydlu achos Seisonig, a'n bod yn dymuno cyflwyno y pwnc hwn yn y modd mwyaf gwresog i sylw a chynnorthwy y cyfeillion sydd â gallu ganddynt yn y wlad, ac ein bod yn gofyn i Mr. Astley, os ydyw yn bosibl iddo, i ymweled â'r holl Gyfarfodydd Misol, a'n bod ninnau yn ymrwymo i wneyd ein goreu i'w gynnorthwyo.

XVII. *Addysg Elfenol.*—Penderfynwyd ein bod yn cymeradwyo ac yn cadarnhâu cenadwri a ddanfonwyd ar y pwnc hwn o Gyfarfod Misol Gorllewin Meirionydd.

XVIII. *Prydles ar ben.* — Rhoddwyd hysbysiad i'r Gymdeithasfa fod prydles capel Scarisbrick ar ben, ac fod ein hachos ni yn y lle yn cael ei drosglwyddo i ddwylaw eraill.

XIX. *Cynnrychiolaeth Eglwysi yn y Cyfarfodydd Misol.* — Penderfynwyd fod sylw ar genadwri o Gyfarfod Misol Liverpool o barth i gynnrychiolaeth eglwysi yn y Cyfarfodydd Misol yn cael ei ohirio hyd y Gymdeithasfa nesaf, pryd y ceir mwy o amser.

XX. *Pwnc Cyfarfod y Pregethwyr.*—Hysbyswyd gan y brodyr a nodwyd i hyny mai pwnc yr ymddyddan yn Nghyfarfod y Pregethwyr drannoeth oedd, Pa beth a pha fodd i bregethu.

XXI. *Ysgrifenydd y Genadaeth Gartrefol.*—Hysbyswyd gan Lywydd Cyfeisteddfod y Genadaeth Gartrefol eu bod hwy wedi dewis yn unfrydol y Parch. Thomas Roberts, Bethesda, fel Ysgrifenydd y Genadaeth, yn lle y diweddar Barch. Robert Davies, Amwythig. Cadarnhäwyd y penodiad.

XXII. *Tsgolion Gwrth-Babaidd Sir Fflint.*—Darllenwyd a chadarnhäwyd yr adroddiad dilynol o weithrediadau y Pwyllgor uchod. Penderfynwyd,—

1. Fod y Cyfeisteddfod yn derbyn ymddiswyddiad William Evans, Ysw., y Trysorydd, ac hefyd ymddiswyddiad y Parch. John Pugh, B.A., fel Ysgrifenydd, a bod diolchgarwch yn cael ei gyflwyno i'r Trysorydd a'r Ysgrifenydd am eu gwasanaeth ffyddlawn yn y blynyddoedd a aethant heibio.—2. Fod Mr. Jacob Jones, Rhyl, yn cael ei gynnyg fel Trysorydd, a'r Parch. Hugh

Roberts yn cael ei gynnyg fel Ysgrifenydd.—3. Fod dymuniad am i'r Cyfarfodydd Misol sydd heb dalu eu cyfran am y flwyddyn hon i wneyd hyny mor fuan ag y byddo modd.—4. Fod diolchgarwch gwresog yn cael ei gyflwyno i'r boneddigion sydd yn tanysgrifio yn flynyddol i'r Gronfa hon; sef His Grace the Duke of Westminster; Robert Davies, Ysw., Bodlondeb; a Samuel Smith, Ysw., A.S.—5. Hysbyswyd am danysgrifiwr am ddwy *guinea* yn flynyddol, oedd yn dewis galw ei hun yn "Gyfaill."—JOHN PUGH, *Ysg.*

XXIII. *Athrofa'r Bala.*—Cyflwynwyd yr Adroddiad dilynol:—

Cyfarfu y Pwyllgor Cyffredinol ynglŷn â Chymdeithasfa Dinbych, nos Fawrth a boreu Mercher, Mehefin 18fed a'r 19eg, 1889. Cadeirydd,—T. Lewis, Ysw., A.S.

1. Darllenwyd Cofnodau y Cyfarfod diweddaf, a chadarnhawyd hwynt.

II. Cyflwerwyd i ystyriaeth Adroddiad yr Isbwyllgor a benodwyd yn Mhont Menai, a chymeradwywyd ef yn y ffurf ddilynol i'w gyflwyno i'r Gymdeithasfa:—

Cyfarfu Is-Bwyllgor Athrofa'r Bala yn y Bala, Mai 13 a'r 14eg, 1889. Cadeirydd,—y Parch. T. J. Wheldon, B.A.—Cydolygwyd ar y penderfyniadau dilynol i'w cynnyg i sylw y Cyfeisteddfod Cyffredinol.

I. *Gwaith y Flwyddyn Nesaf*—1889–90.—Teimlwyd anhawsder mawr i drefnu gwaith yr Athrofa am y flwyddyn nesaf, fel ag i roddi mwy o arbenigrwydd ar Dduwinyddiaeth, yn ol penderfyniad Cymdeithasfa Pont Menai Barnwyd yn oreu, o dan yr amgylchiadau, gynnyg y cynllun dilynol:— Fod y myfyrwyr sydd eisoes yn y Bala, a'r rhai a ddeuant i mewn y tymmor nesaf, oll i astudio y pynciau canlynol:—1. *Dogmatics.* 2. *Exegesis.* 3. Groeg. 4. Saesoneg. Ac yn ychwanegol, yn ddarostyngedig i farn yr Athrawon, unrhyw *ddau* o'r rhai canlynol:—5. Hanesiaeth Eglwysig. 6. *Apologetics.* 7. Lladin. 8. *Mathematics.*

II. *Gwaith yr Athrawon.*—Trefnwyd fod gwaith y ddau Broffeswr mewn Duwinyddiaeth i fod fel y canlyn:—Y Parch. Ellis Edwards, M.A., *Dogmatics* ac *Apologetics;* y Parch. Hugh Williams, M.A., Hanesiaeth Eglwysig ac *Exegesis.*

III. *Yr Arholiad am Fynediad i mewn i'r Athrofa yn Mis Medi,* 1889.—Penderfynwyd, fod yr Arholiad hwn i fod ar y testynau canlynol, yn ol yr hysbysiad a ymddangosodd yn y *Goleuad*, yn unol â phenderfyniad Cymdeithasfa Pont Menai:—1. Cyfansoddi Cymraeg.—2. Gramadeg Seisonig, a chyfansoddi Saesoneg. Saesoneg y Cyfeithiad Awdurdodedig o Esaiah, pen. xl.—liii., heb esboniadaeth. Y mae methiant mewn Saesoneg ar ei ben ei hun yn anghymhwyso ymgeisydd i ddyfod i mewn.—3. Gramadeg Lladin—yr *Accidence*, y *Syntax*, brawddegau byrion i'w cyfieithu i'r Lladin.—4. *Arithmetic.*—5. *Algebra—Four Rules, and Simple Equations.*—6. *Geometry—Euclid* I. II.—7. Groeg—yr *Accidence*, prif reolau y *Syntax*, brawddegau byrion i'w cyfieithu i Roeg.—8. Traethawd, yn Gymraeg neu Saesoneg, ar bwnc Duwinyddol.—Bwriedir cynnal yr Arholiad yn y Bala, ar y trydydd dydd Mawrth yn Medi nesaf, i ddechreu am 9 yn y boreu.

IV. *Adran Newydd Ragbarotoawl.*—1. Yn ngwyneb y diffyg o addysg barotöawl sydd ar rai o'n hymgeiswyr am y weinidogaeth, penderfynwyd,—Fod ymgeiswyr i gael eu derbyn i mewn y flwyddyn hon, a chyhyd ag y teimlir hyny yn anghenrheidiol, i adran barotöawl, yr hon sydd, ar hyn o bryd, i fod dan arolygiaeth y Proffeswyr yn y Coleg, ond yn yr hon y cyfrenir yr Addysg gan yr Athrawon Cynnorthwyol.—2. *Arholiad am Fynediad i mewn i'r Adran Ragbarotöawl,*—Cynnelir Arholiad yn mis Medi nesaf am fynediad i mewn i'r Adran Barotöawl hon yn y pynciau dilynol.—Cymraeg:—(*a*) Gramadeg. (*b*) Traethawd. Saesoneg:—(*a*) Gramadeg. (*b*) Traethawd. Rhifyddiaeth:—*Four Rules. Vulgar a Decimal Fractions. Proportion.*—3. *Taliadau.*—Penderfynwyd nad yw y taliadau am addysg yn yr Adran Ragbarotöawl i fod yn fwy na £5 y flwyddyn am bob myfyriwr; a'n bod yn dymuno cyflwyno i ystyriaeth y Cyfarfodydd Misol y priodoldeb o dalu y swm yma dros y rhai a gymeradwyir ganddynt hwy.—4. *Pwy a Dderbynir.*—Fod yr Arholiad am fynediad i mewn i'r Adran Barotöawl hon yn agored i bawb a fyddo yn aelod o'r Cyfundeb, a thros 17eg oed, ar yr ammod eu bod yn talu y swm uchod.—*Arholiad ar Dafod Leferydd.*—Fod caniatâd i'r Arholwyr, yn yr Arholiadau am fynediad i mewn i'r Coleg a'r Adran Barotöawl, i arholi myfyrwyr ar lafar.—D.S.—Er mwyn osgoi pob anfantais i les ymgeiswyr am fynediad i mewn i'r Athrofa yn ystod y cyfwng presennol, caniateir i'r Proffeswyr weithredu fel y barnont yn oreu mewn achosion neilldiol, a chymeradwyo rhai teilwng i dderbyn gwobrau ar derfyn y tymmor am y flwyddyn nesaf yn unig.

Cynllun Llandudno.—Tuag at dröi yr Athrofa yn gwbl Dduwinyddol, penderfynwyd fod y Cynllun a gyflwynwyd i'r Gymdeithasfa yn Llandudno yn dyfod i weithrediad yn Medi, 1890; a bod yr Arholiadau am 1890 a 1891 i fod yn ol y trefniad a adwaenir fel Cynllun Llandudno.

VI. *Adran Arianol.—Cyllid.*—Yn y flwyddyn 1890, bydd cyllidau y Coleg yn £1200 o leiaf; sef, £1100 fel llogau y Gronfa, a thua £100 oddiwrth arian y diweddar Mr. Thomas Jones—heb gyfrif y gwobrau a roddir gan bersonau neilldiol.

Treuliau.—Bydd treuliau anghenrheidiol y blynyddoedd hyn fel y canlyn:—Proffeswyr, £470; Athrawon cynnorthwyol, £160; Llyfrgellydd, £13; Adeilad, *Grounds*, a Mân Gostau, &c., £70; cyfanswm, £713. Awgrymir y priodoldeb o fod yr Athrawon cynnorthwyol yn wŷr wedi graddio. Gedy hyn tua £500 at wasanaeth y Pwyllgor. Bydd genym cyn hir i dalu cyflog Prif Athraw—neu Athraw Duwinyddol chwanegol

Gwobrau.—Cynnygir y Gwobrau dilynol yn yr Athrofa, pan y bydd yn Dduwinyddol:—*(a)* Wrth ddyfod i mewn i'r Coleg, trwy basio yr Arholiad A (gweler Cynllun Llandudno), i'r cyntaf, £15; ail, £8; trydydd, £5; pedwerydd, £3. I'r rhai a ddeuant i mewn o dan yr Arholiad eithriadol a elwir B (Cyn. Llandudno), i'r cyntaf, £3; ail, £2; trydydd, £1.—*(b)* Ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf yn y Coleg, £7 yr un i'r saith goreu, os cyrhaeddant hanner y marciau yn yr Arholiad.—*(c)* Ar ddiwedd yr ail flwyddyn, £10 yr un i'r saith cyntaf, ar yr un telerau.—*(d)* Gwobrau neilldiol:—1af yn yr ail flwyddyn, £10; 2il yn yr ail flwyddyn, £7; 3ydd yn yr ail flwyddyn, £5; *(e)* Fod Ysgoloriaeth Charles i gael ei rhoddi ar fynediad i mewn i'r Coleg, yn ol telerau y weithred.—Bwriedir talu swm neilldiol tuag at *fees* y myfyrwyr a elont i'r Colegau eraill fel ysgolheigion y Bala (*Bala Scholars*); ac hefyd, os cyfrenir arian gan y wlad, ceisir rhoddi gwobr o £7 10s. i'r rhai teilwng, tuag at eu cynnaliaeth yn y Colegau. Ond gwneir y ddau beth hyn ar yr ammod eu bod yn cwblhau eu tymmor o efrydiaeth ddiwinyddol yn y Bala, neu yn dychwelyd yr arian a dderbyniasant i'w cynnorthwyo yn y Colegau eraill.—T. J. WHELDON, *Cadeirydd;* R. H. MORGAN, *Ysgrifenydd.*

III. Yn ngwyneb yr alwad sydd am chwanegu Cronfa yr Athrofa, ac yn unol â'r hyn a gymeradwywyd o'r blaen gan y Gymdeithasfa, penderfynwyd ein bod yn rhoddi pob cefnogaeth a chalondid i'r Ysgrifenydd i appelio at y wlad am gyfroddion tuag at yr amcan uchod.

IV. Penderfynwyd fod Pwyllgor Blynyddol y Bala eleni i gyfarfod dydd Mawrth, am

chwech o'r gloch, a dydd Mercher, Gorphenaf 2il a'r 3ydd, yn lle y 3ydd a'r 4ydd.—Thomas Lewis, *Cadeirydd*; R. H. Morgan, *Ysgrifenydd*.

Yn ganlynol traddodwyd anerchiadau gwresog ar yr Adroddiad gan y Parchn. Ellis Edwards, M.A., Robert Roberts, Dolgellau; John Hughes, D.D., a Professor Henry Jones, M.A. Penderfynwyd, Ein bod yn cadarnhâu yn galonog yr Adroddiad uchod.—Penderfynwyd hefyd,—Ein bod yn dymuno cydnabod gyda diolchgarwch ddaioni yr Arglwydd tuag at y Coleg yn y Bala, a'n bod yn dymuno cydymdeimlad yr eglwysi ar ran y sefydliad gwerthfawr hwn a'r Athrawon, ac yn dadgan ein hymddiried llwyraf yn yr Athrofa a'r Athrawon.

Aelodau ar y Cyfeisteddfod.—Cadarnhäwyd dewisiad Mr. D. P. Davies, Deganwy, dros Ddyffryn Conwy; Mr. J. Roberts, Foxhall, dros Ddyffryn Clwyd; a'r Parch. J. P. Davies, M.A., Caerlleon, dros Sir Fflint. Penderfynwyd fod y tri aelod dros y Gymdeithasfa sydd yn myned allan o'u swydd eleni yn cael eu hail ethol—sef Mri. J. Harrison Jones, Liverpool, J. Bryn Roberts, A.S., a J. Herbert Lewis, M.A., Liverpool.

Terfynwyd trwy weddi gan y Llywydd.

Dydd Iau, Mehefin 20fed.

Am 9 *o'r gloch, Cyfarfod y Pregethwyr, a Chyfeisteddfod y Blaenoriaid.*

Yn Nghyfarfod y Pregethwyr ymddyddanwyd â Mr. Owen Mathias, Fflint, gyda golwg ar ei ordeiniad, a phenderfynwyd,—Ein bod yn ei gyflwyno i gael ei ordeinio, ac yna rhoddwyd cynghorion addas iddo gan y Parch. O. Thomas, D.D.—Hysbyswyd o Drysorfa y Gweinidogion fod amryw weinidogion yn dra ymarhous gyda thalu eu cyfran hanner blynyddol, yr hyn a bar lawer iawn o drafferth i swyddogion y Gymdeithas, a thaer erfyniwyd arnynt ddiwygio yn hyn. Penderfynwyd gohirio sylw ar y pwnc penodedig hyd y Gymdeithasfa nesaf.

Am 10, *Cyfarfod Ordeinio.*

Dechreuwyd trwy weddi gan y Parch. Thomas Gray, Manchester.

Hysbyswyd o barth i reoleidd-dra dewisiad y brodyr canlynol gan Mr. John Williams, Moss Bank, Cadeirydd Cyfarfod y Blaenoriaid.—O Fôn:—Mr. John Roberts, Llanfaethlu. Arfon:—Mr. Phillip Williams, Carneddi. Fflint:—Mr. O. Mathias, Fflint. Dwyrain Meirionydd:—Mri. John Jones Hughes, Llidiardau; John Puleston Jones, B.A., Bala; a David Lewis Owen, Gwyddelwern. Gorllewin Meirionydd:—Mri. Hugh Ellis, Pennal, a Hugh Pugh, Gwynfryn. Trefaldwyn Uchaf:—Mr. B. F. Richards, Sychnant. Henaduriaeth Trefaldwyn:—Mr. J. Daniel Evans, Tabernacle. Henaduriaeth Lancashire:—Mr. J. Owen Thomas, M.A., Liverpool. Liverpool:—Mr. Robert Davies, Workington.

Darllenwyd y rhanau arferol o'r Ysgrythyrau gan y Parch. John Hughes, M.A., Machynlleth. Traddodwyd yr araeth ar Natur Eglwys gan y Parch Evan Jones, Caernarfon, seiliedig ar Psalm cx. 1, 2, 3. Gofynwyd y cwestiynau arferol o'r *Cyffes Ffydd* gan y Parch. Josiah Thomas, M.A., Liverpool. Wedi i'r Gymdeithasfa arwyddo ei derbyniad o'r brodyr hyn i gyflawn waith y weinidogaeth, offrymwyd yr urddweddi gan y Parch. David Saunders, D.D. Traddodwyd y Cynghor gan y Parch. John Hughes, D.D., seiliedig ar 2 Cor. iv. 5. Terfynwyd trwy weddi gan y Parch. T. J. Phillips, Pennsylvania, Llywydd Cymanfa Gyffredinol y Methodistiaid Calfinaidd yn yr Unol Daleithiau, America.

Am 2 *o'r gloch, Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.*

Dechreuwyd gan y Parch. William Williams, Birmingham.

XXIV. *Rhentu Hen Gapel.*—Yn unol â chais Cyfarfod Misol Trefaldwyn Uchaf, penderfynwyd, ar gynnygiad y Parch. Daniel Rowlands, M.A., a chefnogiad y Parch. Thomas Owen, Portmadoc, fod caniatâd yn cael ei roddi i gyfeillion Machynlleth i rentu yr hen gapel i gynnal ysgol ddyddiol—*British School.*

XXV. *Hanes yr Achos.*—Rhoddwyd adroddiad lled bruddglwyfus o ansawdd yr Achos yn allanol ac ysbrydol o fewn cylch Cyfarfod Misol Dyffryn Clwyd, gan Mr. Peter Roberts, Llanelwy, a'r Parch. Evan Jones, Bodffari. Yn ganlynol gwnaed sylwadau gan y Parch. Dr. Thomas, a phasiwyd penderfyniad yn dadgan ein llawenydd fod llawer o bethau cysurus yn perthyn i'r achos.

XXVI. *Y Genadaeth Gartrefol.*—Darllenwyd a chadarnhäwyd yr adroddiad dilynol o weithrediadau Cyfeisteddfod y Genadaeth Gartrefol:—

Yr oedd yn bresennol y Parchn. John Williams, Brynsiencyn, dros Sir Fôn; Griffith Roberts, Carneddi, dros Arfon; J. Edwards, Colwyn Bay, dros Ddyffryn Conwy (am y tro, yn lle y Parch. Evan Davies, Trefriw); Samuel Owen, Tanygrisiau, dros Orllewin Meirionydd; John Williams, Caerlleon, dros Henaduriaeth Lancashire; Mri. John Owen, Paris House, Portmadoc, dros Lleyn ac Eifionydd; David Roberts, Pontruffydd, Trefnant, dros Ddyffryn Clwyd; Edward Hooson, Rhos, dros Sir Fflint; John Lloyd Jones, Defaidty, Bala, dros Ddwyrain Meirionydd; William Morris, Croesoswallt, dros Drefaldwyn Isaf; David Hughes, U.H., dros Liverpool; John Davies, Salford, dros Manchester; T. Rowlands, Drefnewydd, dros Henaduriaeth Trefaldwyn; ynghyd a'r Trysorydd, Mr. Edward Griffith, U.H., Dolgellau. -Dewiswyd Mr. D. Hughes, U.H., Liverpool, i lywyddu y ddau gyfarfod.

Hysbyswyd fod llythyr wedi ei dderbyn oddiwrth Mr. Edward Davies, U.H., Llandinam, cynnrychiolydd Trefaldwyn Uchaf, yn dadgan ei anallu i fod yn bresennol, a'i fod wedi methu cael brawd i gymeryd ei le.—Hysbyswyd fod Mr. John Lloyd Jones, Defaidty, Bala, wedi ei ddewis yn aelod o'r Cyfeisteddfod dros Ddwyrain Meirionydd am y tair blynedd nesaf, a bod y brodyr canlynol wedi eu hail-ethol am yr un tymmor:—Parch. John Williams, Brynsiencyn, dros Sir Fôn; Mr. John Owen, Paris House, Portmadoc, dros Lleyn ac Eifionydd; a Mr. T. Rowlands dros

Henaduriaeth Trefaldwyn.—Y Cyfarfodydd Misol sydd i ddewis aelodau o'r Cyfeisteddfod y tro nesaf ydynt Arfon, Sir Fflint, Gorllewin Meirionydd, a Liverpool.—Pasiwyd y penderfyniad canlynol gyda golwg ar y diweddar Ysgrifenydd:—Ein bod yn teimlo yn ddwys wrth gyfarfod y tro hwn o herwydd y golled fawr a gawsom yn marwolaeth ein hysgrifenydd, y Parch. Robert Davies. Dymunem ddwyn y dystiolaeth uchaf i ragoroldeb ei waith, ac i'w ffyddlondeb manwl yn nghyflawniad ei ddyledswyddau. Yr ydym hefyd yn dymuno dadgan ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs. Davies a'i phlant yn eu galar, ac yn hyderu y cânt nerth gan Ddiw i ddal eu profedigaeth, ac y bydd iddynt sylweddoli mai Tad yr amddifaid a Barnwr y gweddwon yw Duw yn ei breswylfa sanctaidd.—Penderfynwyd hefyd fod Mr. John Davies, Salford, i anfon llythyr o gydymdeimlad at Mrs Davies dros y Cyfeisteddfod —Etholwyd, yn unfrydol, y Parch. Thomas Roberts, Jerusalem, Bethesda, i weithredu fel Ysgrifenydd y Cyfeisteddfod yn lle y diweddar Barch. Robert Davies; y cyflog i fod yn £40 y flwyddyn, ynghyd a'i gostau, a'r penodiad, fel arferol, i fod am un flwyddyn.—Aii etholwyd y brodyr canlynol i weithredu gyda'r Trysorydd a'r Ysgrifenydd fel Is-Bwyllgor:—Parch. John Williams, Caerlleon; Mr. E. Davies, U.H., Llandinam; a Mr. John Davies, Salford.—Cymerwyd i ystyriaeth gais o Henaduriaeth Lancashire gyda golwg ar y *grant* i Glan'rafon; cynnygient fod y Cenadwr i gymeryd gofal Glan'rafon a Choedpoeth, a hysbysent fod y lle olaf i dderbyn *grant* o gronfa yr Achosion Seisonig. Yn ngwyneb,yr anhawsder a allai gyfodi os byddai un cenadwr yn gweithredu o dan arolygiaeth y ddau gyfeisteddfod, ac er mwyn ystyried pa ad-drefniadau ellid eu gwneyd yn y cymydogaethau hyny lle y dygwyddai fod gan y ddau gyfeisteddfod achosion dan eu gofal, penderfynwyd gwahodd Cyfeisteddfod yr Achosion Seisonig i gydymgynghoriad brawdol ar y mater.—Daeth y ddau gyfeisteddfod ynghyd, ac ar ol peth ymddyddan, penderfynwyd cyflwyno y mater i ofal Is-bwyllgor unedig *(joint committee)* o'r ddau gyfeisteddfod.—Ar ol ymwahanu, dewiswyd i weithredu ar y *joint committee* dros y Genadaeth Gartrefol, Mr. J. E. Powell, Wrexham; Mr. E. Hooson, Rhos; ynghyd ag Is-bwyllgor y Cyfeisteddfod.—Daeth hysbysiad o Gyfeisteddfod yr Achosion Seisonig eu bod hwythau wedi dewis y brodyr canlynol yn aelodau o'r *joint committee*:—Parch. E. Jerman, Wrexham; Parch W. Foulkes, Llangollen; Mr. E. P. Jones, Rhyl; Mr. R. Williams, Drefnewydd; Mr. W. R. Evans, Wrexham, ynghyd a'u Trysorydd a'u Hysgrifenydd; yr olaf i fod yn gynnullydd y Pwyllgor unedig.—Hysbyswyd, ymhellach, fod Cyfeisteddfod yr Achosion Seisonig yn cymeryd Glan'rafon dan eu gofal.—Yn ngwyneb y gŵyn fod Cenadon, weithiau, yn cael eu gosod mewn gorsafoedd heb ymgynghoriad dyladwy â'r Cyfeisteddfod, penderfynwyd fod rheol y Gymdeithas ar y pen yma yn cael ei chorffori, o hyn allan, ymhlith y rheolau yn yr Adroddiad blynyddol.—Gwnaed sylwadau ar ystâd yr achos yn Earlstown, a phenderfynwyd,—Ein bod yn cyflwyno achos Earlstown i sylw Cyfarfod Misol Liverpool ynghyd a'r Is-bwyllgor, a'u bod i gymeryd i ystyriaeth pa un a ddylid parhau yr achos fel y mae yn y lle hwn, ai ynte a fyddai yn fwy priodol ei droi yn achos Seisonig, neu roddi i fyny yr achos a gwerthu y capel?—Rhoddwyd ystyriaeth ddyladwy i'r holl geisiadau am gynnorthwy, a gwnaed y trefniadau a ganlyn:—

Y Lleoedd Cymreig:—Cyfarfod Misol Sir Fôn. Dublin, £65.—Cyfarfod Misol Lleyn ac Eifionydd. Ynys Enlli, £50.—Cyfarfod Misol Sir Fflint. Crewe, £35 tra bydd gweinidog ganddynt, £20 pan heb weinidog; Hanley, £40 tra bydd ganddynt weinidog, £20 pan heb weinidog; Froghall, £20.—Cyfarfod Misol Trefaldwyn Isaf. Wolverhampton a Bilston, £35; y swm i gael oi ostwng i £20 yn nechreu y flwyddyn 1890, os na fydd ganddynt weinidog y pryd hyny; O'd Hill, £15.—Cyfarfod Misol Manchester. Tyldesley, £45; Warrington, £15.—Cyfarfod Misol Liverpool. Runcorn, £25; St. Helen's ac Earlstown, £60; Wigan a Skelmersdale, £40; Barrow a Dalton, £65; Workington, £50; Spennymoor a Witton Park, £65; Millom, £15.

Y Lleoedd Seisonig:—Henaduriaeth Lancashire.—Garston, £50; Breeze Hill, £30; Everton Brow, £60; Hoylake, £35; Waverton a Saighton, £40; Saughall a Two Mills, £50; Pentremoch, £10; Holt a Glanypwll, £30, gan ddysgwyl y byddant, erbyn y flwyddyn nesaf, yn gweled eu ffordd i ymuno â'r Drysorfa Gynnorthwyol; Bangor-is-coed, £15; Salem, £10; Bethel, £20; Bethlehem, Summer Hill, a Gwersyllt, £60.—Henaduriaeth Trefaldwyn. Llanymynech a Gwernypant, £55; Coedway, £45; Frankwell, £20, gan awgrymu y byddai yn ddymunol i'r ddau achos yn yr Amwythig—Frankwell a Hill's Lane—fod o dan ofal un gweinidog; Tabernacl a Geuffordd, £30; Trefaldwyn a Berriew, £30, gan ddadgan ein llawenydd am yr hysbysiad mai dyma'r tro olaf y bydd i'r cais gael ei wneyd; Bethesda, £25; Mochdre, £10.

Cais Newydd.—Cyfarfod Misol Dyffryn Clwyd. Tremeirchion, £15.

Penderfynwyd fod cyflog y diweddar Ysgrifenydd i redeg hyd ddiwedd Mehefin, 1889.—Penderfynwyd fod Mr. Joseph Owen, yr Ysgrifenydd am y pryd, i gael £10 am ei lafur yn cwblhau ac yn dwyn allan yr Adroddiad.—Caniatäwyd y rhodd arferol, £10, i'r Parch. Joseph Jones —Derbyniwyd a chadarnhäwyd cyfrifon y Trysorydd.—Cyflwynwyd diolchgarwch i'r Archwilwyr, Mr. William Jones, Bronrhiw, Bala, a Mr. Evan Jones, Bala, am eu gwasanaeth; a phenodwyd Mr. William Morris, Croesoswallt, a Mr. Robert Lloyd, Croesoswallt, i archwilio y cyfrifon am y flwyddyn ddyfodol.—Diolchwyd i'r Llywydd, y Trysorydd, a'r Ysgrifenydd am y pryd, am eu gwasanaeth.—DAVID HUGHES, *Llywydd;* JOSEPH OWEN, *Ysgrifenydd (pro tem).*

(I'w barhâu.)

Bywgraffiaeth.

MR. O. OWEN, TRAIAN, CWMYSTRADLLYN, EIFIONYDD.

Gan y Parch. WILLIAM ELLIS, *Beddgelert.*

MAB ydoedd i Edward ac Ellen Owen, Talyllyn, Cwmystradllyn. Nid oedd ei rieni yn proffesu crefydd, ond yr oeddynt o ymarweddiad diargyhoedd. Rhoddent bwys mawr ar fyw crefydd yn ymarferol. Efallai mai eu syniad uchel am fywyd o broffes grefyddol a barodd iddynt oedi ymuno â'r eglwys. Addysgent eu plant yn dda yn ffyrdd rhinwedd a moesoldeb. Bu iddynt saith o blant, sef pedwar o feibion a thair o ferched. Ganed Owen Owens, yr hwn oedd yr hynaf o'r plant, yn y fl. 1810, ac efe a fu farw Mehefin 6, 1888. Yr oedd yn 48 oed pan ymunodd â'r

eglwys. Dygwyddodd amgylchiad hynod ynglŷn â'i ymgyflwyniad i'r Arglwydd mewn proffes gyhoeddus. Ymddengys iddo ef a'i frawd, Mr. W. Owen, Cwmmawr, a'u chwaer Mrs. Humphreys, Bron Foel, dd'od i'r penderfyniad, pan oeddynt gartref yn Talyllyn, i fyned gyda'u gilydd i'r *Society* i gapel Penmachno. Ond pan ddaeth yr adeg i gychwyn digalonodd y chwaer, o herwydd ofnai nad oeddynt eu tri wedi teimlo peth digon mawr i roddi cam mor bwysig. A chan mai hi oedd yr henaf, digalonodd y ddau frawd hefyd. Ymhen ugain mlynedd yr ymunodd y tri â'r eglwys, Mrs. Humphreys yn Brynmelyn, William Owens yn Penmorfa, ac Owen Owens yn Cwmystradllyn, *yr un noswaith*, a hyny yn hollol ddiarwybod i'w gilydd.

Ei reswm dros ymuno âg eglwys Crist oedd y byddai yn ddigon da i fyned i golledigaeth i gydfyw â'r diafol, os dyna fyddai ei ran, wedi gwneyd ei oreu gyda golwg ar gaffael iachawdwriaeth a theyrnas y Gwaredwr." "Gwnaf fy ngoreu, deued a ddêl," meddai. Yr oedd yn ei gymeriad lawer o linellau gwerthfawr a theilwng o efelychiad. Hynodid ef fel un teg a gonest mewn masnach. Ni arferai lawer o eiriau wrth brynu na gwerthu,' ond rhoddai a gofynai yr hyn a farnai fyddai y gwir werth. A meddai graffder anghyffredin i adnabod gwerth nwyddau ac anfeiliaid. Mewn rhai amgylchiadau rhoddodd fwy nag a ofynid, am *y credai fod yr eiddo yn werth mwy*. Diau fod hyn yn rhinwedd y dylai holl fasnachwyr ac amaethwyr ein gwlad ei ddwyn i ymarferiad yn llawer mwy cyffredinol. Er mai wrth farn gywir, ac yn ol cyfiawnder manwl, y dygai ymlaen ei holl ymdrafodaeth â'r cyhoedd, eto fel penteulu yr oedd yn addfwyn a hynaws; ac fel cymydog yr oedd yn heddychlawn a chymwynasgar. Fel yr oedd i fesur helaeth iawn yn cyfateb i'r desgrifiad ysgrythyrol o ddyn da: "Gŵr da sydd gymwynasgar, ac yn rhoddi benthyg; wrth farn y llywodraetha efe ei achosion."

Yr oedd yn Ymneillduwr a Rhyddfrydwr trwyadl, ac yn bur i'w egwyddorion ymhob amgylchiad. Cyn i gyfraith y *ballot* ddyfod i rym, daeth boneddwr ato dros ei feistr tir i geisio ganddo bleidleisio dros yr ymgeisydd Ceidwadol. Defnyddiodd bob dull i gael ganddo addaw ei bleidlais iddo. Ac yn niwedd yr ymddyddan dywedai y boneddwr, wedi dyhysbyddu ei holl resymau, ei addewidion, a'i fygythion: "Waeth i chwi foddhâu eich meistr am y tro hwn, oblegid bydd y Rhyddfrydwyr yn sicr o gael mwyafrif mawr yn yr etholiad agosäol." "Nid wyf yn ammheu hyny," meddai yntau, "ond da bod yn *siwr*. Gwell fyddai i chwi a minnau gefnogi y Rhyddfrydwr, er mwyn bod yn sicr o gael yr Iuddew (Disraeli) oddiar yr orsedd." "Paham," meddai y boneddwr, "yr ydych gymaint yn erbyn yr Iuddew? Ei genedl ef oedd y gyntaf etholodd Duw iddo ei hun." "Dyna y gyntaf wrthododd Efe hefyd," meddai Owen Owens; "gwael yw i ni eu dewis wedi i'r Arglwydd eu gwrthod." Ar hyn aeth y boneddwr ymaith, heb lwyddo i'w syflyd oddiwrth ei egwyddorion. Yr oedd yn ddarllenwr mawr, ac yn feddyliwr da. Darllenai y Bibl yn rheolaidd a chyson. Cymerai un o lyfrau y Bibl yn faes i lafurio ynddo; gan ddarllen ychydig yn feunyddiol, a meddwl ar yr hyn a ddarllenai, ac ymchwilio am gynnorthwy i ddeall y gwirionedd mewn ysgrifeniadau dynion oedd wedi eu donio â galluoedd a manteision amgen nag ef i ddeall meddwl Duw yn ei eiriau. Darllenai y ddwy Drysorfa o'u cwr bob mis yn ddifeth. Bu yn dderbynydd ac yn ddarllenwr cyson o'r Drysorfa am 48 mlynedd.

Nodwedd neillduol arall yn ei gymeriad oedd haelioni. Cyfranai yn haelionus at bob achos dyngarol a chrefyddol. Yr oedd yr achos crefyddol yn Cwmystradllyn yn agos iawn at ei galon. Profai hyny yn ei ewyllysgarwch a'i barodrwydd i'w gynnorthwyo, beth bynag fyddai yr amgylchiadau a'r anghen. Yr oedd ei logell a'i eiriau yn profi grym ei gariad at achos ei Waredwr. Bu efe a Richard Humphreys, Ynys Wen, yn neillduol o lafurus gydag adeiladu yr ysgoldy y tro cyntaf; er nad oeddynt y pryd hwnw yn aelodau eglwysig. Drachefn pan osodwyd eisteddleoedd newyddion yn y capel, dygodd efe a'i frawd, Mr. Henry Owens, fwy na hanner y draul. Pan ddechreuwyd adeiladu y capel newydd y llynedd, teimlai ddyddordeb dwfn ynddo; er y dywedai yn fynych na welai efe mo hono wedi ei orphen. Ac felly fu; ond yr oedd wedi cyfranu yn helaeth ato cyn marw. A dymunodd ar ei briod roddi swm ychwanegol ar ol ei ymadawiad. Gwnaeth hithau yn unol â'i ddymuniad.

Hefyd yr oedd ei ffyddlondeb i ddylyn pob moddion yn ddiarebol. Cafodd gystudd maith a phoenus, ond gogoneddodd Dduw ynddo trwy ymostwng yn ddirwgnach i ewyllys ei Dad. Mwynhaodd gysuron yr efengyl yn helaeth yn ystod ei gystudd blin. Bu farw gan ymddiried yn ddiysgog yn haeddiant yr Hwn a osododd Duw yn Iawn. Claddwyd ef yn mynwent Llanfihangel-y-Pennant. *Private* oedd ei angladd, yn unol â'i ddymuniad; ac o dan y drefn newydd,—y cyntaf yn y fynwent uchod. Gwasanaethwyd yn y tŷ ac wrth y bedd gan yr ysgrifenydd, yr hwn hefyd a draddododd bregeth angladdol yn yr hwyr yn y Capel.

Lloffion.

GORCHYMYN EI HARGLWYDD I BETTI.

Yr oedd yr hen Betti mewn oed pan ddychwelwyd hi. Er ei bod yn bur dlawd, yr oedd yn hynod weithgar. Ymwelai â'r tlodion; o'i phrinder ei hun rhoddai i'r rhai oedd yn brinach fyth; casglai ychydig arian gan eraill i'w rhoddi pan nas gallai roddi dim ei

hunan, a dywedai wrth aml un am gariad y Gwaredwr. O'r diwedd cafodd anwyd a'r cryd cymalau, a gorweddai yn ei gwely fis ar ol mis, mewn poenau ac heb allu symud. Aeth gweinidog duwiol i ymweled â hi, a gofynai a oedd hi ddim yn teimlo y cyfnewidiad yn anhawdd ei ddyoddef ar ol y bywyd gweithgar oedd hi wedi fyw? "Nac ydwyf, Syr, ddim o gwbl," ebai hithau. "Pan oeddwn yn iach," meddai, "byddwn yn clywed yr Arglwydd yn dyweyd wrthyf ddydd ar ol dydd, 'Betti, dos i'r fau yna; Betti, dos i'r fan draw; Betti, gwna hyn; Betti, gwna y llall;' a byddwn innau yn ei wneyd goreu y gallwn. Ac yn awr, yr wyf yn ei glywed yn dyweyd bob dydd, 'Betti, gorwedd yn llonydd a phesycha.'"—JAMES HAMILTON, D.D.

GEIRIAU Y DOETHION.

GELLWCH fod yn sicr mai dyn da yw yr hwn ag y mae ei gyfeillion mynwesol oll yn ddynion da, a'i elynion yn ddynion diammheuol ddrwg.

Y dirgelwch pa fodd i chwi garu eich gelyn ydyw peidio byth a cholli yr olwg ar *y dyn* ynddo.

Y mae hanner gwirionedd yn anwiredd cyfan.

Yr hwn sydd yn cymdeithasu â rhai mwy nag ef ei hun, yn mwynhau eu mawredd, ac yn anghofio ei bethau mwyaf ei hunan yn eu pethau mwy hwy, sydd eisoes yn wirioneddol fawr.

Y mae yr hwn a fu farw hanner blwyddyn yn ol mor farw ag Adda.

Cronicl Cenadol.

DOSBARTH SHELLA.

RHANAU O LYTHYRAU ODDIWRTH Y PARCH. W. WILLIAMS.

Mai 20fed, 1889.

ER pan yr ysgrifenais ddiweddaf bu Mr. Ceredig Evans a minnau am daith fechan yn Maram. Yn Nongsynrih bedyddiwyd tri ar hugain. Y mae gwedd lewyrchus ar y gwaith yno, ac y mae argoelion y bydd iddo fyned rhagddo. Clywais y dyddiau diwedlaf yma fod yno amryw o'r newydd wedi amlygu eu dymuniad i ddyfod yn Gristionogion. Dangosir cryn lawer o elyniaeth at Gristionogaeth gan rai o'r pentrefwyr. Y mae un o honynt wedi bygwth lladd rhai o'r Cristionogion. Nid yw amgylchiadau o'r natur yma yn ddrwg i gyd: y maent yn foddion i brofi rhyw gymaint ar y sawl sydd yn dyfod drosodd at Gristionogaeth, heb son am y chwiltrydedd y maent yn greu yn meddyliau eraill mewn perthynas iddi, yr hwn sydd yn cael ei oruwchlywodraethu yn aml gan Dduw fel moddion i'w dwyn yn nês at y gwirioneddau. Cawsom ein boddhau yn fawr wrth glywed y plant yn canu mor dda a swynol. Y mae yr athrawes yn gantores dda iawn, yn meddu ar lais swynol, ac yn deall digon o'r Nodiant Newydd i ganu tôn ar yr olwg gyntaf.

O Nongsynrih aethpwyd i Rangthong i agor y capel newydd. Y mae yno gapel da iawn, ac ystyried na chawsant rhyw lawer o gymhorth o'r tu allan iddynt eu hunain. Ar y Sabboth, pryd y cafwyd tair pregeth, cafwyd cynnulleidfaoedd cysurus. Yr oedd yr hin yn wlyb, a nifer o'r Cristionogion yn dygwydd bod oddicartref. Yn hwyr yn y prydnawn cafwyd cyfarfod i ganu ac i arholi y plant. U Ramjan, yr Efengylydd, oedd yn arholi, a synwyd ni yn fawr gan atebion y plant. Y mae yna lwyddiant mawr wedi bod ac yn bod ar y gwaith yn y rhan yma o'r wlad.

Nid oedd amser genym i fyned i Nonguah. Cefais lythyr yr wythnos hon oddiwrth yr athraw, ac hefyd oddiwrth un o'r dychweledigion, o'r enw U Addishon. Blwyddyn yn ol nid oedd yn gwybod dim am ysgrifenu. Y mae ef, yaghyd ag eraill, wedi gwneyd cynnydd dirfawr. Dywedai yr athraw fod y dychweledigion yn parhau yn "brydferth a chywir" yn eu hymarweddiad, ac eu bod wedi dechreu casglu yn fisol at y gwaith fel pob eglwys arall.

Daethom yn ol o *Rangthong* trwy *Jakrem*. Nid yw y *Sim* yno yn dal ei dir yr wythnosau diweddaf yma fel y dymunem iddo. Y diodydd meddwol sydd fagl iddo ef fel i lawer yn y wlad. Yr wyf wedi danfon athraw i'r pentref yn ddiweddar, gan obeithio y bydd i'w fynediad yno droi yn lles i'r brenin a'i ddeiliaid.

Yr ydys wedi helaethu yr ysgoldŷ yn Lait yma yn ddiweddar, ac y mae y cyfeillion wedi amlygu eu dymuniad ar i'r tŷ gael ei alw yn "Dŷ o Addoliad" yn y dyfodol. Y maent wedi dechreu adeiladu ysgoldŷ arall yn ymyl ar gyfer yr ysgol ddyddiol.

Yr wythnos ddiweddaf bum yn ymweled â hen wŷr tua 90 mlwydd oed yn y pentref, sydd yn ei hen ddyddiau wedi amlygu ei fwriad i ddyfod yn Gristion, wedi cael llwyr ddigon meddai ar y grefydd Gasi a'i chythreuliaid. Flynyddau yn ol, yn Shella, yr oedd yn enwog fel aberthwr a thorwr wyau. Ond er ys amryw flynyddau bellach y mae wedi llwyr adael y pethau yna, gan ymddiried yn hollol yn Nuw, ac yr oedd yn ceisio gweddïo ar Dduw i ofalu am dano.

Y dyddiau diweddaf yma y mae wedi dechreu gweddïo yn enw yr Arglwydd Iesu. Ymddangosa yn awyddus iawn i dderbyn cyfarwyddiadau pellach ynglŷn â'r "ffordd hon." "Oddeithr eich troi chwi a'ch gwneuth ur fel plant bychain, nid ewch chwi ddim i mewn i deyrnas nefoedd." Y mae yr hen wŷr hwn yn sicr o fod yn gwybod rhywbeth am yr Ysbryd sydd yn gwneyd dynion fel plant —parod i dderbyn addysg—parod i ymddiried ac i gymeryd eu llywodraethu gan eu Tad. Dywedai yr hen wŷr, druan, gyda llais crynedig, "Beth allaf fi wneyd? Yr wyf yn ymddiried yn hollol iddo Ef. Efe pia fi i gyd, ac yr wyf yn rhoddi fy hun yn gyfangwbl iddo Ef. Y *rice* a'r pysgod, Efe sydd yn eu rhoddi 'Dallaf fi wneyd dim. Yr wyf yn gweddïo arno nos a dydd am iddo ofalu am danaf. Y dyddiau diweddaf yma

yr wyf wedi dechreu gweddïo arno yn enw Iesu Grist, Mab Duw, yr hwn a ddyoddefodd farwolaeth yn ein lle."

Yn ddiweddar yr ydys wedi derbyn tri neu bedwar i'r eglwys yn Tynger o bentref Dewsaw.

Y mae yma amryw wedi marw o'r *cholera* yn Shella yn ddiweddar, ac yn eu mysg un o'r Cristionogion—nith i U Timothy. Ar ddydd Gwener yr oedd yr olaf yma, a rhoddais lyfrau iddo i'w roddi iddi fel gwobr am ddysgu ar ei chof amser yn ol y llythyr at yr Hebreaid, ac ar y dydd hwnw yr oedd yn hollol iach. Yn gynnar ddydd Sadwrn yr oedd ei hysbryd wedi ehedeg at Dduw. Y mae plant y Dosbarth wedi gwneyd yn dda iawn yn y *primary examination* ddiweddaf. O'r pump *scholarship* i'r holl Fryniau (Khasia a Jaintia), y mae tair o honynt wedi dyfod yma, un i Laitkynsew, un i Nongwar, ac un i Nongnong Shella. O'r 49 o blant a aethant trwy y *Lower Primary Scholarship and Pass Certificate Examination* y flwyddyn hon yn y dosbarth cyntaf, yr oedd 21 o'r Dosbarth hwn (Shella). Bachgen un ar ddeg oed o Laitkynsew sydd ar ben y rhestr. O'r 13 yn yr Ail Ddosbarth mae un o'r cylch hwn, sef bachgen naw oed, o Rangthong, Maram.

DOSBARTH CHERRA.

Llythyr oddiwrth y Parch. John Roberts.

Cherra, Mehefin 10fed, 1889.

TAITH I'R DYFFRYNOEDD.

Ar ol i'r ysgol dori i fyny yn Ebrill, aethum gyda dau neu dri o'r frawdoliaeth yma i lawr i'r Dyffrynoedd. Y lle cyntaf yr aethom iddo oedd *Mynteng*. Y noson gyntaf ar ol cyrhaedd, cynnaliwyd cyfarfod eglwysig. Yr oedd y Cristionogion oll oddigerth un wedi d'od ynghyd. Am yr un oedd yn absennol, nis gwn yn iawn beth i wneyd o hono—dyn balch, hunan-ddigonol ydyw. Y mae yn pallu dyfod ymlaen i gael ei fedyddio, gan ddwyn y rhesymau mwyaf afresymol dros ei ymddygiad. Buwyd yn holi y gweddill i weled pa gynnydd oeddynt wedi ei wneyd mewn gwybodaeth er pan fum yno o'r blaen. Dal yn dywyll iawn y maent, ac ychydig o gynnydd oeddynt wedi ei wneyd. Y mae llawer iawn o'r bai ar yr athraw, a rhaid iddo fyned ynghylch ei helynt os na bydd iddo wella. Ni ellais dderbyn neb yn gyflawn aelodau, oblegid nad ydynt yn gwybod digon. Boreu drannoeth cafwyd cyfarfod i bregethu, a daeth lliaws mawr ynghyd. Y mae yma rai yn nesu at grefydd Iesu Grist. Pwyswyd llawer ar y Cristionogion i gyfranu yn helaethach tuag at ddwyn y gwaith ymlaen.

Oddiyma aethom i *Tyrna*. Tua thri o'r gloch cynnaliwyd cyfarfod eglwysig, pryd yr oedd pawb yn bresennol. Ymddangosai pethau yn llawer mwy llewyrchus yma nag yn Mynteng - y Cristionogion yn gweithio yn well, ac yr oeddynt wedi dyblu yn eu casgliadau eglwysig. Y mae y llafur gyda'r Ysgol Sabbothol, yn enwedig ymhlith y merched, yn rhagorol. Y mae yn y pentref amryw yn agosâu at grefydd Iesu Grist. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod lliosog, a phregethodd dau o honom. Treuliwyd y gweddill o'r amser, hyd tua banner nos, i siarad yn bersonol âg amryw o'r pentrefwyr. Boreu drannoeth arholwyd yr ysgol ddyddiol. Y mae y merched â golwg llawer gwell arnynt na'r bechgyn, ond y mae digon o le i wella gan y naill a'r llall.

Dydd Mercher aethom i bentref *Mawlong*. Chwi gofiwch fod cais wedi cael ei wneyd amser yn ol am gael ysgol ddyddiol i'r lle hwn, ond nad oeddych yn gallu fforddio ei rhoddi iddynt. Rai misoedd yn ol dechreuais anfon rhai o'r Cristionogion i lawr oddiyma i gynnal cyfarfodydd yno ar y Sul, ac y mae amryw yn dyfod ynghyd. Cafwyd cyfarfod lled dda yno, a daeth crynnifer ynghyd. Y mae yno dri neu bedwar o deuluoedd cyfain yn agos iawn at Gristionogaeth, ac yr wyf yn hyderu na byddant yn hir cyn bwrw eu coelbren gyda ni. Yr wyf yn credu mai gwell fyddai gadael y pentref hwn heb athraw, a chario y gwaith ymlaen fel yr ydym yn gwneyd yn awr, am dymmor o leiaf, hyd nes y cawn ein llwyr argyhoeddi fod yno nifer lled dda yn barod i gymeryd rhan o'r gwaith ar eu hysgwyddau eu hunain. Y mae yn bentref mawr—yn un o'r rhai mwyaf, os nad y mwyaf, ar ol Shella, yn yr holl Ddyffrynoedd. Drannoeth yr oeddwn yn gorfod dyfod i fyny yma i briodi cwpl oedd wedi cytuno i fyw ynghyd "er gwell ac er gwaeth." Yr oedd y briodferch yn forwyn gyda Mrs. Roberts, ac yn ferch ieuanc ragorol, a'r priodfab yn swyddog dan y Llywodraeth yn Shillong; bachgen oedd wedi bod gyda mi yn yr ysgol yma flynyddoedd yn ol.

UMNIUH.

Ddydd Gwener cychwynasom am *Umniuh*, ac wedi teithio yn galed trwy y dydd, a cholli chwys lawer, cyrhaeddwyd pan oedd yr haul ar fachludo. Yr oeddym oll wedi blino yn llwyr. Wrth fyned cymerasom lwybr nad oeddwn wedi bod ar hyd ddo o'r blaen—llwybr lled anhygyrch, ond yn unionach o rai milldiroedd na'r un yr arferem fyn'd ar hyd-ddo. Y mae yma olygfa mewn un man ar y llwybr hwn nad wyf yn meddwl y byddai yn hawdd cael ei chyffelyb. Nid wyf fi erioed wedi cael fy nghyfuddo o fod â llawer o'r bardd ynwyf; ond pan ddaethum i'r lle hwn aeth rhyw iasau rhyfedd trwof, ac nis gallwn ymattal rhag rhoddi bloedd ar y tarawiad cyntaf. Yr oedd wedi bod yn gwlawio yn drwm er ys dyddiau, ac felly yr oedd yr afonydd yn bur llawn. Yr oeddym yn myned ar led-draws ochr serth, lawn o *jungle*, fel nad oeddym yn gweled dim o'n deutu, ond yr oeddym yn clywed trwst dyfroedd lawer er ys meityn, ac yn ddisymwth dyma ni at lan yr afon sydd rhwng Nongjiri ac Umniuh. Ar ein llaw chwith, ar yr ochr uchaf i ni, yr oedd rhaiadr yn taflu dros ei droed swm anferth o ddwfr, ac yn disgyn ar un naid beth hynag gan' llath. Yna treiglai y dwfr gyda therfysg yn nghanol *boulders* anferth o faint. Wedi rhedeg rhwng y rhai hyn am ddau neu dri chant o latheni, yr oedd

yn d'od allan ar graig noeth. Ar y cyntaf nid yw y graig yn serth, ac yn y fan hon yr oeddym yn gallu ei chroesi, ond yn fuan dis-gyna ar ffurf bwa, ac ymsaetha i lawr i'r gwaelodion am gannoedd o latheni, ac ym-golla o'n golwg rhwng dwy graig fawr sydd yn ymgodi yn syth o'r gwaelod. Y mae y graig dros yr hon y treigla y dwfr tua phed-war ugain llath o led ar y top ac yn culhau at y gwaelod, a'r dwfr yn lluchio, yn neidio, yn trochioni, ac yn taranu wrth gael ei hyrddio i lawr dros wyneb anwastad y graig. Y mae yr olygfa yn dwyn yn fyw iawn i'm cof englyn Dewi Wyn i'r rhaiadr:—

"Uchel gadr raiadr dwr ewyn—hydrwyllt,
Edrych arno 'n disgyn;
Crochwaedd y rhedlif crychwyn,
Synu, pensyfrdanu dyn."

Ni wnaethom lawer o waith ddydd Sadwrn —yr oeddym yn rhy flin. Yn y prydnawn cynnaliwyd cyfarfod eglwysig, pryd y der-byniwyd dwy ferch ieuanc i'r eglwys ar brawf. Yr oedd yn dda iawn genyf weled y rhai hyn, a hyny am reswm hwyrach a ymddengys yn rhyfedd i lawer yna yn Nghymru. Y mae yr eglwys yn Umniuh yn cael ei gwneyd i fyny gan mwyaf o ddynion ieuainc, ac nid oedd yn yr eglwys o'r blaen ond un ferch ieuanc, ac ymha le yr oedd y dynion ieuainc i gael gwragedd? Bellach bydd y demtasiwn yn llawer llai. Derbyniwyd nifer i gael eu bedyddio hefyd ac yn gyflawn aelodau. Yr oedd y rhai a dderbyniwyd yn gyflawn aelod-au wedi bod yn ddiwyd iawn mewn darllen a chaglu gwybodaeth, ac yr oedd rhai o hon-ynt wedi cyrhaedd profiad addfed iawn mewn crefydd ysbrydol. Addawodd pob un o honynt hefyd wneyd ei oreu er hyrwyddo teyrnas Iesu Grist yn y pentref. Yn yr hwyr cynnaliwyd cyfarfod gweddi.

Y Sabboth cyfarfod gweddi am chwech o'r gloch y boreu. Am ddeg cyfarfod pregethu. Am un treuliwyd yr oll o'r cyfarfod i eglwro y ddwy ordinhad o Fedydd a Swper yr Arglwydd, ar yr hyn y gwrandewid yn ddyfal iawn. Dyma y tro cyntaf i'r ordinhad o Swper yr Arglwydd gael ei gweinyddu yn y pentref hwn. Am dri, cyfarfod eto i bregethu, ac am saith, cyfarfod eglwysig i hyfforddi a chynghori y Cristionogion yn eu dyledswydd-au fel Cristionogion. Mewn parodrwydd meddwl ac ufudd-dod, yr wyf yn meddwl fod y Cristionogion yn Umniuh ar y blaen i un eglwys arall yn y dosbarth hwn. Treuliwyd dydd Llun i fyned o gwmpas tai y pentref i ymddyddan â'r bobl, ac ar y cyfan cafwyd cryn groesaw. Ond cefais i brofiad nad wyf yn cofio cael ei gyffelyb erioed yn y wlad. Pan oeddwn ar fyned i mewn i un tŷ cauodd y wraig y drws yn glep yn fy wyneb rhag i mi fyned i mewn. Druan o honi—yr oedd arni ofn a chywilydd fel nas medrai feddwl am siarad â mi. Yr oedd wedi bod yn angharedig iawn wrth berthynas iddi sydd yn Gristion. Y mae ei phlant er hyny yn d'od i'r cyfarfodydd ar y Sabboth. Nos Lun cafwyd cyfarfod i bregethu, a phregethodd U Khnong a minnau oreu y gallem. Yr oedd yr ysgoldŷ yn orlawn o bobl, ond y fath oedd y gwynt a'r gwlaw, y mellt a'r taranau, fel y mae arnaf ofn na wnaed llawer iawn o les, er fod y bobl yn gwrandaw yn dda. Drannoeth bwriadem fyned ymaith, ond yr oedd yr afonydd wedi codi cymaint fel nad oedd un siawns i ni eu croesi, felly cawsom ddiwrnod drachefn i fyned o amgylch y pen-tref. Dydd Mercher pa fodd bynag cychwyn-asom yn ol yr un ffordd ag y daethom, a daethom unwaith eto at y rhaiadr ofnadwy y soniais am dano. Nid oedd modd ei groesi yn yr un man ag o'r blaen, gan faint y cen-llif. Yr oedd llywodraethwr Umniuh wedi d'od gyda ni a phedwar ar ddeg o ddynion gydag ef er mwyn gwneyd mân bontydd o *bamboos* dros y *boulders* mawr yn nghanol yr afonydd. Buwyd wrthi yn hir, ac yn y diwedd llwyddwyd i fyned drosodd heb i ddim anghysurus ddygwydd. Wedi canu a gweddio ar y lan draw, ymadawsom â'n gilydd, a chyrhaeddwyd *Nongjori* yn weddol gynar. Pregethwyd yno y noson honno i gynnulleidfa lled fawr. Drannoeth cynnal-iwyd cyfarfodydd i bregethu drwy y dydd. Y mae llawn gwell golwg ar y pentref hwn yn awr nag a welais erioed, y mae yno amryw yn cadw y Sabboth, ac yn nesu at grefydd Iesu Grist. O Nongjiri aethom i *Ryngud*. Nid oes nac athraw nac ysgol yn y pentref hwn, ond y mae yno nifer wedi adeiladu ysgoldŷ, ac y mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar y Sabboth. Lle cenadol i bobl Sohbar ydyw hwn, ac y maent yn gweithio yn dda yno. Bydd pump neu chwech yn myned yno bob Sabboth i addysgu y bobl ac i bregethu iddynt. Cawsom ninnau gyfarfod da iawn yno. Y mae yno amryw yn medru darllen, ac y maent yn dysgu eu gilydd. Nid wyf yn bwriadu gofyn am athraw iddynt nes cael lle i gredu fod yno ragolygon diymwad y bydd yno nifer da yn dyfod yn Gristionogion, ac hyd yn nod wedi hyny gwaith yr athraw fydd eu dysgu yn dda yn egwyddorion crefydd Iesu Grist. Yr wyf yn teimlo yn bur sicr mai rhyw gynllun tebyg i hyn ddylid fabwysiadu tuag at y pentref sydd wedi cael ysgolion unwaith, ac wedi eu gadael i farw o ddiffyg cefnogaeth. Lle felly ydyw Mawlong, a lle felly ydyw Ryngud. Ac yr wyf yn credu fod y rhagolygon yn y ddau le hyn yn awr, hyd yn nod heb athraw, yn well nag y buont erioed o'r blaen pan oedd ganddynt athraw-on. Dydd Sadwrn aethom i

SOHBAR,

a threuliwyd Sabboth hyfryd iawn yno. Y mae y gwaith wedi gwreiddio yn dda yn Sohbar. Nos Sadwrn cafwyd cyfarfod eg-lwysig i dderbyn wyth neu naw i'r eglwys ar brawf, ac i dderbyn nifer yn gyflawn aelodau. Y mae cymaint o Gristionogion yn Sohbar ei hun yn awr ag oedd yn yr holl ddosbarth, gan gynnwys Nongsawlia, pan ddaethom yma. Y mae yno amryw eraill hefyd yn agosâu. Yr oedd yr ysgoldŷ mawr yn llawn iawn ar hyd y Sabboth. Cafwyd cydgyfranogi o Swper yr Arglwydd yn y cyfarfod canol, yr hyn sydd yn cyfateb i'r "oedfa ddau" yna. Ar ol y cyfarfod hwn cychwynais i fyny am Nongsawlia a chyr-haeddais yn flin iawn ychydig wedi iddi nosi.

Cefais daith hapus iawn mor bell ag yr oedd y cyfarfodydd a'r olwg oeddwn yn gael ar y gwaith yn myned; ond yr oedd yr hin yn boeth anarferol—yn annyoddefol felly ar brydiau, ac yr wyf finnau bellach yn teimlo mwy oddiwrth y gwres a blinder nag yr arferwn pan yn iau. Boreu drannoeth yr oeddwn yn cychwyn am Nongrymai ac i Shillong, i fyned ymlaen gyda chywiro y cyfieithiadau o'r Hen Destament. Bu Mr. Jones a minnau wrthi yn ddygn iawn. Rhwng y daith i'r dyffrynoedd yn y gwres a'r lludded a'r gwaith wedi hyny yn Shillong, yr wyf yn credu i mi weithio gormod. Bum yn lled wael fy iechyd am tua phythefnos wedi i mi gyrhaedd adref. Erbyn hyn yr wyf yn mwynhau fy iechyd arferol, a diolch i Dduw am fy nghynnal mewn iechyd mor dda ar hyd y blynyddoedd. Fy ngweddi ydyw ar i mi gael fy nghynnal a'm cadw eto am flynyddoedd lawer, oblegid yr wyf yn hoffi fy ngwaith, ac nid wyf yn dymuno ei newid, na chael fy nhroi o'r neilldu gan afiechyd na dim arall.

NONGSAWLIA A CHERRA.

Y mae y gwaith yn Nongsawlia a Cherra yn myned rhagddo yn lled dda. Y mae Nongsawlia ei hun wedi myned yn bentref Cristionogol lled fawr bellach, ac y mae yn ymledu bob blwyddyn. Y mae nifer lled dda o Gristionogion hefyd yn mhentref Cherra. Yn wir yr ydym yn annog y rhai cryfion oll i aros yn Cherra a pheidio d'od i fyw i Nongsawlia. Yr ydym wedi derbyn amryw i'r eglwys yma eleni. Yn nechreu y flwyddyn derbyniwyd gwraig weddw a thri o'i phlant—tair merch. Yr oedd hi yn mynychu y moddion er ys amser maith, wedi dysgu darllen trwy offerynoliaeth un o'r *Bible Women* ac yn deall crefydd yn dda. Yr oedd arni awydd ymuno â ni er ys talm, ond yr oedd ei theulu yn wrthwynebol iawn. Y mae ei theulu yn un o'r rhai cyfoethocaf yn Cherra, ac, oddigerth y brenin, nid oes penach gelynion i grefydd yn yr holl gylch yma. Tua chwech wythnos yn ol galwyd am dani i ddyfod i dŷ ei mam ac aeth hithau, yn hollol ddifeddwl drwg. Erbyn iddi fyned yno yr oedd yr holl deulu wedi ymgasglu ynghyd, ac ar unwaith dechreuasant ei pherswadio i adael crefydd Gair Duw. Safai hithau yn gadarn. Yna, dyna ei brawd yn dechreu ei churo a'i chicio; ceisiai hithau ddianc ac yntau ar ei hol ar hyd y pentref a phastwn yn ei law yn ei churo. Yr oedd wedi ei chleisio yn fawr, druan, ac wedi dychryn mwy na hyny, ond y mae hi yn gadarnach nag erioed. Dynes o feddwl cryf a phenderfynol iawn ydyw. Rhodded Duw iddi nerth i ddal ei ffordd.

Hefyd, ymunodd dau ddyn ieuanc lled ddymunol o bentref Cherra. Nid oes dim yn hynod yn yr un o'r ddau. Yr wythnos ddiweddaf yr oeddym yn derbyn dyn mewn oed o Wahong a thri o'i blant. Bu y dyn hwn yn yr ysgol yn Nongsawlia pan oedd yn llanc, ac y mae yn ddyn deallgar a hynaws. Y mae ganddo blant dymunol iawn hefyd. Yr wyf yn dysgwyl na bydd ei wraig a'r gweddill o'r plant ddim yn hir. Yr un noson hefyd yr oeddym yn derbyn gwraig o Cherra a thri o'i phlant. Yr oedd ei gŵr a thri o'i phlant yn Gristionogion er ys talm, ond yr oedd rhywbeth yn hynod lithrig ac anhawdd dal gafael ynddi yn y wraig. Yr wyf yn cofio rai blynyddoedd yn ol fod Mrs. Roberts yn siarad â hi, a hithau yn gwrando yn dda (y mae ganddi wyneb agored, rhadlon), ac ymddangosai yn cymeryd pob gair i mewn, a Mrs. Roberts yn teimlo fel pe b'ai yn cael nerth ysbryd i siarad â hi. Ond ymhen tipyn dyma y wraig yn cymeryd ei hanadl ac yn dyweyd a gwên ar ei gwyneb, "Wel, wyddoch chwi beth yr ydych yn ddoniol ac yn gallu siarad yn dda," ac i ffwrdd â hi, nes oedd Mrs. Roberts yn syrthio yn ol yn ei chadair wedi ei llwyr orchfygu, a bron tori i wylo gan ddigalondid. Ond ni a obeithiwn fod Ysbryd Duw wedi siarad yn ei chalon. Yr oedd golwg ddymunol arni wrth gael ei derbyn.

Y mae fy llythyr eisoes wedi myned yn rhy faith o lawer, onidê buasai yn dda genyf ddyweyd amryw bethau eraill.

Yr oedd yn wirioneddol dda genyf ddeall fod Dr. Griffiths a'r teulu wedi cyrhaedd adref yn ddyogel. Diolch i Dduw drostynt. Y mae Dr. Griffiths wedi gwneyd gwaith mawr yn Khasia, ac y mae yn *ôr Duw* yn ddiammheuol. Gofalwch na ddaw dim i'w rwystro yn ol.

DERBYNIADAU AT Y GENADAETH.

DYMUNA y Trysorydd Cyffredinol gydnabod yn ddiolchgar dderbyniad y symiau canlynol er yr hysbysiad diweddaf:—

	£	s.	d.
Holt Road, Liverpool	7	9	10
Netherfield Road, Liverpool	22	12	6
Ebenezer, Blaina, Casgliad y Plant	4	14	5
Cymro	1	0	0
Mrs. Margaret Jones, Pwllheli	20	0	0
Y Parch. W. Evans, M.A., Pembroke Dock, tuag at ail-adeiladu Capel Sobka	1	0	0

Gorphenaf 15*fed*, 1889.

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, DAVID HUGHES, ESQ., J.P., 4, *William Moult Street, Liverpool.*

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank, to the credit of Mr. David Hughes, Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society.* Gofaler am i bob *cheque* neu *Postal Order* a anfonir fod yn "crossed."

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. HERBERT LEWIS, ESQ., *Central Buildings, North John Street, Liverpool.*

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* JOSIAH THOMAS, M.A., 28, *Breckfield Road South, Liverpool.*

P. M. EVANS AND SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON.